Rhif: WG43550

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

**Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion**

# Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio

## Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru

**31 Mawrth 2022**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021
ISBN digidol: 978-1-80391-912-6

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Dim. Dogfen er gwybodaeth yw hon. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Is-adran Diogelu'r Amgylchedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br><br>EnvironmentalProtectionDivision@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:<br><br>https://llyw.cymru/cynllun-atal-sbwriel-thipio-anghyfreithlon-i-gymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru ar gael yn:<br><br>https://llyw.cymru/cynllun-atal-sbwriel-thipio-anghyfreithlon-i-gymru |

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 5

Sut mae data yn cael ei adolygu a'i gyflwyno yn y ddogfen hon ........ 5

Ymatebion i'r ymgynghoriad........ 5

**Gan gynnwys ymatebion lluosog gan yr un Awdurdod Lleol*........ 6

Iaith yr ymatebion........ 6

**Ymatebion i'r ddogfen ymgynghori lawn** ........ 7

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun sengl? Os nad ydych, rhowch reswm am eich ateb........ 7

**Cwestiwn 2**: Ydych chi'n cytuno â'r themâu yr ydym ni wedi'u dewis? Ydych chi'n meddwl y byddant yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau? Os na, pa themâu eraill sydd angen eu cynnwys yn eich barn chi?........ 13

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema addysg a newid ymddygiadol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau. ........ 41

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema addysg a newid ymddygiadol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol........ 46

**Cwestiwn 10**: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema gorfodi effeithiol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol........ 55

**Cwestiwn 11**: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau........ 58

**Cwestiwn 13**: Mae ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn cynnwys sawl cam gweithredu. Yn eich barn chi, pa rai ddylai gael blaenoriaeth? Rhowch resymau........ 63

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio. Nododd rhai ymatebwyr gam gweithredu penodol a oedd, yn eu barn nhw, â blaenoriaeth uchel, er enghraifft, *EOD(6) Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi rhaglenni addysg /hyfforddiant presennol a nodi bylchau /cyfleoedd ar gyfer rhai newydd*, tra bod eraill wedi nodi nifer o gamau gweithredu. Lle y nodwyd sawl cam gweithredu, cyflwynodd rhai ymatebwyr restr yn nhrefn blaenoriaeth (gan roi lefel "bwysoli" i bob un), tra na wnaeth eraill nodi dewis penodol........ 63

**Cwestiwn 14**: Hoffem wybod eich barn am effeithiau posibl ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai

ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol? ...... 68

**Cwestiwn 15**: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid llunio neu newid y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon arfaethedig er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. ...... 70

**Cwestiwn 16**: Rydym wedi gofyn sawl cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi...... 72

**Ymatebion i'r Fersiwn Hawdd ei Deall o'r Ymgynghoriad** ...... 74

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun yn helpu i atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru? ...... 74

**Cwestiwn 2:** A oes gennych unrhyw syniadau eraill ar gyfer atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru? ...... 76

Camau Nesaf Llywodraeth Cymru ...... 79

**ATODIAD 1** ...... 80

**Taclo Tipio Cymru – Gweithdai ymgynghori** ...... 80

# Cyflwyniad

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i’n hymgynghoriad. Nid yw’n fwriad, ac ni fyddai’n bosibl, adlewyrchu pob sylw a ddaeth i law yn yr adroddiad hwn. Y diben yw darparu trosolwg o’r ymatebion a nodi’r mathau o faterion a phryderon a godwyd mewn perthynas â’n Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.

Sut mae data yn cael ei adolygu a’i gyflwyno yn y ddogfen hon

Mae’r ddogfen Crynodeb o’r Ymatebion hon yn ymdrin â’r fersiwn lawn a’r fersiwn hawdd ei deall o’r ddogfen ymgynghori. Gan fod y ddwy ddogfen yn wahanol, maent wedi’u crynhoi a’u trin yn yr ymateb hwn fel elfennau ar wahân. Fodd bynnag, mae safbwyntiau a sylwadau a fynegwyd yn y ddwy ddogfen wedi’u hystyried.

Yn ogystal, derbyniwyd nifer o ymatebion nad oeddent yn dilyn strwythur cwestiynau’r ymgynghoriad. Hefyd, cynhaliwyd nifer fach o weithdai ar-lein a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a thirfeddianwyr preifat. Mae nodiadau cryno sy’n cofnodi’r safbwyntiau a fynegwyd yn y gweithdai hyn wedi’u cynnwys yn Atodiad 1 o’r ddogfen hon.

Ymatebion i’r ymgynghoriad

Daeth 377 o ymatebion i law fel rhan o’r ymgynghoriad. Roedd cyfanswm o 355 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y ddogfen ymgynghori lawn, ac roedd 22 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ar y fersiwn Hawdd ei Deall o’r ddogfen. Gellir dadansoddi hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Wedi ymateb i’r ymgynghoriad llawn trwy gyflwyno sylwadau neu ateb cwestiynau yn rhannol drwy borth ar-lein | 47 |
| Wedi ymateb i’r ymgynghoriad llawn ac wedi ateb pob cwestiwn drwy borth ar-lein | 255 |
| Wedi ymateb i’r ymgynghoriad llawn ac wedi ateb pob cwestiwn drwy flwch negeseuon e-bost electronig | 53 |
| **Cyfanswm yr ymatebion i’r ymgynghoriad llawn** | **355** |

| | |
|---|---|
| Wedi ymateb i’r fersiwn Hawdd ei Deall ar-lein | 12 |
| Wedi ymateb i’r fersiwn Hawdd ei Deall drwy flwch negeseuon e-bost electronig | 10 |
| **Cyfanswm yr ymatebion i’r fersiwn Hawdd ei Deall** | **22** |

Ceir trosolwg o'r sectorau a'r sefydliadau gwahanol a ymatebodd yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r cyhoedd | 227 |
| Arall | 36 |
| Y Sector Gwirfoddol | 34 |
| Cyngor Cymuned | 28 |
| Awdurdod Lleol | 14 (22*) |
| Corff Cyhoeddus | 11 |
| Elusen | 10 |
| Cyngor Tref | 9 |
| Cyfanswm | **377** |

**Gan gynnwys ymatebion lluosog gan yr un Awdurdod Lleol*

Iaith yr ymatebion

Roedd y fersiwn lawn a'r fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac roedd gan unigolion ddewis i ymateb yn eu dewis iaith. Rhannwyd yr ymatebion rhwng y ddwy iaith fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Saesneg | 374 |
| Cymraeg | 3 |

# Ymatebion i'r ddogfen ymgynghori lawn

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun sengl? Os nad ydych, rhowch reswm am eich ateb.

| C1 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **223** | **67** | **31** | **34** |
| **Canran** | 63% | 19% | 8% | 10% |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cyfuno sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun. O'r rhai a gytunodd, roedd nifer fawr wedi darparu ychydig iawn o wybodaeth ychwanegol, neu dim gwybodaeth ychwanegol, i gyfiawnhau'r safbwynt hwn. O'r rhai a ddarparodd wybodaeth ychwanegol, y farn gyffredin oedd y byddai un Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon (y Cynllun) yn darparu dull mwy cyson a chydlynol o ymdrin â throseddau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Fodd bynnag, yn aml roedd y gefnogaeth hon yn cynnwys cyngor bod angen i'r Cynllun osgoi mabwysiadu dull "un ateb sy'n addas i bawb" o ystyried natur gymhleth a gwahanol y ddwy drosedd. Yn aml, roedd y bobl a oedd yn gwrthwynebu cyfuno'r ddau fater yn cyfeirio at y gwahaniaeth hwn rhwng y troseddau, gyda llawer o ymatebwyr yn credu bod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon yn benodol yn golygu bod angen cynllun annibynnol ar wahân.

Er bod safbwyntiau gwahanol wedi'u mynegi o blaid ac yn erbyn datblygu un cynllun, nodwyd nifer o themâu cyffredin yn yr ymatebion, a cheir trosolwg ohonynt isod.

<u>Safbwyntiau ar ymddygiad pobl sy'n taflu sbwriel ac yn gyfrifol am dipio anghyfreithlon</u>

Er bod ymatebwyr yn cydnabod yn aml bod tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yn ddwy drosedd wahanol, roedd rhai o'r farn nad oes gwahaniaeth rhwng y cymhelliant neu'r rhesymeg dros gyflawni'r troseddau h.y. mae troseddwyr yn ddiog neu'n hunanol gan nad ydynt yn poeni am effaith eu gweithredoedd ar yr amgylchedd nac ar eraill. Gwrthodwyd y safbwynt hwn gan nifer o ymatebwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol, sy'n credu bod y ddwy drosedd yn wahanol iawn, gyda sbwriel yn cael ei ystyried yn weithred ddigymell a difeddwl tra bod tipio anghyfreithlon yn drosedd fwy bwriadol a rhagfwriadol a gyflawnir gan droseddwyr.

Ar y sail hon, yn aml roedd ymatebwyr yn teimlo bod y cymhellion a'r llwybrau ymddygiad ar gyfer y ddwy drosedd yn gofyn am ddulliau gwahanol o fynd i'r afael â nhw. Mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, roedd yna gefnogaeth sylweddol i wneud unrhyw gosb yn fwy llym, gyda llawer o blaid cynyddu lefelau dirwyon neu roi dedfryd o garchar. Ar gyfer taflu sbwriel, er bod teimlad tebyg wedi'i fynegi am ddirwyon, roedd nifer fwy o ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o bwyslais ar newid ymddygiad ac addysgu pobl am effeithiau taflu sbwriel.

Nododd eraill fod graddfa'r gwastraff sy'n gysylltiedig â throseddau tipio anghyfreithlon yn fwy nag sy'n gysylltiedig â throseddau taflu sbwriel, a bod angen dulliau gwahanol o ymdrin â'r drosedd. O ganlyniad, yn aml roedd yr ymatebwyr hyn o blaid datblygu dau gynllun ar wahân, ond yn cydnabod bod cysylltiadau rhwng y ddau fater. Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at y gwahaniaeth rhwng deiliad tŷ yn tipio ei wastraff ei hun a rhywun sy'n elwa'n ariannol o gynnig gwasanaeth gwastraff, ac yna'n gwaredu'r gwastraff yn anghyfreithlon. Er bod cymhelliant ariannol yn cael ei ystyried yn sbardun allweddol ar gyfer y ddwy drosedd, teimlwyd y byddai lefel y drosedd yn gwahaniaethu'r dull o ymdrin â thipio anghyfreithlon. Awgrymwyd bod gweithgarwch tipio anghyfreithlon ar raddfa fawr sydd wedi'i drefnu yn debygol o fod yn arwydd o droseddau gwastraff cyfundrefnol, ac y byddai cynllun gweithredu ar wahân a mwy penodol yn ymdrin â throseddau fel hyn. Gallai hyn fod yn rhan o'r Cynllun hwn. Cynigiwyd trafodaethau pellach ar y mater.

Mynegodd sawl ymatebydd bryderon am gynnwys y ddwy drosedd mewn un cynllun, ond roeddent yn teimlo y gellid cefnogi'r dull hwn cyn belled â bod y Cynllun yn gwahaniaethu'n glir rhwng sbwriel a thipio anghyfreithlon a bod modd ymdrin â'r ddwy drosedd ar wahân. Er bod ymatebwyr eraill yn teimlo bod y ddwy drosedd yn wahanol, nodwyd eu bod yn cael yr un effaith h.y. roedd y ddwy drosedd yn difrodi'r amgylchedd a chymdeithas yn gyffredinol. Ar y sail hon, credai ymatebwyr fod cyfiawnhad dros ymdrin â'r ddau fater mewn un cynllun gan y byddai'n gyfle i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad.

<u>Darparu ffocws strategol a dull gweithredu cyson</u>

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r angen i sicrhau dull gweithredu cyson ac integredig mewn un cynllun. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod un cynllun yn cynnig dull symlach, gan ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ymgysylltu â'r camau gweithredu a chynorthwyo dulliau cydweithio yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd Un Llais Cymru fod angen integreiddio gwaith Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned a gwirfoddolwyr i helpu i fynd i'r afael ag ansawdd gwael yr amgylchedd lleol mewn cymunedau. Dangosodd ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sut mae'n ymdrin â thanau sy'n gysylltiedig â sbwriel a thipio anghyfreithlon o dan un categori (sbwriel) ac yn defnyddio'r dull integredig hwn wrth weithio gyda rhanddeiliaid. Roedd yn credu y byddai un cynllun yn helpu i gefnogi'r gwaith y mae eisoes yn ei wneud yn y maes hwn.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am ariannu'r Cynllun os yw'r ddau fater yn cael eu cynnwys, gan gwestiynu a ellid cyflwyno'r holl gamau gweithredu os nad oes digon o arian ar gael.

<u>Cynllun Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Ehangach</u>

Er bod nifer o ymatebwyr yn cytuno â chynllun ar y cyd, roedd rhai yn cwestiynu absenoldeb troseddau amgylcheddol eraill. Un pryder penodol oedd y diffyg cyfeiriadau at faw cŵn, gyda nifer fawr o ymatebwyr yn cyfeirio at y ffaith bod y drosedd hon yn gyffredin iawn mewn cymunedau. Roedd eraill, megis Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru, yn cwestiynu'r ffaith bod materion eraill sy'n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol, megis gosod posteri'n anghyfreithlon a graffiti, wedi'u hepgor o'r cynllun. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys

troseddau casglu gwastraff domestig yn y Cynllun hefyd, er enghraifft troseddau gwastraff o dan adran 46[1] o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Polisïau gwastraff Awdurdodau Lleol

Roedd nifer o ymatebwyr, aelodau'r cyhoedd yn bennaf, yn anghytuno â ffocws y Cynllun, gan awgrymu yn aml mai systemau rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol oedd ar fai, yn enwedig mewn perthynas â thipio anghyfreithlon. Ar y sail hon, roeddent yn anghytuno â dull gweithredu'r Cynllun yn aml. Er bod y pryderon a'r cwynion hyn yn themâu cyffredin drwy gydol yr ymgynghoriad, amlinellir y prif feysydd dadlau a godwyd o dan y cwestiwn hwn isod:

- Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref – Roedd llawer o sylwadau'n cyfeirio at ddiffyg darpariaeth ddigonol ymddangosiadol (yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae angen gwneud teithiau hir), yr anallu i ddefnyddio cyfleusterau mewn awdurdodau cyfagos mewn rhai ardaloedd, a defnyddio systemau archebu ar gyfer rhai safleoedd. Teimlai eraill fod gormod o gyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei waredu (er enghraifft, cyfeiriodd rhai pobl at fethu â gwaredu bagiau bin du) ac awgrymodd eraill y dylai busnesau/masnachwyr bach gael mynediad at y gwasanaeth yn hytrach na gorfod talu i waredu gwastraff mewn mannau eraill. Teimlwyd yn aml bod y rhwystrau hyn yn ddiangen a'u bod yn atal pobl rhag "gwneud y peth iawn".

- Gwasanaethau casglu gwastraff domestig a biniau sbwriel – Roedd pryderon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu biniau gwastraff gweddilliol bach i gartrefi a/neu gasglu'r biniau hyn yn llai aml, anawsterau mewn ardaloedd amlfeddiannaeth a biniau sbwriel yn gorlifo. Unwaith eto, teimlai llawer o ymatebwyr fod y materion hyn yn cyfrannu at daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

- Ailgylchu - Roedd y sylwadau yma yn aml yn canolbwyntio ar y cyfleoedd posibl ar gyfer sbwriel yn sgil canfyddiad bod cynwysyddion ailgylchu yn annigonol a bod eitemau'n cael eu chwythu o faniau casglu neu eu gollwng gan staff wrth eu casglu.

Sylwadau eraill

Roedd un ymatebydd yn cytuno â'n dull gweithredu ar y sail y dylai gael ei adolygu ar ôl pum mlynedd. Awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod angen cysoni'r Cynllun ymhellach â'r Strategaeth Economi Gylchol Mwy nag Ailgylchu.

Awgrymodd Cadwch y Fenni'n Daclus fod angen Gweinidog Llywodraeth Cymru penodedig i ymdrin â'r materion hyn, a bod angen rhoi cyhoeddusrwydd rheolaidd i unrhyw gamau gweithredu/gweithgareddau'r Cynllun. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid sefydlu un corff canolog i oruchwylio materion gwastraff yng Nghymru, gan

[1] O dan adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gall awdurdod casglu gwastraff (Cyngor yng Nghymru) ei gwneud yn ofynnol drwy hysbysiad i feddianwyr safle gyflwyno eu gwastraff cartref i'w gasglu mewn ffordd benodedig. Mae hyn yn golygu y gallai deiliad tŷ sy'n rhoi ei wastraff allan ar y diwrnod anghywir neu yn y lle anghywir dderbyn Hysbysiad Rhybuddio neu ddirwy os yw'n anwybyddu'r Hysbysiad Rhybuddio.

resymu y byddai hyn yn caniatáu dull gweithredu cenedlaethol ac yn dileu unrhyw amrywio yng ngweithredoedd Awdurdodau Lleol.

<u>Dyfyniadau dangosol</u>

*Ydym, mae gan sbwriel a thipio anghyfreithlon ill dau effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol pellgyrhaeddol ac rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i fynd i'r afael â'r ddau fater hyn mewn un cynllun. Mae'n bosibl nad yw'r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng y ddau, ac rydym yn cytuno bod y camau gweithredu a'r themâu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ddau fater yn ddigon tebyg ar y cyfan. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd fod yna elfen fwy troseddol i dipio anghyfreithlon, a bod rhai heriau unigryw yn deillio o hyn, yn enwedig mewn perthynas â chymhellion a negeseuon, ac felly rydym yn deall bod angen dulliau gwahanol mewn rhai meysydd yn y cynllun.*
**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

*Ydw. Mae'r ddwy drosedd yn amlygu meddylfryd penodol, ac mae angen targedu pobl sydd â'r meddylfryd hwn*.
**Ymateb dienw**

*Rwy'n anghytuno. Mae taflu sbwriel yn ymddygiad difeddwl a diofal, ac er mwyn mynd i'r afael ag ef, mae angen addysgu a chodi ymwybyddiaeth pobl, gan ategu hynny â sancsiynau Cyfreithiol. Mae tipio anghyfreithlon yn fater mwy difrifol sy'n ymwneud â bwriad troseddol, osgoi costau gwaredu, costau ac anghyfleustra i berchnogion tir, boed yn breifat neu'n gyhoeddus, perygl posibl i bobl ac anifeiliaid a diraddio'r amgylchedd. Er mwyn mynd i'r afael ag ef, mae angen gwaith canfod effeithiol, sy'n anodd iawn, ynghyd â chosbau i rwystrau'r rhai sy'n euog o droseddu. Credaf fod angen cynllun ar wahân ar gyfer hyn.*
**Dr J Boddy**

*Nac ydym. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru yn credu bod angen strategaeth benodol unigol ar gyfer y ddwy drosedd. Mae cymhellion ar gyfer tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yn gallu bod yn wahanol iawn, ac mae angen mynd i'r afael â nhw mewn ffordd wahanol yn aml. Un o'r prif gymhellion ar gyfer tipio gwastraff masnachol a diwydiannol yn anghyfreithlon yw enillion ariannol – h.y. osgoi talu costau gwaredu cyfrifol a chyfreithiol, tra bod taflu sbwriel yn deillio i raddau helaeth o ddiogi, esgeulustod neu anwybodaeth. Er gwaethaf yr uchod, da o beth fyddai cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol gynhwysfawr wedi'i hariannu'n dda i amlygu pwysigrwydd cynhyrchwyr yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y gwastraff y maent yn ei gynhyrchu.*
**Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru**

*"Yn y pen draw, rydym yn credu bod taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn rhan o sbectrwm o agweddau gwael a chamddealltwriaeth o'r amgylchedd a'n heffaith arno. Wrth ddod â'r ddau fater ynghyd, mae cyfle i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o addysgu a chodi ymwybyddiaeth o'r effeithiau hyn a lleihau'r cymdeithasoli graddol sy'n deillio o daflu sbwriel ac sy'n arwain at dipio anghyfreithlon lefel isel. Mae posibl*

*hefyd i gontractwyr gwaredu gwastraff twyllodrus /troseddol fanteisio ar ddiffyg diddordeb yn y modd y gwaredir gwastraff.*

**Cyngor Sir Fynwy**

*Byddai cynllun unedig, 'copa' yn ddefnyddiol. Bydd angen ei integreiddio â chynlluniau eraill, neu gael ei lywio ganddynt hefyd. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rhaid ystyried ble mae angen gwneud hyn. Un agwedd allweddol yw sicrhau y bydd y cynllun yn berthnasol. Os nad oes adnoddau ar gael, ac os nad yw darpariaeth ac ansawdd y cynllun yn cael eu rheoli, mae yna berygl y bydd yn ddim ond dogfen arall ar silff.*

**Ymateb dienw**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'n cynnig i gynnwys taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun strategol. Rydym yn credu y bydd y dull gweithredu hwn yn gyfle i ddatblygu dull mwy integredig a chydweithredol o ymdrin â materion gwastraff ledled Cymru. Hefyd, mae'n adlewyrchu profiadau pobl sy'n gweithio yn ein cymunedau, sy'n gorfod ymdrin â'r materion hyn yn aml waeth beth yw natur a tharddiad y mater. Bydd un cynllun yn helpu i fanteisio ar yr arbenigedd hwn a'r wybodaeth hon.

Hefyd, bydd y Cynllun yn ategu ac yn cefnogi strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, yn benodol Mwy nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti. Mae'r strategaeth hon yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gymryd camau a fydd yn helpu i leihau'r cyfleoedd ar gyfer taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Er enghraifft, mae'n cynnwys camau sy'n ceisio hyrwyddo dulliau arloesol o ddefnyddio adnoddau (fel bioblastigau), sicrhau bod mwy o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu, a chefnogi prosesau ailddefnyddio.

Rydym yn cydnabod bod pryderon wedi'u mynegi yn ystod yr ymgynghoriad am fabwysiadu'r dull un Cynllun hwn, yn enwedig o ystyried bod cymhellion y rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn yn gallu amrywio. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn ac yn cadarnhau nad ydym yn bwriadu mabwysiadu un dull gweithredu "addas i bawb" cyffredinol wrth gymryd unrhyw gamau neu gyflwyno unrhyw rhaglenni gwaith. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn adolygu'r Cynllun drafft i sicrhau bod y gwahaniaethau hyn wedi'u nodi'n gliriach pan fo angen. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r sylwadau a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â darparu eglurder yn ymwneud â diffinio tipio anghyfreithlon a throseddau gwastraff, gan fod yr ail yn gysylltiedig â gweithgarwch anghyfreithlon ehangach yn aml.

Mewn perthynas â galwadau i gynnwys materion ansawdd eraill yn ymwneud â'r amgylchedd lleol (er enghraifft, gosod posteri'n anghyfreithlon), bydd y mater hwn yn cael ei adolygu wrth ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun. Os oes problem benodol yn cynyddu neu'n cael ei hystyried yn bryder arwyddocaol, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r Cynllun yn ôl yr angen. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â baw cŵn, a byddwn yn adolygu'r Cynllun i benderfynu sut i gynnwys y mater hwn yn y ddogfen derfynol.

**Cwestiwn 2**: Ydych chi'n cytuno â'r themâu yr ydym ni wedi'u dewis? Ydych chi'n meddwl y byddant yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau? Os na, pa themâu eraill sydd angen eu cynnwys yn eich barn chi?

| C2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **245** | **13** | **42** | **55** |
| **Canran** | 69% | 4% | 12% | 15% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y themâu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac ni wnaeth 157 o'r rhai a gytunodd ddarparu unrhyw sylwadau pellach neu ychwanegol. Fodd bynnag, nododd 88 o'r ymatebwyr a gytunodd â'r cwestiwn eu bod yn dymuno gweld camau gweithredu penodol ychwanegol (yn hytrach na thema newydd neu wahanol) neu fân ddiwygiadau i thema bresennol. Gan fod y rhan fwyaf o'r camau a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr hyn wedi'u codi a/neu wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, dim ond crynodeb byr a geir o'r safbwyntiau hyn o dan y cwestiwn hwn.

<u>Themâu ychwanegol/camau gweithredu penodol a awgrymwyd</u>

- Camau i wella neu newid arferion rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol – Yn debyg i Gwestiwn 1, roedd nifer fawr o ymatebwyr, aelodau'r cyhoedd yn bennaf, yn argymell bod angen newidiadau i wasanaethau gwastraff Awdurdodau Lleol, yn enwedig y gweithrediadau ar Safleoedd Ailgylchu Gwastraff Cartref. Roedd sawl ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r themâu arfaethedig wedi awgrymu bod angen cynnwys y mathau hyn o gamau gweithredu hefyd.

- Camau i wella neu flaenoriaethu camau gorfodi - Awgrymodd nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r themâu fod angen mwy o bwyslais ar gamau gorfodi. Roedd enghreifftiau'n cynnwys defnyddio mwy o gamerâu cylch cyfyng i helpu i ddal troseddwyr.

- Camau i fynd i'r afael â materion taflu sbwriel yn benodol - Elfen gyffredin arall yn yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd yr angen am fwy o gamau gweithredu ar gyfer materion gwastraff penodol, er enghraifft sbwriel ar ochr y ffordd, sbwriel bwyd brys, sbwriel morol a sbwriel sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

- Camau i wella gwaith monitro a/neu werthuso – Roedd y camau a ddarparwyd yn cynnwys yr angen i gofnodi effeithiau ehangach, er enghraifft effeithiau economaidd, a'r angen i fesur unrhyw newidiadau sy'n deillio o gam gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses o hysbysu'r cyhoedd am unrhyw newidiadau.

- Camau i wella cyfathrebu – Cafwyd awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu i ddatblygu negeseuon effeithiol er mwyn helpu i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o effaith eu hymddygiad, a’r angen i ganolbwyntio ar hyrwyddo ymddygiad mwy cadarnhaol.

- Rhoi’r Cynllun Ar Waith – Roedd sawl ymatebydd yn cytuno â’r themâu ond yn cwestiynu lefel y cymorth sydd ar gael i roi’r Cynllun ar waith. Roedd rhai yn gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â phwy sy’n gyfrifol am y camau gweithredu ac am yr angen am dargedau clir. Roedd eraill yn cwestiynu’r defnydd o dermau fel “cymorth” a “chyllid posibl” gan y teimlwyd eu bod yn annigonol i sicrhau darpariaeth yn y dyfodol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y diffyg amserlenni clir, diffiniedig hefyd.

Newidiadau arfaethedig i strwythur y ddogfen a geiriad themâu

Er eu bod yn cytuno â’r themâu, roedd nifer fach o ymatebwyr wedi awgrymu mân newidiadau i eiriad presennol y Cynllun.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid newid y thema **Gorfodi** i **Sancsiynau a Gorfodi**. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer y thema hon yn cynnwys ei newid i **Rheoleiddio Effeithiol** neu **Deddfwriaeth a Gorfodi.** Awgrymodd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy y dylid newid y thema i **Cosbau a Gorfodi**.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylid newid geiriad y thema yn Saesneg o **Education and Behaviour Change** i **Education and Changing Behaviour.**
(dim newid i’r geiriad Cymraeg).

Argymhellodd un ymatebydd y dylid newid geiriad y thema yn Saesneg o **Waste Reduction** theme to **Reducing Waste** (dim newid i’r geiriad Cymraeg). Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi mwy o eglurder i’r cyhoedd. Fodd bynnag, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod angen i’r thema gyfeirio’n benodol at ailgylchu, ac awgrymodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol y dylid newid yr enw i **Lleihau Adnoddau.** Credai’r gymdeithas hon y byddai hyn yn helpu i bwysleisio’r egwyddor o ddefnyddio llai yn y lle cyntaf ac yn cyd-fynd â nodau Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru – Mwy nag Ailgylchu. Awgrymodd Cyngor Gwynedd yr un newid arfaethedig.

Awgrymodd Pwyllgor Craffu: Gwasanaethau Cymdogaeth, Cefn Gwlad a Chynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y dylid cynnwys diffiniadau o’r themâu er mwyn helpu i egluro’r hyn y cyfeirient ato. Gofynnodd ymatebydd arall am fwy o eglurder ynglŷn ag ystyr y thema “**Cyflawni Gweithredol**”. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai’r thema **Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso** fod yn drawsbynciol yn hytrach nag yn thema annibynnol.

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid diwygio’r diagram ei hun, gyda Chymdeithas Gŵyr yn awgrymu ei fod “o chwith” gan fod y saethau’n pwyntio tuag at y gair atal yn hytrach nag oddi wrtho. Awgrymodd ymatebydd arall fod angen mwy o gyd-destun er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng gweithgareddau mewn lleoliad domestig a masnachol.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai'r cylchoedd yn y diagram presennol fod yn wahanol o ran maint neu gael eu "pwysoli" er mwyn helpu i ddangos pwysigrwydd cymharol y themâu unigol. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau ar y themâu pwysicaf yn amrywio, gyda rhai ymatebwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar y thema **Addysg a Newid Ymddygiad** ac eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar y thema **Gorfodi**. Roedd ymatebion gan weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr yn dangos cefnogaeth i roi mwy o bwyslais ar y thema **Gorfodi**. Awgrymodd Cyngor Cymuned Llanbadog y dylid cynnwys y diagram ar ddiwedd y ddogfen yn hytrach nag yn y tu blaen, gan nodi "*mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu ar gyfer y themâu allweddol yn eich arwain i gadarnhau'r dull cyffredinol fel y'i crynhoir yn y diagram, ar ôl darllen ac ystyried y dystiolaeth*".

<u>Themâu ychwanegol arfaethedig</u>

Er bod nifer o ymatebwyr wedi cytuno â'r themâu arfaethedig, roeddent wedi awgrymu themâu ychwanegol hefyd. Unwaith eto, roedd yr awgrymiadau yn debyg, ac maen nhw wedi'u dosbarthu'n grwpiau isod er hwylustod:

- Amharu ar droseddau gwastraff – Awgrymwyd y thema hon gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac roedd yn cyfeirio at sylwadau a fynegwyd yng Nghwestiwn 1 a oedd yn gofyn am ragor o wahaniaethu rhwng troseddau sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen fel "tipio anghyfreithlon".

- Cymell – Awgrymodd dau ymatebydd fod angen mwy o bwyslais ar wobrwyo busnesau ac unigolion am wneud y "peth iawn" yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar "gosbau" posibl am beidio â chydymffurfio.

- Cydlyniant/Cymdogaethau Cymunedol neu Gydweithio – Roedd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn credu bod angen thema sy'n canolbwyntio ar annog pobl i ymfalchïo yn eu hamgylchedd lleol a bod yn rhan o'u cymuned. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y gellid ymestyn hyn y tu hwnt i gymunedau ac y gallai'r thema edrych ar wella cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ehangach.

- Yr Amgylchedd - Hefyd, cynigiodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru thema benodol a fyddai'n tynnu sylw at yr effeithiau ar yr amgylchedd ac yn hwyluso mwy o gysylltiad â'r ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Dylunio Seilwaith neu'r Amgylchedd Adeiledig – Cyfeiriodd nifer fach o ymatebwyr, Awdurdodau Lleol yn bennaf, at yr angen am thema sy'n canolbwyntio camau gweithredu ar gynllunio a datblygu seilwaith. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r angen i ddatblygiadau newydd ystyried gofynion sbwriel a gwastraff (er enghraifft, adeiladu siop bwyd brys newydd). Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod ei gynllun gweithredu yn cynnwys adran ar Adolygu a Buddsoddi mewn Seilwaith. Awgrymodd ymatebydd arall fod angen i sefydliadau/adrannau'r sector cyhoeddus gydweithio'n agosach er

mwyn osgoi sefyllfaoedd lle mae taflu sbwriel neu dipio anghyfreithlon yn datblygu'n broblem.

- Baw Cŵn a/neu faterion eraill yn ymwneud â'r amgylchedd lleol – Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus iawn i gynnwys thema benodol ar faw cŵn, ac awgrymodd eraill y dylid ymestyn y thema hon i gynnwys materion eraill fel gosod posteri'n anghyfreithlon ac ati.

- Cyfrifoldeb – Awgrymodd un ymatebydd fod angen thema ar gyfer Cyfrifoldeb Meddianwyr (lle mae meddiannydd safle yn gyfrifol am gadw'r ardal y tu allan yn lân), ac awgrymodd ymatebydd arall fod angen thema Cyfrifoldeb Perchennog Preifat.

Ymatebion yn gwrthwynebu'r themâu

Dim ond nifer fach o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r themâu yn gyfan gwbl. Roedd un ymatebydd o'r farn eu bod yn "gamarweiniol i raddau helaeth" ac roedd un arall yn teimlo y byddai'n cymryd gormod o amser i roi'r camau gweithredu/themâu ar waith, ac y byddent yn cael effaith gyfyngedig yn y tymor byr. Awgrymodd un ymatebydd fod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r sbwriel sydd eisoes yn yr amgylchedd yn hytrach na chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar ei atal yn y dyfodol.

Dyfyniadau dangosol

*Rydym yn cytuno â'r pum thema a nodir yn y cynllun, a chredwn fod pob elfen yn hanfodol i atal sbwriel a thipio anghyfreithlon.*
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

*Ydym, rydym yn cytuno â'r pum thema ac rydym wrth ein bodd yn gweld atal wrth wraidd y cynllun hwn, sy'n golygu bod y ddogfen hon yn fwy cydnaws â dull gweithredu 'Mwy nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru, yr hierarchaeth wastraff a dyheadau'r economi gylchol. Mae'n dda gennym weld bod y thema lleihau gwastraff wedi'i chynnwys. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r adran hon o'r cynllun trwy gyfeirio at ein diwylliant bwyta ac yfed wrth symud (gyda'i gysylltiadau cryf â sbwriel) a'n cymdeithas faterol a gwastraffus (sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon).*
**Cadwch Gymru'n Daclus**

*Rwy'n anghytuno â'ch themâu. Nid ydych wedi ystyried sut i'w gwneud yn haws i ddefnyddio cyfleusterau gwastraff sydd ar gael i'r cyhoedd. Pe bai'n haws gwaredu gwastraff yn gyfreithlon, ni fyddai tipio anghyfreithlon yn ddewis amgen hyfyw o ystyried y dirwyon a'r cosbau arfaethedig.*
**Ymatebydd dienw**

*"Nac ydw. Siarad gwag a dim gweithredu yw'r cwbl - sef yr un hen stori".*
**Ymatebydd dienw**

*“Rydym yn cytuno ag egwyddorion y themâu sy’n cael eu cyflwyno. Rydym yn teimlo y dylai’r cynlluniau hyn wneud gwahaniaeth enfawr os ydynt yn cael eu rhoi ar waith gan y llywodraeth ac awdurdodau lleol. Yn anffodus, bydd y cynllun hwn yn ddiwerth oni bai bod y llywodraeth yn darparu arian sylweddol i gefnogi awdurdodau lleol. Hefyd, rydym yn teimlo y dylai unrhyw gyllid a roddir gael ei neilltuo gan y llywodraeth at y diben arfaethedig.* **Grŵp Gweithredu PIOD ym Maerun**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i’r themâu yn y Cynllun, ac er bod nifer o themâu ychwanegol wedi’u hawgrymu, credwn fod y pum thema wreiddiol yn cwmpasu’r meysydd gwaith sydd eu hangen i roi’r Cynllun ar waith. Am y rheswm hwn, nid ydym yn bwriadu cynyddu nifer y themâu sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a oes modd cynnwys rhai o’r themâu a awgrymwyd, er enghraifft cymell ymddygiad amgylcheddol gwell a gwella prosesau cydweithio, yng nghyd-destun ehangach y Cynllun.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid newid teitl y themâu presennol. Ar ôl ystyried y mater ymhellach, rydym yn bwriadu newid y canlynol:

- Yn Saesneg, bydd y Thema Waste Reduction yn newid i’r Thema Reducing Waste (dim newid yn y geiriad Cymraeg)

- Yn Saesneg, bydd y Thema Education and Behaviour Change yn newid i Education and Changing Behaviour (dim newid yn y geiriad Cymraeg)

Hefyd, rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed mewn perthynas â diffinio amcanion a ffocws y themâu yn glir, yn enwedig yng nghyd-destun Cyflawni Gweithredol. Byddwn yn adolygu ac yn newid y rhain i adlewyrchu’r adborth a gawsom yn ystod yr ymgynghoriad. Hefyd, byddwn yn ystyried sut i adlewyrchu natur drawsbynciol y Thema Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso.

Gwnaed nifer o sylwadau defnyddiol yn ymwneud â’r diagram presennol sy’n dangos sut mae’r pum thema yn helpu i atal sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Mae’r sylwadau hyn yn cael eu hystyried a’u hadolygu i benderfynu sut i gyflwyno cynrychiolaeth weledol o’n dull ataliol.

**Cwestiwn 3**: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema lleihau gwastraff? Os na, nodwch eich rhesymau.

| C3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Heb nodi ond ɘdi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **239** | **15** | **44** | **57** |
| **Canran** | 67% | 4% | 13% | 16% |

Oherwydd strwythur y cwestiynau, manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i awgrymu camau gweithredu ychwanegol yng Nghwestiwn 3 yn hytrach nag yng Nghwestiwn 4. Cododd nifer o themâu ac awgrymiadau tebyg yn y ddwy set o gwestiynau. Lle bynnag y bo modd, mae ein dadansoddiad wedi ystyried nodweddion tebyg, ac ar y sail hon rydym wedi darparu un ymateb gan y Llywodraeth i'r ddau gwestiwn.

Er bod cefnogaeth gyffredinol (239 o ymatebion) i'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y thema, roedd nifer o ymatebwyr a gytunodd wedi manteisio ar y cyfle i awgrymu camau gweithredu a gwneud sylwadau ychwanegol. Mae'r rhain wedi'u categoreiddio'n fras fel a ganlyn:

<u>Camau pellach i hyrwyddo prosesau ailddefnyddio, ail-lenwi neu ailgylchu</u>

Darparodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau o gynhyrchion penodol sydd angen camau gweithredu i hyrwyddo prosesau ailddefnyddio, er enghraifft, cyfeiriodd y Nappy Alliance at fanteision hyrwyddo'r defnydd o gewynnau y gellir eu hailddefnyddio. Hefyd, awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylid ystyried sgorio cwmnïau'n uwch ar gyfer ymarferion caffael cyhoeddus os ydynt yn cynnig gwasanaethau a chynhyrchion ail-lenwi/ail-defnyddio. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen camau mwy uniongyrchol i annog y sector arlwyo a lletygarwch i gefnu ar eitemau untro, er enghraifft drwy gynnwys rhai amodau wrth wneud cais am adnewyddu trwyddedau.

Manteisiodd ymatebwyr eraill ar y cyfle i godi pryderon neu gwyno am agweddau penodol ar wasanaethau ailgylchu Awdurdodau Lleol. Awgrymodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod angen llai o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ailgylchu a mwy o waith i hyrwyddo ailddefnyddio, gan nodi bod dau o'r tri cham gweithredu yn ymwneud â'r mater hwn yn gysylltiedig â bagiau siopa yn benodol. Hefyd, gofynnodd y sefydliad am gysylltiadau cryfach â Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgylchu*, ac roedd am i Lywodraeth Cymru gefnogi Gwelliant Gwaharddiad Confensiwn Basel[2] a mabwysiadu a gorfodi "Cyfraith Hawl i Atgyweirio y DU" ar ôl ei chyflwyno.

[2] Gwelliant Gwaharddiad Confensiwn Basel - http://www.basel.int/Implementation/LegalMatters/BanAmendment/Overview/tabid/1484/Default.aspx

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu cynllun yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer deunydd pacio defnyddiau traul a elwir yn system Der Grüne Punkt neu Dot Gwyrdd[3].

Cydweithio ehangach a graddfa fyd-eang y materion

Nododd un ymatebydd fod angen i'r Cynllun gynnwys camau gweithredu ledled y DU, ac roedd eraill yn cwestiynu a fyddai camau gweithredu i fynd i'r afael ag arferion gweithgynhyrchu/cynhyrchu yng Nghymru yn cael eu tanseilio pe bai cynhyrchion rhatach, llai ecogyfeillgar yn cael eu mewnforio o'r tu allan i'r DU.

Roedd sawl ymatebydd o blaid ymgysylltu mwy â Chynghorau Tref a Chymuned, gan nodi y gallai unrhyw waith ymchwil o dan y thema hon gael ei gefnogi gan weithgarwch cymunedol lleol.

Camau gweithredu yn ymwneud â chynhyrchion, eitemau neu faterion penodol

Yn debyg i gwestiynau blaenorol, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i ganolbwyntio eu hawgrymiadau ar gamau gweithredu yn ymwneud â materion penodol. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys camau gweithredu yn ymwneud â'r canlynol:

- Cynllun "Sgoriau ar y drysau" – Yn debyg i'r cynllun sydd ar waith ar gyfer safonau hylendid bwyd. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r cynllun hwn i raddio faint o ddeunydd pacio a chynhyrchion untro a ddefnyddir gan fusnes.

- Siopau bwyd brys – Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gwmnïau i ymdrin â sbwriel sy'n gysylltiedig â'u cynnyrch.

- Baw cŵn - Nododd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched fod ymyriadau llwyddiannus yn deillio o'u hymgyrchoedd wedi canolbwyntio ar lefel leol yn aml.

- Cynhyrchion mislif – Mae angen cynnwys camau gweithredu i wella mynediad at ddewisiadau amgen cynaliadwy (er enghraifft, peiriannau gwerthu) a threthu eitemau nad ydynt yn cydymffurfio.

- Barbeciws untro – Awgrymodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru y dylid cyflwyno gofyniad i gynhyrchion o'r fath gynnwys canllawiau ar sut i'w gwaredu'n ddiogel.

- Hidlyddion/bonion sigaréts a gwm cnoi – Yn ogystal â'r galwadau am gamau gweithredu cryfach yn ymwneud â'r eitemau hyn, darparodd Japan Tobacco International UK dystiolaeth o'r gwaith y mae wedi'i wneud i helpu i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ysmygwyr o'r angen i waredu hidlyddion yn briodol.

[3] Der **Grüne Punkt**/Y System Dot Gwyrdd - https://www.gruener-punkt.de/en/

- Sbwriel o bob math ac nid plastig yn unig – Cwestiynodd nifer fach o ymatebwyr y ffaith bod camau gweithredu'r thema hon yn canolbwyntio ar blastig untro, gan awgrymu y dylid targedu eitemau sbwriel eraill fel deunydd pacio creision ffoil alwminiwm hefyd.

- Camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar fusnesau – Nododd Asda fod nifer fawr o gamau gweithredu yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr, ond ei bod yn bwysig cofio bod busnesau eu hunain yn cynhyrchu gwastraff, sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon ar eu safleoedd yn aml.

Dileu'r rhwystrau i bobl waredu gwastraff mewn ffordd gyfrifol

Roedd nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r camau gweithredu wedi gwneud sylwadau ar sut mae pobl yn ymdrin â'u gwastraff, gan gyfeirio at y canfyddiad ei bod yn anodd "gwneud y peth iawn" ar hyn o bryd. Mynegwyd teimladau tebyg gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r camau gweithredu (gweler isod). Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru, dau sefydliad sy'n cynrychioli tirfeddianwyr preifat, yn teimlo bod angen gwneud mwy i ddileu'r esgusodion dros dipio anghyfreithlon, yn enwedig diffyg mynediad at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Awgrymodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru fod angen cynnal adolygiad o'r system rheoli gwastraff cyhoeddus bresennol, ac y dylid darparu mwy o opsiynau hygyrch a rhatach ar gyfer aelwydydd a busnesau.

Gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am newidiadau i'r broses drwyddedu bresennol ar gyfer cludwyr gwastraff, ac am wella sut mae deiliaid trwyddedau yn cael eu monitro. Yn ôl profiad y Cyngor, yn aml mae deiliaid tai yn cyflogi'r busnesau hyn ar sail y gred eu bod yn darparu gwasanaeth cyfreithlon ac y byddai'r gwastraff yn cael ei waredu mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn aml, ac mae'r Cyngor yn teimlo nad yw'r system bresennol yn darparu digon o fesurau diogelu.

Geiriad y camau gweithredu arfaethedig a'r broses o'u rhoi ar waith

Roedd sawl ymatebydd yn cwestiynu amserlenni nifer o gamau gweithredu o dan y thema hon, gan ddadlau bod angen camau gweithredu brys, ar unwaith, yn hytrach na cherrig milltir hirdymor. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo nad yw'r camau gweithredu yn ddigon manwl, yn enwedig o safbwynt sut y byddent yn cael eu hariannu a'u cefnogi. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â'r camau gweithredu, roeddent hefyd yn siomedig nad ydynt yn mynd ymhellach na'r hyn a nodir ar hyn o bryd.

Roedd pryderon eraill a nodwyd mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun yn canolbwyntio ar effeithiau nas rhagwelwyd neu anfwriadol posibl yn deillio o gamau gweithredu'r thema hon. Er enghraifft, nododd un ymatebydd y posibilrwydd y byddai cynhyrchion yn mynd yn ddrutach os oes rhaid i fusnesau roi'r gorau i ddefnyddio plastig. Hefyd, cyfeiriodd nifer fach o ymatebwyr Awdurdodau Lleol at y posibilrwydd o golli deunyddiau ar gyfer Awdurdodau Lleol pe bai Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael ei gyflwyno, ac effaith hyn ar gyrraedd targedau ailgylchu statudol. Yn yr un

modd, awgrymodd Asda ei bod yn bosibl y bydd angen i'r cwmni gael gwared ar gyfleusterau ailgylchu presennol ar gyfer eitemau fel dillad ar eu safleoedd os oes angen darparu lle ar gyfer cyfleusterau dychwelyd diodydd.

Awgrymodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol nifer o welliannau ac ychwanegiadau at y geiriad o dan y thema hon. Mae hyn yn cynnwys darparu diffiniadau penodol o dermau fel "opsiynau amgylcheddol gynaliadwy" a "dewisiadau amgen cynaliadwy". Roedd cais yn gysylltiedig â hyn i gynnwys cam gweithredu i helpu i fynd i'r afael â dryswch a chamddealltwriaeth y cyhoedd yn ymwneud â defnyddio'r term "bioddiraddiadwy". Roedd gwelliannau eraill yn cynnwys newid y term "Cefnogi" i adlewyrchu "buddsoddi", a newid cam gweithredu WR6 i adlewyrchu ymrwymiad yn y ddogfen Mwy nag Ailgylchu i gymryd camau i gael gwared ar eitemau untro diangen mewn digwyddiadau a gweithgareddau arddangos eraill yng Nghymru.

<u>Ymatebion yn gwrthwynebu'r camau gweithredu</u>

O'r nifer fach o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r camau gweithredu arfaethedig o dan y thema hon, yn aml roedd y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn debyg i'r rhai a wnaed gan y rhai a oedd yn cytuno â'r camau gweithredu. Roedd gwrthwynebiad cyffredin i'r camau gweithredu yn ymwneud â'r teimlad y byddai problemau'n parhau oni bai bod newidiadau'n cael eu gwneud i sut mae Awdurdodau Lleol yn caniatáu i breswylwyr waredu eu gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i brosesau gweithredu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, neu sefydlu mwy ohonynt, er mwyn gwella mynediad a dileu costau sy'n gysylltiedig â gwaredu eitemau swmpus.

Nododd un ymatebydd fod llawer o gynhyrchion sy'n cael eu taflu yn tarddu o'r tu allan i Gymru yn aml, a gofynnodd sut y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar faterion fel dylunio deunydd pacio. Teimlai un arall fod y camau gweithredu i fynd i'r afael â phlastig a deunydd pacio yn rhy gyfyngedig, a bod dull cam wrth gam arfaethedig yn annigonol o ystyried y pryderon uniongyrchol yn ymwneud â llygredd plastig. Hefyd, roedd ymatebwyr o'r diwydiant plastig neu ddeunydd pacio yn cwestiynu ffocws y dull cam wrth gam, gan ddadlau y dylai'r camau hyn fod yn llawer ehangach er mwyn cynnwys deunyddiau eraill.

Nid oedd ymatebwyr eraill wedi'u hargyhoeddi y byddai'r camau gweithredu yn y Cynllun yn cael unrhyw effaith ar daflu sbwriel neu dipio anghyfreithlon, gan ddadlau nad ydynt yn mynd yn ddigon pell. Yn aml, dilynwyd y safbwynt hwn gan gais i gynyddu lefel y dirwyon sydd ar gael. Mynegodd un ymatebydd bryder bod y camau gweithredu'n canolbwyntio gormod ar gosbi pobl, a bod angen gwneud mwy i gymell ymddygiad da. Cynigiwyd y gellid cyflawni hyn drwy sicrhau bod yna werth i wastraff fel nad yw pobl yn ei daflu, a thrwy wobrwyo busnesau sy'n creu llai o wastraff.

Roedd nifer fach o ymatebion gan gynhyrchwyr deunydd pacio yn amlinellu pryderon am ddefnyddio'r term "opsiynau cynaliadwy mwy ecogyfeillgar" mewn rhai o'r camau gweithredu, os nad yw gwaith Dadansoddi Cylch Oes llawn yn cefnogi hyn. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at ddefnyddio cynhyrchion sydd yr un mor niweidiol gan nad ydynt yn gwbl fioddiraddadwy neu nad ydynt yn defnyddio deunyddiau addas.

**Dyfyniadau dangosol**

*Ydym, mae atal gwastraff a gwerthfawrogi gwastraff fel adnodd yn allweddol i sicrhau bod ein cymdeithas yn byw'n fwy cynaliadwy.* **Cyfoeth Naturiol Cymru**

*Ydym yn gyffredinol, er ein bod yn cwestiynu a fydd digon o bwysau'n cael ei roi ar fusnesau a gweithgynhyrchwyr i dderbyn cyfrifoldeb am darddiad sbwriel, a'i leihau, drwy ddefnyddio deunydd pacio priodol neu ddim deunydd pacio, gan nodi'r cynigion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r mater hwn. Mae atal yn well na gwella, felly mae angen nodi a gweithredu unrhyw gynigion i wahardd cynhyrchion penodol fel plastigau untro sy'n cyfrannu at y broblem sbwriel.* **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

*I mi, mae'r thema hon yn sylfaen i'r cynllun gweithredu cyfan. Rwy'n cefnogi'r camau gweithredu a'r gydnabyddiaeth bod angen darparu cymhellion i annog pobl i ddychwelyd deunydd pacio y gellir ei ailgylchu. Mae'n ymddangos bod cynlluniau tebyg i hwn yn gweithio'n dda mewn rhannau eraill o Ewrop. Hefyd, rwy'n croesawu'r camau gweithredu i leihau faint o ddeunydd pacio na ellir ei ailgylchu, ac yn teimlo y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i'r diwydiant leihau deunydd pacio.* **Ymateb dienw**

*Nac ydw. Rwyf wedi gweld sawl strategaeth dros y degawdau diwethaf, ond mae pob un wedi methu. Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn ddiwerth oni bai bod pob Cyngor yn cael ei orfodi i fynd i'r afael â'r broblem hon, a bod canolfannau ailgylchu yn cael eu gorfodi i dderbyn gwastraff o bob math yn ddi-dâl bob dydd o'r wythnos, gyda systemau teledu cylch cyfyng ar waith.* **Ymateb dienw**

*Nac ydw - bydd addysgu tipwyr anghyfreithlon yn gwbl ddiwerth, gan eu bod eisoes yn gwybod eu bod yn cyflawni camweithredoedd. Mae angen archwilio cynlluniau i waredu gwastraff yn gyfrifol yn ddi-dâl neu am gost isel, yn ogystal â chynyddu dirwyon a chosbau troseddwyr yn sylweddol, megis atafaelu a dinistrio'r cerbydau troseddu a ddefnyddir.* **Ymateb dienw**

**Cwestiwn 4 -** Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema lleihau gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

| C4 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **229** | **55** | **11** | **60** |
| **Canran** | 65% | 15% | 3% | 17% |

Fel y nodwyd eisoes, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i awgrymu camau gweithredu ychwanegol wrth ymateb i Gwestiwn 3 ac, felly, roeddent yn cyfeirio'n ôl at yr ymateb hwnnw yn aml. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn trwy awgrymu camau gweithredu ychwanegol, roedd nifer fawr yn adlewyrchu safbwyntiau a sylwadau tebyg i'r rhai a fynegwyd yng Nghwestiwn 3. Ceir trosolwg cryno o'r awgrymiadau hyn isod.

<u>Camau eraill i hyrwyddo prosesau ailddefnyddio, ail-lenwi neu ailgylchu</u>

Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen cymryd camau pellach o dan y thema hon naill ai i annog pobl i beidio â chynhyrchu gwastraff yn y lle cyntaf, neu ailgylchu mwy ohono. Roedd y camau gweithredu posibl a awgrymwyd yn cynnwys gwella gweithrediad Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, darparu mwy o gymorth ar gyfer cynlluniau ailgylchu, atgyweirio ac ailddefnyddio, a chodi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau sydd eisoes ar waith mewn cymunedau lleol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried cynnig cymhellion ariannol i annog pobl i ailgylchu mwy o'u cynhyrchion.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gasglu "deunydd pacio oddi cartref" y gellid ei ailgylchu o bosibl naill ai drwy wella'r seilwaith ailgylchu ar ein strydoedd neu drwy wella'r broses o ddidoli sbwriel sy'n deillio o weithgareddau casglu sbwriel.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn i fynegi pryder bod y targedau ailgylchu presennol yn ystumio pwyslais y camau gweithredu, a bod angen canolbwyntio mwy ar fesurau ataliol. Awgrymodd eraill y dylai unrhyw gamau gweithredu yn ymwneud ag ailgylchu gynnwys gwelliannau i brosesau monitro ac adrodd ar gyrchfan deunydd ailgylchu ar ôl i bobl ei waredu.

<u>Camau gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel bwyd brys/eitemau untro /plastigau /deunydd pacio untro</u>

Fel sy'n wir am gwestiynau eraill drwy gydol yr ymgynghoriad hwn, roedd ymatebwyr yn canolbwyntio'n benodol ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â deunydd pacio bwyd "oddi cartref", yn enwedig mewn perthynas â siopau bwyd brys. Roedd yr

awgrymiadau yn cynnwys defnyddio mwy o gosbau ariannol, cyflwyno taliadau neu waharddiadau ar eitemau untro sy'n cael eu taflu yn rheolaidd (nid eitemau sy'n cael eu gwneud o blastig yn unig) a mwy o gymhellion i annog pobl i ailddefnyddio cynhyrchion (er enghraifft, disgownt am ddefnyddio cwpan amldro). Gofynnodd ymatebwyr eraill am ymestyn y Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig i gynnwys eitemau eraill fel pacedi creision, ac roeddent am gynyddu neu wella labelu amgylcheddol ar gynhyrchion. Cynnig poblogaidd arall oedd ei gwneud yn ofynnol i siopau bwyd brys gynnwys manylion cofrestru ceir neu ddull adnabod arall a fyddai'n olrhain sbwriel yn ôl i'r sawl a'i taflodd neu a fyddai'n caniatáu camau gorfodi yn ei erbyn.

<u>Camau i fynd i'r afael â materion gwastraff penodol neu faterion sy'n achosi problemau</u>

Awgrymodd nifer o ymatebwyr gamau gweithredu i fynd i'r afael ag eitemau penodol neu ymdrin â phroblemau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Arferion amaethyddol - Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen canolbwyntio ar wastraff sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, yn enwedig plastigau. Gofynnodd Undeb Amaethwyr Cymru am ymestyn y cynllun ailgylchu deunydd lapio silwair plastig presennol i gynnwys cynhyrchion plastig eraill fel casgenni bwyd anifeiliaid.

- Compostio yn y cartref - Galwodd nifer fach o ymatebwyr am gamau gweithredu yn ymwneud â chefnogi compostio yn y cartref a hyd yn oed datblygu strategaeth benodol yn ymwneud â'r mater.

- Cynhyrchion hylendid - Cewynnau untro a chadachau gwlyb (weips) yn benodol.

- Eitemau sy'n anodd i'w hailgylchu - Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at dargedu cynhyrchion nad oes modd eu hailgylchu ar hyn o bryd neu nad oes cyfleusterau ailgylchu ar gael yn eang ar eu cyfer. Roedd eitemau o'r fath yn cynnwys gwasarn cathod, matresi a'r bagiau mawr a ddefnyddir gan fasnachwyr adeiladwyr i ddosbarthu deunyddiau.

- Gwastraff o sectorau penodol – Er enghraifft, gwastraff adeiladu a gwastraff ysbytai.

- Sbwriel o'r awyr - Galwodd Cadwch Gymru'n Daclus am gam gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel o eitemau fel balwnau.

- Gwastraff bwyd - Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod angen camau gweithredu i helpu i leihau gwastraff bwyd.

- Sbwriel ar ochr y ffordd - Er bod cysylltiad yn aml rhwng sbwriel o'r fath ag awgrymiadau i fynd i'r afael â sbwriel bwyd brys, roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am gamau gweithredu ychwanegol i fynd i'r afael â sbwriel o gerbydau. Roedd hyn yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â malurion sy'n disgyn o gefn cerbydau casglu sbwriel/gwastraff agored a datblygu strategaeth benodol ar gyfer sbwriel ar ochr y ffordd. Awgrymodd ymateb gan blant ysgol, a gasglwyd trwy'r prosiect Pupils 2 Parliament, fod angen mwy o finiau sbwriel wedi'u dylunio ar gyfer ceir.

- Baw cŵn - Yn yr un modd â chwestiynau eraill, mynegwyd cefnogaeth i gamau penodol i fynd i'r afael â baw cŵn, gan gynnwys un ymatebydd yn gofyn am osod microsglodyn ar anifeiliaid anwes.

- Cwmnïau rhyngwladol/mawr - Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen camau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â busnesau mawr, er enghraifft siopau cadwyn archfarchnadoedd yn defnyddio deunydd pacio. Fodd bynnag, cwestiynodd un ymatebydd werth cyflwyno camau gweithredu penodol i Gymru os yw nwyddau'n cael eu mewnforio i'r wlad o fannau eraill yn y byd.

Cyflwynwyd nifer o gamau gweithredu o dan y thema Lleihau Gwastraff a fyddai, yn ein barn ni, yn fwy addas i'w cynnwys yn un o bedair thema arall y Cynllun oherwydd natur eu ffocws. Mae'r camau gweithredu hyn yn debyg i ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn.

<u>Camau gweithredu i fynd i'r afael â chasgliadau gwastraff domestig a biniau stryd</u>

Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau neu awgrymiadau yn ymwneud â gwella gwasanaethau casglu gwastraff domestig a sbwriel cartrefi. Roeddent yn cynnwys cwynion cyffredinol bod biniau'n rhy fach, bod cynwysyddion ailgylchu yn agored i'r elfennau (gan greu sbwriel ar ddiwrnodau gwyntog), casgliadau gwastraff anfynych a beirniadu gofynion Glasbrint Casgliadau Gwastraff Llywodraeth Cymru[4]. Galwodd ymatebwyr eraill am lacio rheolau mewn perthynas â gwastraff y tu allan i gynwysyddion (gadael bagiau gwastraff domestig wrth ymyl biniau), gwagio biniau baw cŵn a biniau sbwriel yn amlach a chyflogi Wardeiniaid Sbwriel. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylid darparu sgipiau cymunedol i helpu i leihau faint o wastraff swmpus sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon, neu fesurau eraill i ymdrin â'r math hwn o wastraff.

Mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n ymdrin yn benodol â thipio anghyfreithlon, nododd un ymatebydd fod y ddogfen ymgynghori wedi nodi bod 70% o wastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn tarddu o gartrefi ac, felly, dylai'r thema hon ganolbwyntio ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

---

[4]Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru - https://collectionsblueprint.wales/cy

Camau gweithredu i wella gorfodaeth

Defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn hwn i ddadlau o blaid mwy o gamau gweithredu i wella gorfodaeth, ac o blaid camau llymach i fynd i'r afael â'r mathau hyn o droseddau. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r syniad o gynyddu lefelau dirwyon a sicrhau bod dirwyon yn cael eu gorfodi. Awgrymwyd camau anuniongyrchol amrywiol eraill ar sail y gred y byddent yn helpu i leihau lefelau sbwriel. Roeddent yn cynnwys codi'r terfyn oedran ar gyfer yfed alcohol i 21, codi'r terfyn oedran gyrru i 21, a gosod pwyntiau ar drwyddedau gyrru ar gyfer troseddau taflu sbwriel.

Camau gweithredu i wella prosesau adrodd

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr fod angen cynnwys camau gweithredu i helpu i wella sut mae Awdurdodau Lleol yn ymateb i gwynion neu adroddiadau am ddigwyddiadau gan y cyhoedd.

Sylwadau eraill

Teimlai nifer fach o ymatebwyr y dylai camau gweithredu o dan y thema hon fod yn seiliedig ar arferion gorau mewn rhannau eraill o'r byd ac, o ystyried natur fyd-eang rheoli gwastraff, ei bod yn bwysig i ni ddysgu gan wledydd eraill. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod angen i ni rannu unrhyw arferion gorau ag eraill. O ystyried difrifoldeb problemau fel "llygredd plastig", nododd Un Llais Cymru fod angen gweithio gyda Llywodraethau eraill ledled y byd i ddod o hyd i atebion digonol.

Dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, mewn perthynas â cham gweithredu WR(6) (y dylai digwyddiadau sy'n cael eu noddi neu eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gynnwys darpariaethau i atal neu leihau nifer yr eitemau untro sy'n cael eu taflu fel sbwriel), y dylai'r amod hwn gynnwys holl gyllid Llywodraeth Cymru ac nid cyllid sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn unig. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod angen cynnwys lleihau gwastraff yng nghontractau caffael gwasanaethau pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Awgrymodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod angen sawl cam gweithredu ychwanegol o dan y thema hon, gan gynnwys yr angen i gydnabod micro-blastig fel sbwriel, canolbwyntio mwy ar effeithiau cemegol taflu sbwriel, a gwella ein dealltwriaeth o effeithiau amgylcheddol deunyddiau amgen.

Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen mwy o gamau gweithredu o dan y thema hon i helpu i gynorthwyo Cynghorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r problemau hyn "ar lawr gwlad". Roedd hyn yn cynnwys darparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer digwyddiadau glanhau ar raddfa fawr a sicrhau bod cymunedau'n cyfrannu mwy at ddatblygu'r Cynllun.

Dyfyniadau dangosol

*Trwy gyflwyno cynlluniau i osgoi defnyddio'r 5 (neu'r 10) o ddeunyddiau mwyaf cyffredin sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon, bydd lefelau tipio anghyfreithlon yn gostwng yn sylweddol. Er enghraifft, teiars, sachau tunelli adeiladwyr, matresi ac ati - a fydd modd ymgorffori'r eitemau hyn mewn cynllun dychwelyd ernes 'eitemau swmpus' hefyd. Sut mae gwledydd eraill yn ymdrin â'r math hwn o wastraff?* **Dienw**

*Rhoi'r gorau i godi tâl ar fusnesau i waredu gwastraff er mwyn eu hannog i wneud y peth iawn.* **Dienw**

*Rydym yn poeni am yr hyn a elwir yn ddeunyddiau pacio bioddiraddiadwy ac am ychwanegu deunydd pacio ocso-ddiraddiadwy oherwydd y perygl y bydd pobl yn taflu mwy o sbwriel gan gredu nad yw'r deunyddiau hyn yn niweidio'r amgylchedd. Hefyd, rydym yn awgrymu cynnal cynlluniau peilot gyda phrif gynhyrchwyr sigaréts, gwm cnoi, bwyd brys a diodydd meddal fel eu bod yn cynnig deunydd pacio i ddefnyddwyr ar gyfer storio sbwriel i'w ddychwelyd i fannau dynodedig. Hefyd, dylent ddarparu cyllid yn uniongyrchol i awdurdodau lleol er mwyn gwella argaeledd biniau a gofalu am fannau lle mae sbwriel yn tueddu i ymgasglu, fel parciau.* **Y Pwyllgor Cynghori ar Ddeunydd Pacio (ACP)**

*Er bod LARAC yn cefnogi'r egwyddor o leihau gwastraff yn unol â'r hierarchaeth wastraff, mae'r dewisiadau amgen i eitemau untro yn bwysig hefyd. Yn y tymor byr a'r tymor canolig, bydd gofyn o hyd am eitemau untro. Mae angen sicrhau bod modd ailgylchu eitemau amgen untro yn hawdd. Mae dewisiadau amgen i SUP yn cynnwys eitemau y gellir eu compostio'n hawdd neu eitemau pren nad ydynt o bosibl yn gydnaws â systemau casglu deunydd ailgylchu ymyl y ffordd. Mae angen ystyried nid yn unig ganlyniad amgylcheddol y cynnyrch, ond hefyd y gallu i'w ddidoli ac i ddefnyddwyr ddeall sut i waredu'r dewisiadau amgen yn briodol. Os yw cynnyrch amgen yn creu llai o wastraff, ond nad yw'n hawdd ei ailgylchu, gallai fod yn wrthgynhyrchiol ac arwain at lefelau uwch o halogi deunydd ailgylchu wrth ymyl y ffordd.*

*Mae dull diwygiedig o ymdrin â'r Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio yn gam pwysig ar gyfer dosbarthiad tecach o'r costau ar gyfer casglu ac ailgylchu/gwaredu deunydd pacio. Dylai'r broses o drosglwyddo'r baich o awdurdodau lleol i'r cynhyrchydd roi mwy o gymhelliant i ddylunio deunyddiau yn well, gan sicrhau bod y cynhyrchydd yn derbyn cyfrifoldeb am gostau ei gynnyrch hyd at statws diwedd gwastraff.* **Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LARAC)**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiynau 3 a 4)**

Un o brif themâu'r ymgynghoriad oedd sut i ymdrin â'r broses o greu, rheoli a gwaredu gwastraff cartref, a mynegwyd nifer sylweddol o safbwyntiau ar y mater hwn. Cyflwynwyd amrywiaeth eang o gamau gweithredu arfaethedig yn ymwneud â'r mater, a bydd nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn fanylach a'u trafod â phartneriaid allweddol. Maent yn cynnwys:

- Cryfhau cysylltiadau'r Cynllun â'n Strategaeth Economi Gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, er mwyn sicrhau bod materion fel caffael sector cyhoeddus a hyrwyddo deunyddiau amldro yn cael eu cynnwys yn effeithiol.

- Ymestyn y camau gweithredu presennol i gynnwys cŵn yn baeddu.

- Ymestyn canolbwynt ein camau gweithredu i gynnwys eitemau plastig untro eraill neu eitemau untro eraill waeth beth yw eu deunydd.

- Darparu mwy o eglurder ar gyfer termau fel "bioddiraddadwy" ac "amgylcheddol gynaliadwy".

Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes yn datblygu nifer o gamau gweithredu a awgrymwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio yng Nghymru erbyn 2024. Bydd hyn yn golygu bod busnesau sydd wedi gosod cynhyrchion â deunydd pacio ar y farchnad yn talu'r costau net llawn ar gyfer rheoli oes y deunydd pacio ar ôl i'r defnyddiwr ei waredu.

- Cyflwyno Treth Deunydd Pacio Plastig y DU erbyn 1 Ebrill 2022. Nod y dreth hon yw hyrwyddo'r defnydd o blastig wedi'i ailgylchu yn hytrach na phlastig newydd mewn deunydd pacio plastig. Yn ei dro, bydd hyn yn cymell lefelau uwch o ailgylchu a chasglu gwastraff plastig, gan ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi neu losgi.

- Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd erbyn diwedd 2024. Bydd y cynllun dychwelyd ernes arfaethedig ar gyfer cynwysyddion diodydd yn cynnwys poteli plastig gwydr a PET, a chaniau dur ac alwminiwm, hyd at 3 litr o ran maint.

- Cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bob safle annomestig wahanu deunyddiau allweddol y gellir eu hailgylchu er mwyn gwella ansawdd a lefelau ailgylchu gan fusnesau a'r sector cyhoeddus, gan wella cysondeb o safbwynt yr ystod o ddeunyddiau gwastraff sy'n cael eu casglu i'w hailgylchu.

- Adolygu a diweddaru ein Glasbrint Casgliadau (proffil gwasanaeth wedi'i argymell gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff cartref) er mwyn sicrhau bod set estynedig o ddeunyddiau yn cael ei chasglu gan ganolbwyntio ar gasglu deunydd o ansawdd uchel y gellir ei ailgylchu.

- Hyrwyddo a gwella Fy Ailgylchu Cymru sy'n galluogi pobl i olrhain eu deunydd ailgylchu lleol a gweld cyrchfannau ein deunyddiau.

- Mae'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu, Cynllun Sero Net Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi mwy o waith atgyweirio ac ailddefnyddio ledled Cymru, o ganolfannau canol trefi i esblygu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a pharciau ecolegol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod lleihau defnydd a gwerthfawrogi gwerth gwastraff yn hanfodol i sicrhau dim gwastraff erbyn 2050.

- Cyflwyno system olrhain gwastraff electronig orfodol er mwyn olrhain beth sy'n digwydd i wastraff a darparu gwybodaeth flynyddol am wastraff diwydiannol, masnachol, adeiladu a dymchwel sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae busnesau a sefydliadau ledled y DU yn cael eu gwahodd i ymuno â'r panel defnyddwyr olrhain gwastraff. Bydd aelodau'r panel yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil pwrpasol i'n helpu i ddeall anghenion defnyddwyr a phrofi meddalwedd wrth iddi gael ei datblygu. Hefyd, mae pobl yn gallu cofrestru i dderbyn cylchlythyr olrhain gwastraff rheolaidd.

Mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol, cyfrifoldeb awdurdodau unigol yw hi yn y pen draw i ddatblygu a chyflwyno polisïau gwastraff. Fodd bynnag, dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed strategol clir tuag at dim gwastraff, gan fuddsoddi mewn casgliadau a seilwaith ailgylchu a gosod targedau ailgylchu statudol. Mae hyn wedi gweddnewid ein cyfradd ailgylchu o lai na 5% ar ddechrau datganoli i dros 65% heddiw. Mae sawl Awdurdod Lleol eisoes wedi cyrraedd y targed 70% a osodwyd ar gyfer 2024-25. Mae lefelau gwastraff cartref sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn gostwng hefyd. Rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu targedau ailgylchu statudol newydd sy'n rhagori ar 70% yn unol â'n huchelgais i sicrhau ein bod yn ailgylchu popeth ac yn cynhyrchu dim gwastraff erbyn 2050. Rydym yn parhau i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i wella eu gwasanaethau ailgylchu trwy fuddsoddi mewn seilwaith a darparu mynediad at gyngor a chymorth arbenigol.

Mae ein llwyddiant sylfaenol ym maes ailgylchu yn blatfform i leihau defnydd trwy atgyweirio, ailddefnyddio, ailgynhyrchu, adnewyddu ac ail-lenwi. Er enghraifft, mae ein Cronfa Economi Gylchol eisoes wedi cynorthwyo 180 o brosiectau ledled Cymru i newid i economi gylchol, gan gynnwys Canolfan Remakerspace ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n dwyn ynghyd academyddion, busnesau a chymunedau i wella gwaith dylunio, a'r Cynllun Naked Takeaway yn yr Wyddgrug sy'n defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio mewn siopau tecawé lleol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio mewn canol trefi ledled Cymru, gan adeiladu ar enghreifftiau llwyddiannus ac arobryn gan gynnwys Llandrindod a'r Drenewydd.

Trwy ariannu rhaglen *Caru Cymru* (dan arweiniad Cadwch Gymru’n Daclus) a Taclo Tipio Cymru ar hyn o bryd, rydym yn ceisio gwella sut mae awdurdodau yn cydweithio, yn rhannu arferion da ac yn mabwysiadu dulliau gweithredu cyson wrth ymdrin â materion ansawdd amgylcheddol gwael. Rydym yn bwriadu defnyddio’r Cynllun hwn i helpu i gyflawni hyn ar lefel strategol a chenedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu’r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad hwn a phenderfynu a oes modd cryfhau’r camau gweithredu arfaethedig.

Hefyd, rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed mewn perthynas ag amserlenni (diffyg dyddiadau terfynol yn benodol) ac rydym yn bwriadu eu diweddaru wrth lunio’r Cynllun terfynol.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

| C5 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **201** | **19** | **41** | **94** |
| **Canran** | 57% | 5% | 12% | 26% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (57%) o blaid y camau gweithredu a amlinellir o dan y thema hon, ac o'r rhai a gytunodd, dim ond cyfran fach a ddarparodd sylwadau ychwanegol. Ceir trosolwg o'r sylwadau hyn isod.

Grŵp Data a Thystiolaeth arfaethedig a darparu data

Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig o dan EME(1) i sefydlu Grŵp Data a Thystiolaeth. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen cynnwys aelodau ychwanegol i'r sefydliadau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roeddent yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned, cynrychiolwyr busnesau a diwydiant a phobl sy'n gweithio yn y sector gwledig ac amaethyddiaeth.

Yn ogystal â chynnwys aelodau mewn grŵp casglu tystiolaeth, awgrymodd ymatebwyr eraill ffynonellau gwybodaeth a data eraill i'r rhai a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys Surfers Against Sewage (ar gyfer data casglu sbwriel gwirfoddol a gweithgarwch Cymunedol Di-blastig), Ymddiriedolaeth Natur Cymru (i gofnodi gwaith sy'n cael ei wneud gan ei Swyddogion Gwarcheidwaid Afonydd) ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru (nodwyd bod setiau data amrywiol yn cael eu cofnodi ar ei hystadau drwy systemau cofnodi mewnol). Fodd bynnag, os oes angen i sefydliadau ddarparu data, nododd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod angen cymorth a chyllid ychwanegol i helpu'r broses hon.

Cyflwynodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau penodol ynglŷn â phwy fyddai'n gallu darparu data a thystiolaeth. Awgrymodd ymateb gan OpenLitterMap y dylid rhoi mwy o bwyslais ar "Wyddoniaeth Dinasyddion" gan gyfeirio at waith y cwmni yn y maes hwn. Roedd y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn cefnogi'r dull gweithredu hwn ac yn argymell darparu hyfforddiant i helpu i wella ansawdd y data gan wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.

Monitro, adrodd a gwerthuso

Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen targedau penodol neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i helpu i fesur effeithiau unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu datblygu. Awgrymodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru y dylid cynnwys Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 26[5] i helpu i fonitro a yw pobl yn fodlon â'r ardaloedd lle maent yn byw. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn credu bod angen

[5] Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol

adolygu'r dangosydd perfformiad presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol waredu gwastraff yn unol ag amserlen benodol, gan fod hyn yn golygu y gellid dileu tipio anghyfreithlon heb gynnal ymchwiliad trylwyr o dystiolaeth.

Awgrymodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru y dylid cyfuno camau gweithredu EME(1) ac EME(6) (adolygu'r gwaith monitro presennol a datblygu llinell sylfaen) ac y dylai EME(1) helpu i gyflwyno EME(7) (datblygu dangosfwrdd adrodd) fel rhan o raglen waith y Grŵp. Cynigiodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynorthwyo gydag unrhyw gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu setiau data. Awgrymodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol y dylai unrhyw waith i ddatblygu dangosfyrddau adrodd gynnwys adolygiad o arferion gorau yn rhyngwladol ac yn genedlaethol.

Mynegodd ymatebwyr eraill bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai unrhyw waith monitro'r Cynllun fod yn feichus a dargyfeirio amser/adnoddau oddi wrth y broses o fynd i'r afael â'r broblem (roedd y rhai a wrthwynebai'r camau gweithredu wedi mynegi safbwyntiau tebyg). Nododd un ymatebydd fod angen i unrhyw ddull adrodd fod yn hygyrch ac yn hawdd ei deall i aelodau'r cyhoedd. Awgrymodd eraill ei bod yn bwysig datblygu dull gweithredu cyffredin a chyson, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylid dyrannu'r gwaith monitro i gorff neu sefydliad dynodedig. Nododd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra na ddylai unrhyw angen i gofnodi prosesau neu ddata yn y sector manwerthu roi baich ar fusnesau.

Roedd nifer fach o ymatebwyr wedi codi'r mater o adrodd am achosion o dipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel, gydag un ymatebydd yn awgrymu bod angen proses ffurfiol i gynghorwyr roi gwybod am broblemau. Cyfeiriodd Un Llais Cymru at yr angen am wella sut mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gallu rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad yw Awdurdodau Lleol yn gwneud digon i ymchwilio a chasglu tystiolaeth ar ôl cael gwybod am ddigwyddiadau.

Er yn cefnogi'r camau gweithredu, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella'r broses o wahanu camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar daflu sbwriel a'r rhai sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon, gan nodi y byddai angen dulliau gwahanol o fonitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun.

Data tipio anghyfreithlon a FlyMapper

O safbwynt casglu data ar dipio anghyfreithlon, roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod angen dull gweithredu cyfunol a phrosesau gwell ar gyfer rhannu data rhwng sefydliadau partner. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i gyflwyno system bresennol casglu data FlyMapper yn genedlaethol ac i Awdurdodau Lleol allu cysylltu hyn â thechnoleg adrodd fewnol sy'n bodoli eisoes. Nododd Cyngor Sir Abertawe fod yr amrywiad yn y systemau a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i gofnodi data yn rhwystr posibl. Mynegodd Cyngor Dinas Casnewydd bryderon tebyg, gan nodi ei bod yn anodd mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig hyd yn oed oddi mewn i'r

Awdurdod Lleol gan fod timau gwahanol yn ymdrin â digwyddiadau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Awgrymwyd bod angen adolygu'r mater hwn ymhellach.

Awgrymodd Cyngor Bro Morgannwg y dylid cynnal adolygiad i benderfynu a oes modd ehangu FlyMapper i gynnwys materion eraill yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol megis taflu sbwriel. Gofynnodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru a fyddai modd ymestyn y defnydd o dechnoleg FlyMapper i gynnwys tirfeddianwyr preifat.

Sylwadau eraill

Mynegodd Cadwch Gymru'n Daclus amheuon ynglŷn â chanolbwyntio camau gweithredu a nodau ar ganfyddiad pobl o sbwriel gan fod hyn yn dibynnu ar ddemograffeg yn aml ac yn destun nifer o newidynnau. Yn hytrach, teimlwyd bod angen archwilio'r posibilrwydd o gyfuno setiau data i helpu i ddarparu darlun mwy cyflawn. Gallai hyn gynnwys arolygon stryd drwy ddefnyddio'r mecanwaith LEAMs presennol, data sy'n cael ei gasglu o draethau gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, dadansoddi cyfansoddiad sbwriel, a data grwpiau cymunedol.

Gofynnodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol am ymestyn EME(2) ac EME(4) (mae'r ddau yn ymwneud â chofnodi data ar gyfer tipio anghyfreithlon) i gynnwys taflu sbwriel, gan nodi argymhellion blaenorol y dylai Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddefnyddio mapio GIS i helpu i nodi mannau â phroblemau sbwriel. Hefyd, awgrymodd y sefydliad fod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i helpu i ddeall effaith amgylcheddol bosibl taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, er enghraifft cemegau yn trwytholchi o gynhyrchion i ddyfrffyrdd.

Awgrymodd Un Llais Cymru fod angen dadansoddiad cost a budd o waredu gwastraff cyfreithlon gan y teimlwyd bod y polisïau presennol sydd ar waith yn rhwystr mawr. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r gwaith ymchwil i ddadansoddi cyfansoddiad sbwriel a ddyfynnwyd yn y ddogfen gan awgrymu, ar sail profiad personol, mai caniau alwminiwm a photeli plastig yw'r broblem fwyaf o safbwynt sbwriel. Dywedodd Cyngor Gwynedd y dylai arolygon glendid strydoedd LEAMs, os ydynt yn parhau i gael eu defnyddio, ddileu neu gyfyngu ar y ffaith bod strydoedd yn cael eu dethol ar hap ar hyn o bryd.

Yn yr un modd â chwestiynau blaenorol, cafwyd nifer o alwadau am gamau gweithredu penodol yn gysylltiedig ag adrodd a monitro digwyddiadau baw cŵn.

Ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r camau gweithredu

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r camau gweithredu a amlinellwyd o dan y thema hon, ac yn aml roedd hyn yn seiliedig ar y teimlad bod y math hwn o waith yn cael ei ystyried yn "wastraff amser" a/neu'n wastraff adnoddau. Teimlwyd y dylai'r problemau fod yn amlwg eisoes a bod angen mwy o ymdrech i gymryd camau

yn erbyn troseddwyr. Roedd ymatebydd arall yn cwestiynu’r amserlenni dan sylw, gan nodi bod angen cymryd camau mwy uniongyrchol.

Awgrymodd ymateb gan y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cymdogaeth, Cefn Gwlad a Chynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fod y camau gweithredu o dan y thema hon yn amwys ac y byddent yn rhy anodd i’w mesur. Yn hytrach, awgrymwyd y dylai’r thema fod yn drawsbynciol a chael ei chynnwys ym mhob un o’r themâu eraill.

Roedd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli gweithgynhyrchwyr deunydd pacio a chynnyrch yn gwrthwynebu’r camau gweithredu yn y thema hon, gan nodi y dylid mesur sbwriel yn ôl cyfrif ac nid pwysau. Hefyd, roeddent yn awgrymu y dylai nifer y cosbau penodedig a gyflwynir gan Awdurdodau Lleol fod yn ddangosydd allweddol.

Mynegodd Cyngor Sir Fynwy y safbwynt nad yw’r camau gweithredu sydd wedi’u datblygu yn newydd nac yn arloesol, gan awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith.

**Dyfyniadau dangosol**

*Mae monitro gormodol yn gwastraffu amser, ac yn ddiangen o ddrud a biwrocrataidd. Mae angen gwario mwy ar addysg a chynlluniau galluogi bach nag ar fonitro. Bydd yn amlwg pan fydd pethau’n gweithio.* **Dienw**

*Rydym yn teimlo bod gormod o bwyslais ar gasglu ystadegau a dim digon ar wneud y gwaith.* **Cyngor Cymuned Graig**

*Rydym yn cytuno bod angen casglu tystiolaeth a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd polisïau a chamau gweithredu. Mae’n dda gennym weld y bydd tir preifat a thir comin yn cael ei gynnwys yn y broses hon hefyd. Rydym yn pryderu na fydd gan rai perchnogion tir preifat y gallu i ddarparu’r wybodaeth sydd ei hangen arnoch, neu’n methu gweld y diben, yn enwedig os mai’r unig gymhelliant sydd ganddynt yw bod yn rhaid iddynt ysgwyddo’r gost o waredu’r eitemau sydd wedi’u tipio yn anghyfreithlon.*

*Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus, o fewn y broses werthuso, nad yw’r diffyg data yn troi’n esgus am ddiffyg gweithredu - mae’r dystiolaeth yn amlwg i bawb, wrth i sbwriel bentyrru yng nghefn gwlad tra bod arolygon a data’n cael eu casglu.* **Cymdeithas Twmbarlwm**

*Fel y nodwyd gan y gweinidog a thrwy gydol y cynllun, cydnabyddir bod sbwriel yn gallu achosi effeithiau cymdeithasol yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol ac ariannol megis materion iechyd y cyhoedd tymor byr uniongyrchol (anafiadau) ac effeithiau anuniongyrchol, hirdymor ar ansawdd bywyd (cyfleoedd hamdden, colli gwerth esthetig a cholli gwerth diffyg defnyddio). Mae gwaith ymchwil wedi nodi bod ardaloedd nad yw pobl yn gofalu amdanyn nhw yn gallu cael effeithiau negyddol ar ysbryd cymunedol, llesiant ac iechyd, tra bod lleoliadau sy’n derbyn gofal da yn cynyddu emosiynau cadarnhaol ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol ac integreiddio cymdeithasol. Mae’n bwysig, felly, bod yr effaith hon yn cael ei mesur a’i*

*monitro. Gellid defnyddio dangosydd llesiant cenedlaethol 26 at y diben hwn o bosibl, gan ei fod yn dangos canran y bobl sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw.*

*Wrth ddatblygu dangosfwrdd adrodd i helpu i werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at weithredu'r Cynllun, mae CIWM Cymru yn argymell y dylid ystyried dangosydd llesiant.* **CIWM Cymru Wales**

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema tystiolaeth, monitro a gwerthuso gwastraff i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

| C6 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod | Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn |
| Niferoedd | 131 | 41 | 7 | 176 |
| Canran | 37% | 11% | 2% | 50% |

Roedd nifer fawr o ymatebwyr (176) wedi methu ymateb i'r cwestiwn hwn neu wedi cyfeirio at eu hateb i Gwestiwn 5. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr fod angen rhagor o gamau gweithredu, heb ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol. O'r rhai a ddarparodd wybodaeth ychwanegol, roedd y themâu a'r sylwadau yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd wrth ateb y cwestiwn blaenorol.

<u>Rhagor o gamau gweithredu i helpu i ddeall ymddygiad</u>

Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen gwaith ychwanegol i helpu i ddeall pam mae pobl yn taflu sbwriel neu'n tipio'n anghyfreithlon ac i helpu i ddeall sut mae pobl yn "teimlo" am y materion hyn. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynwyd cynigion amrywiol gan gynnwys cynnal arolygon o agweddau a gweithio gyda throseddwyr a gwyddonwyr ymddygiad. Nododd Cyngor Sir Ceredigion fod buddsoddi mewn gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu'r Awdurdod Lleol wedi ei gwneud yn haws i bobl waredu eu gwastraff, felly roedd yn teimlo bod ffactorau eraill yn debygol o fod ar waith o safbwynt gweithgarwch anghyfreithlon.

<u>Rhagor o gamau gweithredu er mwyn gallu casglu ystod ehangach o ddata</u>

Yn yr un modd â'r ymatebion i Gwestiwn 5, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod cyfleoedd ar gael i ddefnyddio'r data sy'n cael ei gasglu trwy gamau gweithredu gan wirfoddolwyr a'r gymuned. Gallai hyn gynnwys faint o wastraff sy'n cael ei gasglu, nifer yr oriau tacluso ardaloedd gan wirfoddolwyr, a defnyddio data sy'n cael ei gasglu gan sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus. Nododd Cyngor Sir y Fflint y gallai'r broses o gasglu'r math hwn o wybodaeth helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n codi pan fydd grwpiau cymunedol yn trefnu i gasglu sbwriel yn annibynnol ar y Cyngor, cyn gwaredu'r gwastraff mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref.

Roedd y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn teimlo bod y Cynllun yn gyfle i ymgysylltu'n gadarnhaol ag aelodau'r cyhoedd, drwy rymuso gwyddoniaeth dinasyddion a llais y cyhoedd. Teimlwyd bod angen ystyried a rhestru aelodau'r cyhoedd fel "perchnogion" drwy ddarparu hyfforddiant a gwella eu sgiliau. Byddai hyn yn helpu i gryfhau ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd.

Awgrymodd Cadwch Gymru'n Daclus y gellid cynnwys data o gaffis atgyweirio, gorsafoedd ail-lenwi a mentrau tebyg eraill fel rhan o ddull "dangosfwrdd" ehangach o fonitro llwyddiant polisïau gwahanol. Hefyd, nodwyd bod gwybodaeth am

wasanaethau casglu gwastraff swmpus a gwasanaethau ailddefnyddio Awdurdodau Lleol yn ffynhonnell ddata bosibl. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r camau gweithredu presennol fynd ymhellach a chynnwys monitro gwerthiant cynhyrchion er mwyn helpu i nodi unrhyw dueddiadau posibl mewn ymddygiad defnyddwyr.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod angen cymryd camau pellach i helpu i wella'r broses o gasglu data o ardaloedd gwledig, mannau gwyrdd ac ymylon ffyrdd. Er bod llawer yn cydnabod yr anawsterau logistaidd sy'n gysylltiedig â hyn, teimlwyd y byddai'r diffyg tystiolaeth yn y meysydd hyn yn ei gwneud yn anodd monitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun. Roedd Cadwch Gymru'n Daclus yn argymell cynnwys sbwriel wrth ymyl y ffordd o dan gylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen arfaethedig yn EME(1). Nododd un ymatebydd fod angen i unrhyw ddulliau monitro adlewyrchu amgylcheddau a lleoliadau gwahanol, er enghraifft ardaloedd gwledig a threfol. Hefyd, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen cynnwys tirfeddianwyr preifat mewn unrhyw ofynion adrodd. Mewn perthynas â "mannau glas" ac afonydd, awgrymwyd y gellid defnyddio Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r math hwn o waith.

Roedd un ymatebydd yn cynnig casglu data ar leoliad a nifer y biniau sbwriel ac ailgylchu ledled Cymru (a elwir yn "binfrastructure"). Hefyd, byddai hyn yn helpu i ddatblygu camau gweithredu o dan y thema Lleihau Gwastraff a Chyflawni Gweithredol Effeithlon.

Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn argymell cynnwys data economaidd (er enghraifft, effeithiau ar fusnesau, nifer yr ymwelwyr a chostau i fusnesau) mewn unrhyw ddangosfwrdd adrodd.

Nododd Cyngor Cymuned Llys-faen fod angen seilio unrhyw gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon ar arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd o lefydd eraill, ac roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Yn benodol, teimlwyd bod cysondeb yn allweddol, ac awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio sefydliad rheoli gwastraff canolog i fonitro a gwerthuso'r Cynllun. Awgrymodd un ymatebydd y dylid archwilio a dysgu o'r dangosfwrdd a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i olrhain pandemig COVID-19.

Nododd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru nad oes unrhyw gyfeiriad at fonitro sbwriel morol. Awgrymodd ymatebydd arall fod angen data ar sbwriel PPE/masgiau wyneb, a nododd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru fod angen data ar eitemau a allai fod yn berygl i iechyd, er enghraifft sbwriel a gwydr sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

Camau gweithredu i wella'r defnydd o dechnoleg

Cyfeiriodd nifer o ymatebion at yr angen i gynnwys camau gweithredu a fyddai'n helpu i wella'r defnydd o dechnolegau newydd ac arloesol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys defnyddio dronau a delweddau lloeren i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu i gasglu tystiolaeth yn ymwneud â digwyddiadau a gofnodir gan y cyhoedd. Roedd eraill o blaid defnyddio technoleg gwyliadwriaeth yn amlach, er enghraifft camerâu teledu cylch cyfyng a chamerâu

llwybrau. Roedd ymateb gan OpenLitterMap o blaid defnyddio'r dechnoleg a ddatblygwyd gan y cwmni.

Camau gweithredu i wella'r broses o adrodd am ddigwyddiadau

Nododd rhai ymatebwyr enghreifftiau o anawsterau neu faterion roeddent wedi'u hwynebu wrth adrodd am droseddau, a'r diffyg cyfathrebu ymddangosiadol o safbwynt a fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud am y mater. O ganlyniad, roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu camau gweithredu i helpu i wella'r agwedd hon.

Roedd Cyngor Dinas Abertawe o blaid un pwynt adrodd ar gyfer y mathau gwahanol o droseddau, a gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am symleiddio'r prosesau presennol i helpu i wella arferion adrodd. Teimlwyd bod sefydliadau gwahanol yn gwneud yr un peth yn aml wrth gasglu data ond eu bod yn defnyddio dulliau gwahanol. Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn trwy raglen *Caru Cymru* Cadwch Gymru'n Daclus. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i safoni'r gwaith o adrodd am dipio anghyfreithlon.

Yn ogystal â gwella sut mae pobl yn adrodd am ddigwyddiadau a data, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r canlyniadau y mae'n eu cyhoeddi. Roedd eraill yn teimlo bod angen adrodd yn rheolaidd ar unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu i gefnogi'r Cynllun.

Cyfansoddiad sbwriel

Roedd ymatebion gan weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr deunydd pacio yn galw am gyfrif eitemau sbwriel o bob math, waeth a oedd yn ddeunydd pacio ai peidio na beth oedd natur y deunydd ei hun. Roedd ymatebion eraill yn gofyn am gofnodi sbwriel yn ôl nifer yn hytrach na phwysau yn unig. Cyfeiriodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru at gyngor ac argymhellion ar gasglu data sbwriel a wnaed yn Adroddiad Tasglu Sbwriel y Pwyllgor Cynghori ar Ddeunydd Pacio.

Nododd ymateb gan Circulogic fod angen ystyried y gwaith ehangach yn ymwneud â chyfansoddiad sbwriel sy'n cael ei wneud o dan y Cynllun Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer deunydd pacio, a sut y gellid defnyddio hyn yn y Cynllun. Gofynnodd Cyngor Sir Fynwy am fwy o astudiaethau ar gyfansoddiad sbwriel er mwyn helpu i wella ailgylchu oddi cartref. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cefnogi defnydd mwy rheolaidd o astudiaethau o'r fath hefyd, gan nodi y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â phroblemau sbwriel a thipio anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â Thai Amlfeddiannaeth neu fflatiau sydd angen biniau cymunedol ac ardaloedd storio gwastraff cymunol yn aml.

Awgrymiadau eraill

Gofynnodd un ymatebydd am gam gweithredu i ddatblygu system monitro perfformiad a fyddai'n golygu bod modd cymharu gwasanaethau Cynghorau a'u rhoi mewn tabl cynghrair.

Nododd y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod y Cynllun yn cyfeirio at "ddeall ffynhonnell, lefelau ac effeithiau taflu sbwriel", ond nad oes unrhyw gamau penodol

wedi'u cynnwys i gyflawni hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd y dylid naill ai gomisiynu gwaith ymchwil newydd neu ariannu sefydliad perthnasol i gwblhau astudiaethau er mwyn deall effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol taflu sbwriel. Hefyd, roedd y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn awgrymu y dylid sefydlu cyfarfodydd cynnydd rhanddeiliaid rhyngddisgyblaethol chwarterol a chyhoeddi adroddiadau blynyddol. Awgrymwyd y byddai hyn yn helpu i roi platfform i bartneriaid gyfrannu'r wybodaeth ddiweddaraf a rhannu adborth adeiladol wrth i'r Cynllun ddatblygu. Nododd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru fod angen amserlenni penodol ar gyfer unrhyw gamau gweithredu sy'n cynnwys gofynion adrodd a monitro data.

Nododd Cyngor Sir Fynwy fod y camau gweithredu presennol yn canolbwyntio'n helaeth ar wella'r broses o gasglu data ar dipio anghyfreithlon, ond ychydig iawn o ddata a oedd wedi'i ddarparu mewn perthynas â sbwriel. Darparodd Cyngor Dinas Abertawe enghraifft o welliannau o'r fath, ac roedd y Cyngor yn teimlo bod gwaith yn cael ei ddyblygu ar hyn o bryd gan fod Awdurdodau Lleol a Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolygon stryd ar gyfer adroddiadau'r LEAMs. Awgrymodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot y dylid adolygu'r system LEAMs bresennol, yn enwedig o safbwynt sut mae ardaloedd yn cael eu dethol er mwyn sicrhau bod gan bob ward gyfle cyfartal i gael ei dewis at ddibenion archwilio.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Cynghori ar Ddeunydd Pacio at yr angen i roi blaenoriaeth i olrhain gwastraff digidol, diwygio'r cynllun trwydded cludwyr gwastraff, a gwneud newidiadau i'r rheoliadau dyletswydd gofal presennol.

**Dyfyniadau dangosol**

*Dylai pobl gael dirwy am beidio ag ailgylchu, oherwydd ar hyn o bryd rwy'n gweld cymaint o ddeunydd ailgylchu'n cael ei roi allan nad yw'n dderbyniol, neu ormod o fagiau du yn hytrach nag ailgylchu.* **Dienw**

*Rydw i bob amser yn credu y dylai unrhyw Gynllun fod yn hyblyg gan ddatblygu ar sail effaith ei gamau gweithredu priodol.* **Dienw**

*Dylai'r broses werthuso gynnwys dadansoddiad o gostau economaidd ehangach, a allai gynnwys y mathau o ardaloedd a demograffeg busnes a sectorau yn yr ardaloedd hynny sy'n cael eu heffeithio yn benodol gan sbwriel a thipio anghyfreithlon, ymgysylltu â busnesau ar sut mae'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr yn eu hardal, a'r costau cyfle busnes yn yr economi gylchol sy'n cael eu creu gan sbwriel a thipio anghyfreithlon.* **Ffederasiwn Busnesau Bach**

*Targedau statudol, adrodd, tablau cynghrair, rhoi cyhoeddusrwydd i gamau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu cynghorau*. **Jane Ball**

*Mae angen rhoi sgôr ecoleg sy'n debyg i sgôr hylendid bwyd yn seiliedig ar faint o wastraff y mae cwmni yn ei gynhyrchu a'r hyn y mae'n ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Dylai fod yn haws darganfod beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, yn union fel y gallwch wrth brynu diod llawn siwgr, neu far siocled diolch i'r system liw ar y deunydd pacio.*

*Beth am gyflwyno'r un system ar gyfer siopau? Dylai hyn fod yn hawdd ei deall a'i ddefnyddio, mewn system goleuadau traffig*. **Lauren Goodland**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiynau 5 a 6)**

Rydym yn croesawu'r cynigion niferus sydd wedi'u gwneud gan ystod o sefydliadau o dan y thema hon i ddarparu data a/neu dystiolaeth ychwanegol i helpu i roi'r Cynllun ar waith. Byddwn yn cysylltu â'r sefydliadau hyn yn unigol i ddysgu mwy am y wybodaeth sydd ganddynt a phenderfynu a yw'n addas i'w chynnwys mewn unrhyw adnodd monitro y gallwn ei ddatblygu. Awgrymwyd nifer o enwebiadau ar gyfer ein Grŵp Data a Thystiolaeth hefyd, ac unwaith eto byddwn yn cysylltu â'r sefydliadau hyn i nodi ymgeiswyr addas.

Ar ôl ei sefydlu, tasg y Grŵp Data a Thystiolaeth fydd adolygu'r dangosyddion niferus sydd wedi'u hawgrymu yn yr ymgynghoriad ac archwilio dichonoldeb eu cynnwys mewn math o "ddangosfwrdd". Rydym yn credu y bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r perygl o ddyblygu ymdrechion neu greu system adrodd sy'n rhy feichus i'w defnyddio. Er ein bod yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi gwrthwynebu'r angen i ganolbwyntio ar gasglu data a thystiolaeth (ar y sail bod y gwaith hwn yn rhy fiwrocrataidd), rydym yn credu bod hon yn elfen annatod o gyflwyno a monitro'r Cynllun.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu'r angen am thema ar wahân ar gyfer Tystiolaeth, Gwerthuso a Monitro, gan awgrymu y dylai hon fod yn thema drawsbynciol. Er ein bod yn cytuno i ryw raddau â'r safbwynt hwn, ac yn bwriadu sicrhau bod dull gweithredu o'r fath yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun terfynol, rydym yn credu bod angen thema benodol i helpu i wella'r broses ehangach o gofnodi a monitro tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yng Nghymru.

Ers cynnal yr ymgynghoriad ar y Cynllun, dylid nodi bod gwaith monitro ac adrodd ar sbwriel wedi'i wneud ar lefel y Deyrnas Unedig er mwyn helpu i ddatblygu cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer deunydd pacio. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at ddatblygu'r rhaglen waith hon, ac yn dibynnu ar ganlyniadau'r gwaith hwn, gallem ystyried cynnwys hyn yn ein proses casglu data bresennol.

Mae gwaith yn parhau hefyd er mwyn gwella cysondeb data ac ystyried pam mae pobl yn taflu sbwriel neu'n tipio yn anghyfreithlon yn y lle cyntaf. Bydd ein Cynllun yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. Hefyd, byddwn yn mynd i'r afael â sylwadau ymatebwyr yn ymwneud â diffyg camau gweithredu i helpu i ddeall ffynhonnell, lefel ac effeithiau taflu sbwriel yng Nghymru.

Fel sy'n wir am adrannau eraill yn y Cynllun, rydym yn bwriadu diweddaru a chynnwys amserlenni penodol yn erbyn camau gweithredu y cytunir arnynt ar ôl cwblhau'r Cynllun.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema addysg a newid ymddygiadol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

| C7 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | 233 | 6 | 37 | 79 |
| **Canran** | 66% | 2% | 10% | 22% |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (66%) yn cytuno â'r camau gweithredu o dan y thema hon, a dim ond chwe ymatebydd oedd yn anghytuno. Ni chyflwynodd dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn cytuno (137) unrhyw sylwadau ychwanegol. O'r rhai a gyflwynodd sylwadau, mae trosolwg cyffredinol o'r camau gweithredu a'r awgrymiadau wedi'i ddarparu isod. Er bod ymatebwyr yn canolbwyntio ar daflu sbwriel yn bennaf o dan y cwestiwn hwn, roedd rhai wedi cyfeirio at sicrhau ymwybyddiaeth ehangach o atal a rheoli gwastraff.

<u>Camau gweithredu i ganolbwyntio ar ysgolion a phobl ifanc</u>

Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd ymgysylltu â phlant pan fyddant yn ifanc, gan nodi bod hwn yn gyfle i feithrin ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol, yn enwedig os yw'n cael ei ategu gan addysg ysgol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai hyn yn parhau os nad yw rhieni yn arfer ymddygiad tebyg. Ar y sail hon, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod ymgysylltu ag oedolion llawn cyn bwysiced, ac y dylai unrhyw gamau gweithredu gael eu hymestyn y tu hwnt i addysg ysgol.

Nododd nifer o ymatebwyr y gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng plant ifanc mewn ysgolion cynradd a disgyblion ysgolion uwchradd o safbwynt ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol. Er bod rhai wedi darparu tystiolaeth anecdotaidd, er enghraifft, lefelau uwch o daflu sbwriel o amgylch ysgolion uwchradd lleol o'i gymharu ag ysgolion cynradd, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bendant i gefnogi'r honiad hwn. Fodd bynnag, roedd llawer o'r farn gyffredinol bod unrhyw ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol sy'n cael ei ddysgu gan blentyn yn ifanc yn dod yn llai amlwg wrth iddo fynd yn hŷn. Awgrymodd un ymatebydd fod angen gwaith ymchwil pellach i ddeall pam mae hyn yn digwydd.

Roedd ymateb gan yr elusen Cadwch y Fenni'n Daclus, a nododd dystiolaeth bod pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u dieithrio, yn awgrymu bod angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r cwricwlwm ysgol presennol ar gyfer plant hŷn. Nododd ymatebydd arall fod mwy o gyfleoedd i blant brynu eitemau untro, er enghraifft trwy ddefnyddio peiriannau gwerthu, mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu ag ysgolion cynradd. Nododd un ymatebydd enghraifft o sut mae ysgol yn defnyddio dull gwobrwyo (caniatáu i blant fynd i'r dref leol os yw iard yr ysgol yn cael ei chadw'n lân) er mwyn hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymddygiad cadarnhaol ymysg ei disgyblion.

Camau i gefnogi ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol

Yn ogystal â’r sylwadau uchod, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn dadlau o blaid camau gweithredu cyffredinol sy’n ceisio mynd i’r afael ag ymddygiad pobl. Roedd yr awgrymiadau’n amrywio o weithio’n agosach gydag academyddion ac arbenigwyr, i gynnal adolygiad o arferion gorau mewn rhannau eraill o’r byd.

Nododd ymateb gan Gyngor Sir y Fflint ei brofiad o orfodi rheolau yn ymwneud â thaflu sbwriel, a barn rhai aelodau o’r cyhoedd nad yw taflu sbwriel yn cael ei ystyried yn drosedd “ddifrifol”. Teimlwyd y dylai unrhyw gamau gweithredu yn y thema hon sicrhau bod pobl yn deall effaith amgylcheddol taflu sbwriel a sicrhau bod y weithred yn cael ei hystyried yn gymdeithasol annerbyniol. Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen canolbwyntio mwy ar gymell neu wobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn hytrach na chosbi ymddygiad gwael yn unig. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai mabwysiadu dull o’r fath yn golygu bod rheoli gwastraff yn gyfrifol yn cael ei ystyried yn “norm cymdeithasol”.

Fodd bynnag, roedd ymatebydd arall yn cwestiynu a fyddai hyn yn bosibl o ystyried bod taflu sbwriel wedi bod yn broblem ers amser maith. Teimlwyd bod llawer o bobl yn derbyn bodolaeth sbwriel fel rhyw fath o norm bellach (yn enwedig sbwriel ar ochr y ffordd). Er eu bod o blaid y camau gweithredu sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun, roedd ymatebwyr eraill yn cwestiynu a ellid newid ymddygiad negyddol o’r fath o ystyried bod y rhan fwyaf o bobl eisoes yn ymwybodol o’r effaith ond eu bod yn dewis ei hanwybyddu beth bynnag. Teimlwyd bod ffactorau eraill yn gyfrifol am y ffaith bod pobl yn cyflawni troseddau, yn hytrach nag anwybodaeth neu ddiffyg gwybodaeth.

Camau i wella cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i’r syniad o ddatblygu ymgyrch genedlaethol neu ddefnyddio negeseuon codi ymwybyddiaeth. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol ar sut i hyrwyddo ymgyrch neu negeseuon, ac roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cynnal ymgyrchoedd mwy lleol gan ddefnyddio posteri ac arwyddion, a chreu cynnwys ar-lein/digidol gan ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol neu hysbysebion teledu. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid defnyddio pobl enwog i helpu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn cwestiynu a oes digon o dystiolaeth i gefnogi’r defnydd o ymgyrchoedd cenedlaethol, gan nodi ei bod yn ddrud i’w cynnal yn aml ac nad ydynt yn llwyddiannus iawn.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig i safoni negeseuon a dulliau gweithredu (Cam Gweithredu EBC(1)), ac roedd Awdurdodau Lleol yn benodol yn teimlo y byddai dull Cymru gyfan yn helpu i wella cysondeb o safbwynt barn y cyhoedd ar y materion hyn. Roedd cynrychiolwyr manwerthwyr megis y Gymdeithas Siopau Cyfleustra ac elusennau amgylcheddol fel Cadwch Gymru’n Daclus yn rhannu safbwyntiau tebyg.

Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod angen i unrhyw ymgyrch gysylltu â sectorau neu grwpiau penodol. Er enghraifft, awgrymodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru y dylai unrhyw ymgyrch gynnwys ffocws gwledig/amaethyddol er mwyn dangos yr effeithiau a'r niwed posibl i'r amgylchedd, da byw ac ati sy'n deillio o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Cyfeiriodd Un Llais Cymru at bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau lleol a chanolbwyntio arnynt. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai unrhyw negeseuon fod yn drawiadol a chynnwys delweddau sy'n dangos effaith amgylcheddol gweithredoedd pobl, gan sicrhau eu bod yn cysylltu â phryderon pobl h.y. baw cŵn yn effeithio ar allu plant i fwynhau mannau gwyrdd. Er bod ymatebwyr yn cydnabod ei bod yn bwysig amlygu'r materion hyn, awgrymodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru fod angen rhoi sylw i waith caled y gwirfoddolwyr a'r cymunedau sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hyn.

<u>Camau gweithredu sy'n targedu busnesau ac yn hyrwyddo cyfrifoldeb</u>

Er bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldeb ac ymddygiad unigol, roedd rhai yn teimlo bod angen cymryd camau i fynd i'r afael ag arferion busnesau a chorfforaethau. Fel sy'n wir am gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn, cyfeiriwyd yn benodol at gamau gweithredu i fynd i'r afael â bwyd brys a sbwriel "oddi cartref", a nodwyd bod angen i'r cwmnïau hyn wneud mwy o gyfraniad ariannol.

Mewn perthynas ag EBC(5) (Ymgysylltu â'r sector preifat), nododd Cadwch Gymru'n Daclus ei bod yn hollbwysig sicrhau cefnogaeth y diwydiant, ond er bod y diwydiant wedi addo rhoi cefnogaeth yn y gorffennol, nid oedd hynny wedi digwydd. Awgrymwyd na ddylid ystyried y newidiadau sydd ar y gweill trwy'r cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig newydd ar gyfer deunydd pacio fel yr unig ateb i gyfranogiad effeithiol y diwydiant, na'u hystyried yn 'bwynt terfyn'. Roedd yr ymateb yn argymell ymgysylltiad uniongyrchol a pharhaus i sicrhau nad yw dewisiadau amgen arfaethedig yn creu problemau newydd, er enghraifft, newid o blastigau i ddeunyddiau 'bioddiraddiadwy'.

Nododd Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain fod yn rhaid i fusnesau gyflawni rôl, ond pwysleisiodd fod pawb yn gyfrifol am reoli gwastraff yn effeithiol, ac er mwyn helpu i hwyluso ymddygiad o'r fath, roedd angen gwella'r seilwaith i ddal deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Nododd ymateb gan Nestlé ei fod, fel cwmni rhyngwladol, wedi helpu i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol trwy ddigwyddiadau fel Glanhau Traethau Prydain. Nododd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra fod angen i unrhyw gamau yn ymwneud â chyfathrebu ac ymgyrchoedd gynnwys busnesau er mwyn sicrhau eu bod yn ymarferol o safbwynt galluoedd gweithredu.

<u>Sylwadau eraill</u>

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd addysg a chodi ymwybyddiaeth, ond teimlwyd mai rhan o'r ateb yn unig fyddai hyn. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr hyn y dylai camau gweithredu o'r fath gael eu hategu gan gosbau llymach a'r bygythiad o gyflwyno mesurau gorfodi. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylai unrhyw weithgareddau addysgol gael eu hategu gan gamau gweithredu ar lawr gwlad, er enghraifft, cynnwys plant a chymunedau lleol mewn digwyddiadau casglu sbwriel. Trwy wneud hyn, byddai'r cyfranogwyr yn gweld maint y broblem a'r effeithiau ar ardaloedd.

Fel sy'n wir am gamau gweithredu mewn themâu eraill, roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu'r defnydd o dermau fel "gweithio gyda" a "pharhaus" yn nhabl gweithredu'r Cynllun. Awgrymwyd bod angen manylion mwy penodol er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu a'i berchnogi gan eraill.

O'r rhai a wrthwynebodd y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun, roedd llawer yn teimlo bod addysg yn ddull gweithredu rhy "feddal", ac mai cosbau llymach oedd yr unig ateb. Roedd ymatebydd arall yn cwestiynu a fyddai unrhyw un o'r camau gweithredu yn cael effaith ar dipio anghyfreithlon.

**Dyfyniadau dangosol**

*"Rydym yn teimlo bod y cynllun hwn yn camddehongli prif achos sbwriel a thipio anghyfreithlon, gan anwybyddu'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sy'n arwain at yr ymddygiad hwn. Mae'r thema addysg a newid ymddygiadol yn canolbwyntio'n bennaf ar y syniad nad yw pobl yn ymwybodol na ddylent daflu sbwriel na thipio'n anghyfreithlon, ac nad ydynt yn gwerthfawrogi'r effaith negyddol y mae gweithredoedd o'r fath yn ei chael ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r tipio anghyfreithlon a'r sbwriel yn Asda i'w weld yn yr ardal o amgylch ein canolfannau ailgylchu. Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos bod cwsmeriaid a busnesau bach yn ceisio gwneud eu gorau i waredu eu heitemau diangen mewn modd priodol, a'u bod yn ymwybodol o'r sgil-effeithiau amgylcheddol os nad ydynt yn gwneud hynny".* **Asda**

*Fe aethom ati ym Mrynbuga i ofyn i'r Cyngor Tref greu sticer syml, cyn gofyn i bob busnes ar y stryd fawr i'w arddangos yn eu ffenestri er mwyn dangos eu cefnogaeth i Frynbuga di-sbwriel. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd ym Mrynbuga, ond mae menter o'r fath yn gallu helpu'r sefyllfa a sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn cyfrifoldeb yn eu hardal eu hunain, yn enwedig os yw'n rhan o ddull gweithredu strategol newydd gweladwy iawn.*

*Hefyd, fe welsom fenter ar-lein o'r enw Commit to Your Street. Rydym yn gwneud hyn yn llwyddiannus ym Mrynbuga. (Gweler @CommitUsk ar Twitter). Defnyddir map syml ar Google i ddangos y stryd lle mae unigolyn neu deulu wedi gwirfoddoli i waredu unrhyw sbwriel. Buom yn gwneud hyn ers nifer o flynyddoedd ac mae'n gweithio.* **Gwirfoddolwyr Gweithredu ar Sbwriel Brynbuga**

*Rydym yn croesawu'r thema addysg a newid ymddygiadol ac rydym yn cytuno y dylai pawb yng Nghymru allu storio a gwaredu eu gwastraff yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyfrifol, gan gydnabod y niwed y gall gweithredoedd anghyfrifol ei gael ar yr amgylchedd a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, rydym yn credu yn gryf bod angen mynd ymhellach, gan ystyried nid yn unig dinasyddion Cymru, ond y gynulleidfa dwristiaeth ehangach a rôl ymwelwyr wrth greu Cymru fwy gwyrdd a glân.* **Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru**

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema addysg a newid ymddygiadol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

| C8 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **189** | **30** | **20** | **116** |
| **Canran** | 53% | 8% | 6% | 33% |

Cytunodd nifer fawr o ymatebwyr (189) fod angen camau gweithredu ychwanegol o dan y thema hon, ond roedd cyfran uchel o'r camau arfaethedig hyn yn debyg i sylwadau ac awgrymiadau a wnaed o dan gwestiwn 7. At ddibenion cyflawnrwydd, mae'r safbwyntiau hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad isod, ond nid ydynt yn brif ganolbwynt y crynodebau a ddarparwyd.

Gorfodi yn hytrach nag addysgu

Yn debyg i'r ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn credu mai camau gorfodi yw'r prif ateb i addysgu a newid ymddygiad. Roedd y camau gweithredu a awgrymwyd yn gymharol debyg i'r camau a nodwyd o dan gwestiynau eraill, a'r farn gyffredinol oedd mai cyflwyno mwy o ddirwyon/cynyddu lefelau dirwyon yw'r unig ateb i'r problemau hyn. Awgrymodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru fod angen cyflwyno cam gweithredu penodol i sicrhau bod ynadon ac asiantaethau gorfodi yn ymwybodol o'r ystod o gosbau gorfodi sydd ar gael i'w helpu i ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon.

Camau gweithredu i gefnogi neu hyrwyddo ymgyrchoedd a chodi ymwybyddiaeth

Yn debyg i'r sylwadau a wnaed o dan Gwestiwn 7, cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan ymatebwyr i'r angen am ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o daflu sbwriel. Unwaith eto, mynegwyd safbwyntiau amrywiol ar raddfa, cwmpas a natur ymgyrch o'r fath. Yn ogystal ag ymgyrch genedlaethol, roedd rhai ymatebwyr yn nodi'r angen am negeseuon mwy penodol ac wedi'u targedu. Er enghraifft, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod angen defnyddio ymgyrchoedd penodol mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud awgrymiadau yn ymwneud â naws ymgyrch, gyda nifer fach yn ffafrio negeseuon cadarn iawn sy'n amlygu effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Awgrymwyd y byddai angen cynnwys effeithiau ariannol a chymdeithasol y troseddau hyn yn ogystal â'r difrod amgylcheddol sy'n cael ei achosi ganddynt. Pwysleisiodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn ymwybodol o lwybr sbwriel o'r tir i'r afonydd a'r môr.

Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod angen codi ymwybyddiaeth o'r camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion

hyn, er enghraifft y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr a gweithwyr Cynghorau i gadw ardaloedd yn lân.

Yn ogystal â defnyddio ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth, roedd sawl ymatebydd o blaid defnyddio digwyddiadau casglu sbwriel a glanhau traethau fel ffordd o godi ymwybyddiaeth pobl o effeithiau taflu sbwriel. Yn aml, roedd y cam gweithredu hwn yn cyfeirio at ddefnyddio'r dull hwn i dargedu plant ysgol, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd yr ysgol yn cael ei hystyried yn ffynhonnell sbwriel yn y gymuned leol.

Camau i gefnogi ymwybyddiaeth ar lefel leol

Er eu bod yn croesawu cynlluniau i sicrhau cysondeb o safbwynt negeseuon ac ymgyrchoedd ar lefel genedlaethol, roedd nifer o ymatebwyr yn nodi pwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau ar lefel leol hefyd. Teimlwyd y byddai teilwra negeseuon sy'n berthnasol i brofiadau pobl o ddydd i ddydd yn sicrhau mwy o ymrwymiad i unrhyw ymgyrch ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o falchder mewn lle. Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y gallai busnesau lleol gyflawni rôl wrth helpu i ddarparu negeseuon lleol o'r fath o ystyried eu buddiant a'u diddordeb yn eu cymunedau lleol.

Gwelliannau i'r cwricwlwm presennol

O safbwynt camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar addysg ysgolion (EBC(13), EBC(14) ac EBC(15) yn benodol), cwestiynodd Un Llais Cymru y diffyg cyfeiriad at y cwricwlwm newydd neu Fagloriaeth Cymru. Awgrymodd sawl ymatebydd arall fod angen camau gweithredu penodol a fyddai naill ai'n gofyn am newidiadau i'r cwricwlwm presennol neu'n sicrhau mwy o ymgysylltiad ag unigolion yn y sector addysg uwchradd. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod angen canolbwyntio'n benodol ar yr economi gylchol. Hefyd, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid camau gweithredu a fyddai'n sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflwyno addysg amgylcheddol yng Nghymru. Yn yr un modd â'r ymatebion i Gwestiwn 7, roedd sawl ymatebydd wedi gwneud cysylltiad rhwng ysgolion uwchradd a phroblemau sbwriel yn lleol.

Addysg y tu allan i leoliad yr ysgol ac addysg i oedolion

Er bod ymatebwyr yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â phobl ifanc trwy addysg ffurfiol, roedd rhai o'r farn bod y camau gweithredu presennol o dan y thema hon yn rhy gul ac y dylid eu hehangu i ymestyn y tu hwnt i ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys:

- Camau gweithredu sy'n cynnwys grwpiau a sefydliadau ieuenctid a sefydlwyd i weithio gyda phobl ifanc, er enghraifft, canolfannau hamdden/dysgu awyr agored (awgrymodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored nifer o welliannau i sicrhau bod sefydliadau awyr agored yn cael eu cynrychioli yn yr adrannau perchnogion);

- Lleoliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach;

- Addysg i oedolion – trwy gyfrwng gweithleoedd, er enghraifft; a
- Busnesau – Nododd Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru bryderon am fusnesau sy'n defnyddio gwasanaethau rhatach a bod y gwastraff hwn yn cael ei ddympio'n anghyfreithlon wedyn. Cyfeiriwyd at y cymorth sydd wedi'i roi i'r ymgyrch *"Gwastraff Iawn, Lle Iawn"*.

<u>Sylwadau eraill</u>

Pwyslais cyffredin yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o gynlluniau ailgylchu ac ailddefnyddio presennol. Er enghraifft, roedd Asda yn credu bod angen mwy o gamau gweithredu i helpu i addysgu pobl am yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu'n lleol, lleoliad cyfleusterau ailgylchu a llwybrau trafnidiaeth i gyrraedd yno. Awgrymodd Lleihau Plastig yr Wyddgrug fod angen cam gweithredu i wella ymwybyddiaeth o gynlluniau atgyweirio ac ailddefnyddio lleol.

Cyfeiriodd Cyngor Sir Ceredigion at yr angen am ragor o waith ymchwil i nodi rhwystrau posibl i fynediad pobl at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a chyfleusterau gwastraff eraill. Ategwyd hyn gan nifer o ymatebwyr eraill sy'n teimlo bod polisïau gwastraff yn ffactor sy'n cyfrannu at dipio anghyfreithlon. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen gwahanu deunydd eildro yn gyson ar draws y rhanbarthau (lle bo hynny'n bosibl) er mwyn helpu i wneud y cynlluniau'n haws eu defnyddio, yn enwedig i ymwelwyr â Chymru. Fel gyda'r cwestiynau eraill, cyfeiriodd sawl ymatebydd at ddiffyg camau gweithredu sy'n canolbwyntio'n benodol ar faw cŵn a pherchnogion cŵn.

Nododd un ymatebydd fod angen fframwaith monitro a gwerthuso ffurfiol i helpu i fonitro camau gweithredu. Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen nodi arferion gorau mewn llefydd eraill (cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at Japan) a bod angen cydweithio i helpu i sicrhau bod unrhyw negeseuon yn cael eu rhannu'n eang. Nododd rhai ymatebwyr fanteision gweithio gyda sefydliadau academaidd a sefydliadau ymchwil er mwyn helpu i ddeall pam mae pobl yn ymddwyn mewn ffordd benodol. Gofynnodd Cadwch Gymru'n Daclus am eglurhad o ystyr y term Newid Ymddygiad yn y ddogfen, ac awgrymodd fod angen diffinio bwriadau'r gwaith hwn yn gliriach.

**Dyfyniadau dangosol**

*Mwy o wasanaeth cymunedol ar gyfer pobl sy'n euog o'r troseddau hyn. Efallai y bydden nhw'n gofalu am yr ardal yn well pe baen nhw'n gorfod ei glanhau.* **Dienw**

*Fel mater o flaenoriaeth, mae angen i raglenni ymwybyddiaeth amgylcheddol gysylltu'r mater o daflu sbwriel â phrofiadau pobl eu hunain er mwyn sicrhau bod y mater yn uniongyrchol berthnasol iddynt. Byddai rhannu dadansoddiad o waith ymchwil yn ymwneud ag ymddygiad taflu sbwriel mewn grwpiau oedran gwahanol, er enghraifft, yn gwneud y mater hwn yn berthnasol ac yn real. Er mwyn newid ymddygiad, mae angen dealltwriaeth glir o effaith taflu sbwriel ar yr amgylchedd yn ogystal ag ar gymdeithas. Ar lefel sylfaenol, mae angen datblygu ymwybyddiaeth o effaith y cefnfor, sy'n casglu ein sbwriel mewndirol, ar ein bywydau. Wrth i ymwybyddiaeth o natur gydgysylltiedig ein byd gynyddu, mae taflu sbwriel yn cael*

*mwy o effaith arnom, ac mae pobl ifanc yn fwy tebygol o gymryd camau perthnasol. Byddai cyd-greu unrhyw adnoddau newydd a chyfnod o brofi ac adolygu ar draws y grwpiau demograffeg yn sicrhau bod negeseuon a dulliau gweithredu yn llwyddo ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig. Hefyd, byddwn yn awgrymu bod angen ehangu'r ffocws y tu hwnt i ysgolion er mwyn cynnwys grwpiau ieuenctid a sicrhau bod cymunedau mewndirol ac arfordirol yn cael eu targedu.* **Y Gymdeithas Cadwraeth Forol**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiynau 7 ac 8)**

Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau o dan y thema hon, ac roedd nifer fawr o ymatebwyr yn dadlau o blaid defnyddio camau gorfodi mwy llym naill ai i newid ymddygiad neu gosbi'r rhai sy'n gwrthod cydymffurfio. Er bod camau gorfodi wedi'u cynnwys o dan thema ar wahân, rydym yn cydnabod teimladau cryfion ymatebwyr ynghylch y mater hwn a byddwn yn adolygu'r camau gweithredu presennol i sicrhau bod yna gysylltiadau priodol rhwng y ddwy thema. Fodd bynnag, er bod teimladau cryfion wedi'u mynegi am yr angen i gymryd camau mwy cadarn, yn enwedig mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, roedd llawer o ymatebwyr o blaid dull gweithredu "abwyd a ffon", ym maes taflu sbwriel yn benodol. Unwaith eto, byddwn yn myfyrio ar y safbwyntiau a'r awgrymiadau a ddarparwyd er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau ddull gweithredu hyn.

Hefyd, rydym yn cydnabod y sylwadau lluosog a gafodd eu gwneud mewn perthynas â sut mae rhaglenni, camau gweithredu a gwybodaeth am sbwriel a thipio anghyfreithlon yn cael eu cyfleu i ddinasyddion ar hyn o bryd. Er bod data ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn cael eu cyhoeddi ar-lein gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn aml, rydym yn cydnabod bod yna le i wella. Byddwn yn ystyried a oes modd defnyddio dulliau eraill i helpu i wella sut rydym ni a'n partneriaid yn gweithredu. Un maes o ddiddordeb penodol yw ceisio defnyddio technoleg yn well er mwyn ymgysylltu â'r rhai sydd â chysylltiadau uniongyrchol â'r gymuned, er enghraifft Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau gwirfoddol. Mae gweithio ar-lein a defnyddio meddalwedd i gynnal cyfarfodydd rhithwir yn ystod y pandemig COVID-19 wedi cyflwyno cyfleoedd newydd i ni ymgysylltu â chynulleidfa lawer ehangach nag o'r blaen.

Hefyd, mynegwyd safbwyntiau cryf am rôl plant a lleoliadau addysg ffurfiol wrth fynd i'r afael â'r problemau hyn. Canfyddiad penodol oedd rôl lleoliadau ysgolion uwchradd wrth gyfrannu at lefelau sbwriel lleol, ac rydym yn bwriadu archwilio sut i fynd i'r afael â hyn fel rhan o ddatblygiad y Cynllun. Hefyd, rydym yn cydnabod bod angen ymgysylltu â mathau eraill o ddarparwyr a lleoliadau addysgol (er enghraifft, sefydliadau gweithgareddau awyr agored). Unwaith eto, bydd y gwaith hwn yn cael ei adolygu ar ôl cwblhau'r Cynllun. Byddwn yn gweithio gyda'r Rhaglen Eco-ysgolion ac eraill gan gynnwys Senedd Ieuenctid Cymru i drafod hyn ymhellach.

O safbwynt cwestiynau am rôl arbenigedd newid ymddygiadol wrth ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, mae cynrychiolydd o Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd yn aelod o'n Grŵp Cynghori ar Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon. Mae ein cyllid ar gyfer y rhaglen *Caru Cymru*, o dan arweiniad Cadwch Gymru'n Daclus, hefyd yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n cael eu datblygu trwy ddefnyddio gwyddoniaeth ymddygiadol a'u defnyddio i gasglu tystiolaeth ar faterion amrywiol gan gynnwys baw cŵn a sbwriel yn cael ei daflu o gerbydau. Bydd eglurhad pellach o'r gwaith hwn, a'n bwriadau ar ei gyfer, yn cael eu cynnwys yn y Cynllun terfynol.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema gorfodi effeithiol? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

| C9 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **201** | **8** | **58** | **88** |
| **Canran** | 57% | 2% | 16% | 25% |

Roedd materion yn ymwneud â gorfodi, a sut i roi camau gorfodi ar waith yn benodol, yn thema gyson yn yr ymatebion trwy gydol yr ymgynghoriad. Ar y sail hon, mae nifer o safbwyntiau a gyflwynwyd o dan Gwestiynau 9 a 10 eisoes wedi'u mynegi a'u cofnodi mewn rhan arall o'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r camau gweithredu o dan y thema benodol hon, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'w cynnwys, a dim ond nifer fach a oedd wedi'u gwrthwynebu (yn aml oherwydd y gred nad yw'r camau gweithredu yn mynd yn ddigon pell). Unwaith eto, fel sy'n wir am ymatebion eraill i gwestiynau eraill, er eu bod yn cytuno â'r camau gweithredu, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i fynegi safbwyntiau a gwneud sylwadau ar y mater.

<u>Yr angen am adnoddau a chyllid ychwanegol i roi camau gweithredu ar waith</u>

Er bod nifer fawr o ymatebwyr yn cytuno â'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon, yn aml roedd rhywfaint o'r gefnogaeth hon yn amodol ar sicrhau cyllid ac adnoddau digonol i helpu i'w rhoi ar waith. Er enghraifft, er bod cam gweithredu EE7 yn cyfeirio at yr angen i Awdurdodau Lleol wneud mwy wrth gymryd camau gorfodi ar dir comin neu breifat, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen na fyddai hyn yn bosibl oni bai bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu. Yn ogystal, nododd Cyngor Sir Ceredigion fod yr ymgynghoriad yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol wrth ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon, ond roedd yn teimlo nad oedd digon o fanylion am sut i fynd i'r afael â materion o'r fath.

<u>Camau i wella cysondeb dulliau gweithredu</u>

Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai'r camau gweithredu a amlinellir yn effeithiol pe bai Awdurdodau Lleol a chyrff gorfodi eraill yn rhoi polisïau gwahanol ar waith yn lleol. Ar y sail hon, cafwyd cefnogaeth i gamau gweithredu a fyddai'n helpu i wella cysondeb ledled Cymru, ac roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu adolygiad o weithgarwch gorfodi. Fodd bynnag, nododd LARAC y dylai dull gweithredu o'r fath gynnwys digon o hyblygrwydd i ganiatáu i Awdurdodau Lleol addasu i amgylchiadau lleol os oes angen.

Darparwyd ystod o gamau gweithredu posibl i hyrwyddo cysondeb, gan gynnwys safoni hyfforddiant ar gyfer swyddogion gorfodi, gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol naill ai i ymchwilio i droseddau (mewn perthynas â thipio anghyfreithlon yn benodol), neu gymryd camau gorfodi a gwella prosesau rhannu data. Awgrymodd

ymatebydd arall y dylid sefydlu corff canolog, cenedlaethol i oruchwylio a chydlynu ymateb cenedlaethol i brosesau gorfodi.

Roedd y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion a nifer fach o ymatebwyr eraill yn cwestiynu anghysondebau ymddangosiadol yn yr ieithwedd a ddefnyddir o dan y thema hon. Yn benodol, nodwyd bod cam gweithredu EE(2) yn cyfeirio at annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu ymagwedd gyson at gamau gorfodi, ond teimlwyd bod hyn yn gwrth-ddweud datganiadau cynharach yn y ddogfen am gefnogi Awdurdodau Lleol "beth bynnag fo'u dull gweithredu".

<u>Camau i wella cyfathrebu ac amlygrwydd camau gorfodi</u>

Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi cynigion yn y Cynllun i wella ymwybyddiaeth o gamau gorfodi a'u canlyniadau, yn enwedig wrth sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cyfleu'n effeithiol i gymunedau lleol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai addysg yn ymwneud ag effeithiau a chostau'r troseddau hyn yn helpu i ddarparu'r sail resymegol ar gyfer yr angen i gyflwyno dirwyon a chosbau ariannol. Awgrymodd Cyngor Dinas Casnewydd y dylid datblygu platfform cyfathrebu pwrpasol i helpu i hyrwyddo unrhyw ganlyniadau gorfodi llwyddiannus yn well. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth, dangos bod Awdurdodau Lleol yn gweithio'n galed i wella materion a rhannu arferion gorau.

<u>Camau gweithredu i ymdrin â throseddau ar dir preifat neu dir comin</u>

Roedd ymatebion gan Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru a sefydliadau tirfeddianwyr eraill yn croesawu cynnwys camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cyfeirio at y costau parhaus a ysgwyddir gan dirfeddianwyr preifat wrth glirio tipio anghyfreithlon, ac annhegwch ymddangosiadol y dull hwn. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod angen newidiadau i bwy ddylai fod yn gyfrifol am glirio tir preifat, neu o leiaf newidiadau i leddfu'r baich ariannol presennol. Awgrymodd eraill fod angen mwy o gydweithio i fynd i'r afael â'r mater, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, gan nodi llwyddiannau mewn ardaloedd eraill wrth ddelio â materion troseddau gwledig eraill. Awgrymodd nifer o Awdurdodau Lleol fod angen canllawiau ychwanegol ar sut i ymdrin â digwyddiadau tipio anghyfreithlon ar dir preifat er mwyn helpu i wella cysondeb y dulliau gweithredu ledled Cymru.

<u>Camau gweithredu sydd eu hangen i gryfhau camau gorfodi</u>

Fel gyda'r cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn, yn aml roedd ymatebion gan y cyhoedd yn cynnwys cais am gamau gorfodi cryfach ar gyfer achosion o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Roedd y dull gweithredu hwn yn cael ei gefnogi yn aml gan y rhai sydd o blaid y camau gweithredu yn y Cynllun yn ogystal â'r rhai sy'n eu gwrthwynebu (ar y sail bod y camau gweithredu presennol yn rhy "feddal"). Roedd y ceisiadau cyffredin i gryfhau camau gorfodi yn cynnwys cynyddu symiau dirwyon, sicrhau dedfrydau carchar i'r rhai a geir yn euog, a defnyddio cyfarpar gwyliadwriaeth i raddau mwy er mwyn dal troseddwyr.

Fodd bynnag, roedd nifer llai o ymatebwyr yn cwestiynu effeithiolrwydd camau gorfodi mewn achosion o daflu sbwriel, gan awgrymu y dylai'r Cynllun ganolbwyntio ar atal y drosedd yn y lle cyntaf. Nododd un ymatebydd fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng addysg a chamau gorfodi (gan ddefnyddio "abwyd a ffon"). Roedd ymatebwyr eraill naill ai'n gwrthwynebu defnyddio camau gorfodi ar gyfer taflu sbwriel (ar y sail eu bod yn gallu achosi rhwyg – "ni yn erbyn nhw") neu'n gwrthwynebu defnyddio cwmnïau gorfodi preifat.

Camau gorfodi penodol

O dan y cwestiwn hwn, nodwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i gamau penodol eraill yn y Cynllun, gan gynnwys caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru roi cosbau penodedig am dipio anghyfreithlon ar ei dir, cyflwyno mwy o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar faw cŵn a gwella system trwyddedau cludwyr gwastraff. Awgrymodd eraill y dylid blaenoriaethu dulliau amgen o ymdrin â throseddau taflu sbwriel gan bobl ifanc.

Nododd Cyngor Dinas Casnewydd ei gefnogaeth i gam gweithredu EE(6) (edrych ar ddefnyddio atebion arloesol a thechnoleg newydd i fynd i'r afael â thaflu sbwriel/tipio anghyfreithlon), ond awgrymodd mai prin iawn yw'r arbenigedd mewn Awdurdodau Lleol i fwrw ymlaen â gwaith o'r fath. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith i brofi a threialu technolegau gwahanol, gan ddarparu enghreifftiau ac arferion gorau i Awdurdodau Lleol.

**Dyfyniadau dangosol**

*Nac ydw. Er mwyn casglu digon o dystiolaeth i erlyn troseddwyr, nid yn unig y mae'n rhaid i bobl sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon fod yn ddigon gwirion i adael tystiolaeth o'u henw a'u cyfeiriad, a fydd yn cael ei chwythu gan y gwynt gan amlaf, ond hefyd mae'r costau a'r amser ar gyfer y nifer o swyddogion sydd eu hangen i sicrhau erlyniad yn hurt. Gellid gwario'r arian hwnnw'n well ar gynllun cynaliadwy i dderbyn gwastraff o bob math, 24 awr y dydd mewn canolfannau ledled Cymru. Mae tirfeddianwyr yn methu gosod camerâu cylch cyfyng er mwyn dal pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon o dan y ddeddfwriaeth bresennol heb rybuddio pobl eu bod yn cael eu ffilmio. Chwerthinllyd! Mae'r dirwyon yn chwerthinllyd hefyd hyd yn oed ar ôl sicrhau euogfarn.* **Ymateb dienw**

*Camau gorfodi ddylai fod y cam olaf ar gyfer dinasyddion bob amser, dylai busnesau gael eu dirwyo'n drwm, ond byddai cynnig gwasanaethau rhatach yn gwneud gwahaniaeth mawr i dipio anghyfreithlon, a byddai darparu digon o finiau /gwaredu baw cŵn yn helpu i leihau lefelau sbwriel. Yn fy ardal i gallwch deithio bron i filltir rhwng biniau.* **Ymateb dienw**

*Ydw, yn gyffredinol. Fodd bynnag, rwy'n teimlo ei bod yn bwysig sicrhau'r cydbwysedd mwyaf effeithiol rhwng abwyd a ffon; hefyd, mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, dylai camau gorfodi ganolbwyntio ar y rhai sy'n elwa ar waredu anghyfreithlon; hefyd, mae angen darparu cymorth i bobl sy'n defnyddio gwaredwyr gwastraff didrwydded yn ddiarwybod iddynt er mwyn gwaredu eu nwyddau diangen*

*ac sydd (os ydynt yn cael eu hadnabod) yn cael eu hystyried yn droseddwyr, hyd yn oed os nad oes unrhyw fwriad troseddol.* **Ymateb dienw**

**Cwestiwn 10**: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema gorfodi effeithiol i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

| C10 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **186** | **33** | **6** | **130** |
| **Canran** | 52% | 9% | 2% | 37% |

Yn ogystal â'r safbwyntiau a'r sylwadau a gyflwynwyd o dan Gwestiwn 9, awgrymwyd nifer o gamau gweithredu eraill. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno deddfwriaeth neu ganllawiau i'w gwneud yn ofynnol i fusnesau dderbyn mwy o gyfrifoldeb am lendid yr ardaloedd y tu allan i'w hadeiladau. Nododd un ymatebydd fod cynllun o'r fath eisoes ar waith yn yr Almaen. Fel arall, awgrymwyd y gellid defnyddio pwerau ychwanegol i gymryd camau yn erbyn busnesau sy'n cyfrannu'n barhaus at y broblem sbwriel yn eu hardal.

- Argymhellodd Cadwch Gymru'n Daclus y dylid comisiynu astudiaeth i asesu effeithiolrwydd mesurau gorfodi a'r modelau gorfodi gwahanol cyn i Lywodraeth Cymru a/neu Awdurdodau Lleol ddyrannu adnoddau ychwanegol.

- Dylent gynnwys camau gweithredu a fyddai'n helpu i gryfhau arbenigedd cyfreithiol mewn Awdurdodau Lleol, gan ei bod yn bosibl nad oes gan rai adrannau cyfreithiol ddigon o brofiad o ymdrin â throseddau amgylcheddol. Mynegwyd teimlad tebyg mewn perthynas â llysoedd ynadon, gyda sawl Awdurdod Lleol yn mynegi rhwystredigaeth nad yw dedfrydau ar gyfer troseddau amgylcheddol yn ddigon llym.

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr gamau gweithredu i helpu i gynyddu'r cyllid a'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer camau gorfodi. Roedd Cyngor Cymuned Henllys yn cwestiynu a oes cyfle i sicrhau ffynonellau cyllid eraill, er enghraifft, arian sy'n cael ei adennill trwy Ddeddf Enillion Troseddau 2002[6].

- Gofynnodd un ymatebydd am gamau penodol i fynd i'r afael â gosod posteri'n anghyfreithlon.

- Camau gweithredu i alluogi Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn fwy rhagweithiol wrth roi camau gorfodi ar waith. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys mwy o wiriadau dyletswydd gofal ar fusnesau, gweithrediadau prynu i brofi a gwiriadau rheolaidd ar gyfer cludwyr gwastraff.

- Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod angen canolbwyntio mwy ar gymell neu wobrwyo'r cyhoedd am roi gwybod am droseddau tipio anghyfreithlon. Teimlai eraill y dylai fod yn haws i bobl roi gwybod am

[6] Deddf Enillion Troseddau 2002

droseddau (yn enwedig tipio anghyfreithlon) neu herio'r rhai sy'n cael eu dal yn troseddu (mewn perthynas â sbwriel).

- Roedd nifer o ymatebwyr yn gofyn a oes angen mwy o ymgysylltiad â'r heddlu (mewn achosion o dipio anghyfreithlon yn benodol), yn enwedig gweithgareddau plismona cymunedol ehangach. Mynegwyd cefnogaeth hefyd i ddefnyddio gwasanaethau prawf i gynorthwyo digwyddiadau glanhau cymunedol.

- Camau gweithredu i wella'r defnydd o dechnoleg er mwyn olrhain symudiad gwastraff.

- Gwelliannau i ofynion gweithredu busnesau gwastraff er mwyn helpu i waredu gweithrediadau anghyfreithlon, er enghraifft, trwy greu system sgorio sy'n debyg i'r sgoriau Hylendid Bwyd.

- Yr Asiantaeth Cefnffyrdd, nid Awdurdodau Lleol unigol, sy'n gyfrifol am waredu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar bob cefnffordd ffordd ddeuol.

- Creu opsiynau gorfodi eraill yn ogystal â Hysbysiadau Cosb Benodedig i sicrhau bod gan swyddogion gorfodi opsiynau gwahanol i fynd i'r afael â throseddau.

**Dyfyniadau dangosol**

*Dylai dirwyon fod yn uwch a dylent fod yn fwy cysylltiedig â cherbydau, atal y bobl hyn rhag gyrru, dympio o gar, taflu sbwriel o gar. Maen nhw'n gyrru yn anniogel a dylent gael pwyntiau ar eu trwydded a'u cosbi gan yr heddlu.* **Ymateb dienw**

*Ydw. Hefyd, mae angen camau gorfodi cadarnhaol, nid dim ond camau atgyfnerthu negyddol trwy ddirwyon. Annog pobl i ailgylchu drwy, er enghraifft, cynnig cymhellion ariannol i ailgylchu rhai pethau.* **Ymateb dienw**

*Mae angen mwy o swyddogion gorfodi, efallai yn debyg i Gwnstabliaid Arbennig yr Heddlu*. **Christopher Jones**

*Yn gyffredinol, mae angen mwy o wybodaeth ar aelwydydd am eu cyfrifoldeb i sicrhau bod gwastraff masnach sy'n cael ei greu gan eu contractwyr yn cael ei waredu'n gywir yn hytrach na'i dipio'n anghyfreithlon. Byddai ymgyrchoedd ar yr holl gyfryngau i esbonio hyn yn helpu yn y cyswllt hwn. Does gan lawer o bobl ddim car i fynd â'u heitemau swmpus i safleoedd amwynderau cartref. O bryd i'w gilydd, byddai gosod sgip cyngor am ychydig ddyddiau ar strydoedd lle mae problem sbwriel yn ei gwneud yn haws i drigolion ddelio â'r broblem hon. A byddai gosod y sbwriel mewn sgip yn gost-effeithiol o'i gymharu â staff y cyngor yn gorfod ei lanhau o'r strydoedd a'i symud.* **Lleihau Plastig yr Wyddgrug**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiynau 9 a 10)**

Roedd llawer o ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gamau gorfodi, ac roedd nifer o aelodau’r cyhoedd yn galw yn benodol am gyflwyno cosbau “llymach” neu ddarparu mwy o adnoddau i gefnogi camau gorfodi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rhwystredigaeth wrth wraidd y teimladau hyn, ac yn cydymdeimlo â’r safbwyntiau hyn. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn cefnogi camau gorfodi, cyn belled â’u bod yn cael eu cyflwyno yn synhwyrol ac yn deg, a’u bod yn cael eu hystyried yn ymateb i broblemau dilys. Hefyd, rydym yn cydnabod mai rhan o’r ateb yn unig yw’r dull gweithredu hwn, a bod angen ei ddefnyddio gydag ymyriadau eraill megis addysg, er mwyn bod yn gwbl effeithiol. Mae’r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i adolygu camau gorfodi presennol ledled Cymru, a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl cwblhau’r Cynllun.

Mae nifer o bwerau a chamau gweithredu y gofynnir amdanynt yn yr ymgynghoriad eisoes ar gael i awdurdodau gorfodi. Er enghraifft, gellir atafaelu cerbydau unigolion sydd wedi’u cael yn euog o dipio anghyfreithlon, ac mae euogfarn yn Llys y Goron yn gallu arwain at ddirwyon di-derfyn neu ddedfryd o bum mlynedd yn y carchar. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau gorfodi yn teimlo’n rhwystredig pan nad yw’n ymddangos bod dedfryd y llys yn adlewyrchu graddfa a chost ymdrin â rhai digwyddiadau tipio anghyfreithlon. Gan nad yw’r system cyfiawnder troseddol wedi’i ddatganoli, rydym yn parhau i weithio gyda’n cydweithwyr o Lywodraeth y DU i nodi meysydd i’w gwella, gan ganolbwyntio’n benodol ar ganllawiau dedfrydu presennol.

O dan y Cynllun, rydym yn bwriadu archwilio sut i wella’r broses o hysbysu’r cyhoedd am gamau gorfodi, a sut mae awdurdodau gorfodi eraill ledled y DU yn codi ymwybyddiaeth o’u gweithgarwch. Hefyd, bydd gwaith yn cael ei wneud i nodi sut i gefnogi camau gorfodi ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon sy’n cael eu cyflawni ar dir preifat neu dir comin.

**Cwestiwn 11**: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu a awgrymir dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

| C11 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **182** | **11** | **38** | **124** |
| **Canran** | 51% | 3% | 11% | 35% |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn naill ai'n cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig o dan y thema hon neu heb roi ateb. O'r nifer fach o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r camau gweithredu, cyfeiriwyd yn aml at ddiffyg uchelgais, diffyg adnoddau a manylion amwys fel rhesymau dros anghytuno â'r cynigion. Mynegodd rhai ymatebwyr amheuon ynglŷn â chamau gweithredu penodol, er enghraifft, nododd Cyngor Sir y Fflint a LARAC bryderon am y lefel uchel o halogiad gwastraff sy'n digwydd wrth ddefnyddio biniau deunydd ailgylchu ar wahân ac, felly, roeddent yn cwestiynu cynnwys cam gweithredu EOD(8) yn y Cynllun. Roedd eraill yn anghytuno â'r pwyslais ar elusennau a grwpiau cymunedol, gan nodi bod angen gwneud mwy i annog y sector preifat i gefnogi cymunedau. Mynegodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru siom am y diffyg gweithredu cadarn i fynd i'r afael â'r baich ar dirfeddianwyr wrth ymdrin â gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

O'r rhai a gytunodd, roedd nifer fach o ymatebwyr wedi darparu sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Adnoddau digonol a gweithio gyda'r sector preifat – Nododd nifer o ymatebwyr gamau gweithredu a briodolir i elusennau a grwpiau cymunedol, fodd bynnag, teimlwyd nad oedd llawer o fanylion am sut y gellid cefnogi'r adnoddau hyn yn ariannol er mwyn darparu cymorth. Mynegwyd teimladau tebyg mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned h.y. roedd angen cyllid digonol i sicrhau cyflawni gweithredol effeithlon. Ar y sail hon, awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â chwmnïau preifat er mwyn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau gweithredol neu ddarparu cymorth uniongyrchol i gymunedau. Croesawyd dull gweithredu o'r fath gan y Gymdeithas Siopau Cyfleustra a nodwyd bod siopau llai o ran maint yn cyflawni rôl allweddol yn aml mewn cymunedau ac yn darparu cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Tai Amlfeddiannaeth – Nododd sawl ymatebydd yr anawsterau presennol wrth ddatblygu ymyriadau cadarnhaol mewn ardaloedd lle'r oedd mannau casglu gwastraff cymunedol yn gyffredin, ac roeddent yn croesawu camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen casglu rhagor o dystiolaeth, ac roedd LARAC yn argymell bod angen datblygu canllawiau arferion gorau i helpu i gynorthwyo awdurdodau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff – Awgrymodd Cyngor Gwynedd newidiadau posibl i’r canllawiau presennol, gan gynnwys y potensial i gynnwys systemau mapio digidol a allai gysylltu â mynychder gweithredol a monitro perfformiad mewn amser real. Hefyd, nododd Cadwch y Fenni’n Daclus fod angen safoni defnydd o’r Cod Ymarfer ledled Cymru.

- Cyfrifoldeb am glirio sbwriel wrth ymyl y ffordd – Nododd sawl ymatebydd fod angen eglurhad pellach ynglŷn â phwy sy’n gyfrifol am glirio cefnffyrdd er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu ar y mater hwn yn llwyddo, a gofynnodd un Awdurdod Lleol am adolygiad ar y mater. Heriodd Awdurdod Lleol arall ddehongliad y term cyfrifoldeb y cyfeirir ato yn y ddogfen, gan awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl yn y maes hwn. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella prosesau cyfathrebu rhwng Asiantaethau Cefnffyrdd gwahanol ac Awdurdodau Lleol er mwyn gallu glanhau ffyrdd pan fyddant wedi’u cau am resymau eraill (er enghraifft, cynnal a chadw ffyrdd neu dorri coed).

- Gwella mynediad at gyfleusterau ailgylchu – Mynegwyd safbwyntiau cymysg mewn perthynas â chamau gweithredu EOD(10). Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu’r potensial ar gyfer mentrau newydd a fyddai’n helpu pobl i waredu gwastraff yn haws (yn enwedig eitemau swmpus ar gyfer pobl heb geir), ond mynegodd eraill bryderon am gost-effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod ganddo ddigon o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref eisoes, sydd ar agor gydol y flwyddyn i breswylwyr waredu ac ailgylchu eu gwastraff. Nododd fod yr awdurdod wedi cefnu ar ddefnyddio canolfannau ailgylchu bach gan eu bod yn tueddu i gael eu camddefnyddio a’u bod yn arwain at ragor o ddirywiad amgylcheddol.

**Dyfyniadau dangosol**

*Nac ydw. Mae gormod o bwyslais ar atebion sector cyhoeddus aneffeithlon. Mae angen i’r sector gwirfoddol a’r sector preifat wneud mwy.* **Ymateb dienw**

*Ydw, ond bydd llawer o’r camau gweithredu a nodir yn gofyn am ragor o fuddsoddiad gan awdurdodau lleol, ac nid yw hynny’n bosibl bob amser oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Felly, rydym yn argymell newid sylweddol yn y cyllid sy’n cael ei roi i Awdurdodau Lleol er mwyn gwella’r ymateb gorfodi yng Nghymru yn sylweddol. O ganlyniad i bandemig COVID, rydym wedi sylwi bod lefelau sbwriel wedi cynyddu. Gallai hyn ddeillio o’r ffaith bod pobl yn cynhyrchu mwy o wastraff. Ond hefyd, gallai ddeillio o amharodrwydd pobl i gyffwrdd â chaeadau biniau sbwriel/biniau baw cŵn. Byddai croeso mawr i waith sy’n datblygu atebion arloesol i atal sbwriel rhag dianc o finiau sbwriel. Serch hynny, fel y nodwyd uchod, byddai angen buddsoddiad gan awdurdodau lleol i wneud hyn, sydd ddim ar gael bob amser.*

*Hoffem ychwanegu fod gan CBSC fwy na digon o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref sydd ar agor gydol y flwyddyn i’n trigolion waredu ac ailgylchu eu gwastraff. Mae’r awdurdod wedi cefnu ar ddefnyddio canolfannau ailgylchu bach, ac ar sail ein profiad o gynlluniau cymunedol, rydym yn amharod i gyflwyno gwasanaeth o’r fath*

*eto gan fod y ddau gynnig yn tueddu i gael eu camddefnyddio, gan arwain at ragor o ddirywiad amgylcheddol. Mae'n anodd iawn sicrhau bod gan y mathau hyn o safleoedd y goruchwylydd cywir. Heb oruchwyliaeth gyson, maen nhw'n tueddu i gael eu camddefnyddio fel y nodir uchod.* **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Cwestiwn 12**: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys camau gweithredu eraill dan y thema cyflawni gweithredol effeithlon i gyflawni nodau'r Cynllun? Os ydych, darparwch wybodaeth a thystiolaeth berthnasol.

| C12 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb nodi ond wedi ymateb/Ddim yn gwybod** | **Dim ateb/Heb ateb y cwestiwn** |
| **Niferoedd** | **126** | **54** | **4** | **171** |
| **Canran** | 35% | 15% | 2% | 48% |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai heb ymateb i'r cwestiwn hwn neu heb nodi unrhyw gamau ychwanegol. O'r rhai a nododd gamau ychwanegol, yn gyffredinol roeddent yn debyg i sylwadau a wnaed o dan Gwestiwn 11 a thrwy'r ddogfen. Hefyd, manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i groesawu'r gydnabyddiaeth o waith caled gwirfoddolwyr a'r gymuned sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen. Roedd y prif feysydd ar gyfer camau gweithredu pellach yn cynnwys y canlynol:

- Newidiadau gweithredol i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref /polisïau gwastraff Awdurdodau Lleol – Yn debyg i ymatebion mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer sut i wella gweithrediad canolfannau ailgylchu presennol a pholisïau gwastraff Awdurdodau Lleol. Roedd hyn yn cynnwys gwella mynediad at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, newid sut mae nwyddau swmpus yn cael eu casglu a gwella gwasanaethau glanhau strydoedd (er enghraifft, amlder gwagio biniau sbwriel). Awgrymodd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru y dylai Awdurdodau Lleol ystyried addasu rhai cyfleusterau ailgylchu er mwyn caniatáu i wastraff masnachol gan fusnesau bach a masnachwyr lleol gael ei dderbyn am gost gymesur.

- Gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol – Er bod nifer o ymatebwyr yn croesawu cyfraniad cynyddol cymunedau at wella ansawdd eu hamgylchedd lleol, roedd rhai yn teimlo bod perygl y gallai Awdurdodau Lleol ddibynnu gormod ar y dull gweithredu hwn a pheidio â chyflawni eu dyletswyddau statudol. Ar y sail hon, teimlwyd y dylai unrhyw gamau gweithredu yn y Cynllun yn ymwneud â'r mater hwn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn wirioneddol gydweithredol ac yn atal unrhyw faich ar y gwirfoddolwyr. Awgrymodd Un Llais Cymru y gellid datblygu safon genedlaethol i Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth gefnogi grwpiau gwirfoddol.

- Biniau a seilwaith - Roedd Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu neu addasu canllawiau

presennol ar seilwaith biniau[7] sydd wedi'u llunio gan WRAP ar gyfer Llywodraeth y DU i gefnogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Nododd Cadwch Gymru'n Daclus bwysigrwydd cyfleu'r neges "bin iawn, lle iawn" i Awdurdodau Lleol a chynghorau Tref a Chymuned, a chyflwynodd gyfres o argymhellion i helpu i wella sut mae biniau'n cael eu rheoli. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau mewn perthynas â gwella'r broses o gasglu a gwahanu gwastraff i'w ailgylchu "oddi cartref".

- Cyfuno adnoddau neu ganoli gwybodaeth - Galwodd Cyngor Sir Ceredigion am gymorth i helpu Awdurdodau Lleol i gydgysylltu adnoddau wrth helpu grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr, er enghraifft, yswiriant ar gyfer grwpiau, dogfennau safonol ar gyfer asesiadau risg a chanllawiau. Mae Cyfeillion y Ddaear yn argymell y dylid creu canolfan wybodaeth neu siop-un-stop newydd ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â gwastraff yng Nghymru megis ailddefnyddio, ailgylchu, gwastraff bwyd, compostio a chasglu gwastraff swmpus yn hytrach na bod sefydliadau a gwefannau gwahanol yn cynnal y wybodaeth hon.

- Mwy o rôl i fusnesau – Nododd nifer fach o ymatebwyr fod y camau gweithredu yn yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus eraill a gwirfoddolwyr. Teimlwyd bod angen mwy o rôl ar gyfer busnesau wrth gefnogi materion gweithredol. Awgrymodd Cyngor Sir Fynwy y dylid cynnwys cam gweithredu i archwilio sut y gallai busnesau gyfrannu at gyflawni gweithredol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses gynllunio a sicrhau na fyddai ei fusnesau yn cyfrannu at unrhyw broblemau sbwriel.

- Camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar sbwriel afonydd – Gofynnodd dau ymatebydd am ragor o gamau gweithredu gweithredol mewn perthynas â sbwriel sy'n mynd i afonydd, yn enwedig o ystyried bodolaeth *Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol* Llywodraeth Cymru.

- Defnyddio mwy o dechnoleg - Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gellid gwella effeithlonrwydd neu gost-effeithiolrwydd prosesau cyflawni gweithredol trwy ddefnyddio mwy o dechnoleg. Roedd syniadau'n cynnwys dylunio biniau sbwriel sy'n gallu rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol pan fyddant yn llawn, a dylunio apiau sy'n hysbysu'r cyhoedd am leoliad y bin sbwriel agosaf. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod angen gwella neu fuddsoddi yn y cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gan dimau glanhau strydoedd (yn hytrach na glanhau â llaw). Fodd bynnag, nododd Lleihau Plastig yr Wyddgrug na ddylid diystyru atebion "technoleg isel", syml wrth ymdrin â phroblemau.

## Dyfyniadau dangosol

[7] Right bin in the Right Place Final.pdf (wrap.org.uk)

*Defnyddio technoleg ar gyfer gwasanaethau sbwriel yn ogystal ag adroddiadau gwybodaeth ar gyfer tipio anghyfreithlon gan gynnwys mynediad at gronfa ddata yswiriant. Ap Llyw Caerdydd ar gyfer adrodd ond defnyddio'r data hwn i ddyrannu adnoddau ac ati /cylchoedd gwagio biniau sbwriel yn seiliedig ar fonitro.*
*Gwella mynediad at ganolfannau ailgylchu.* **Cyngor Dinas Caerdydd**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiynau 11 a 12)**

Mae defnyddio technoleg newydd ac arloesol yn ffocws allweddol i Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r Cynllun hwn. Rydym yn cydnabod bod modd gwneud mwy yn y maes hwn ac yn bwriadu cryfhau ein cysylltiadau â Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ac â sefydliadau eraill, er mwyn nodi cyfleoedd posibl.

Mewn perthynas ag arferion gweithredol, fel y nodwyd mewn adrannau gwahanol o'r ddogfen, rydym yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner eraill er mwyn helpu i rannu arferion gorau i reoli ein gwastraff. Mae hyn yn cynnwys sut mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu eu gwasanaethau glanhau strydoedd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r *Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff*.

Hefyd, gallwn gadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau adolygu a diweddaru'r protocol presennol yn ymwneud â thipio anghyfreithlon. Trwy ddiweddaru'r fframwaith presennol mewn cydweithrediad â phartneriaid, y gobaith yw y bydd modd darparu mwy o eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ymdrin â rhai troseddau gwastraff.

Hefyd, rydym yn cydnabod y galwadau am gamau gweithredu cryfach i fynd i'r afael â sbwriel mewn afonydd, a byddwn yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i adolygu'r camau presennol yn y Cynllun hwn.

**Cwestiwn 13**: Mae ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn cynnwys sawl cam gweithredu. Yn eich barn chi, pa rai ddylai gael blaenoriaeth? Rhowch resymau.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio. Nododd rhai ymatebwyr gam gweithredu penodol a oedd, yn eu barn nhw, â blaenoriaeth uchel, er enghraifft, *EOD(6) Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi rhaglenni addysg /hyfforddiant presennol a nodi bylchau/cyfleoedd ar gyfer rhai newydd*, tra bod eraill wedi nodi nifer o gamau gweithredu. Lle y nodwyd sawl cam gweithredu, cyflwynodd rhai ymatebwyr restr yn nhrefn blaenoriaeth (gan roi lefel "bwysoli" i bob un), tra na wnaeth eraill nodi dewis penodol.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr flaenoriaethau yn ymwneud â thema benodol, er enghraifft, y ffaith bod addysg yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Hefyd, cyfeiriodd nifer fawr o ymatebwyr at feysydd sydd â blaenoriaeth yn eu barn nhw, yn hytrach na chyfeirio'n benodol at y Cynllun. Fodd bynnag, yn aml roedd y rhain yn ymwneud â chamau gweithredu neu themâu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun ac, felly, cyfrifwyd yr awgrymiadau hyn yn erbyn y camau gweithredu neu'r themâu hyn. Er enghraifft, os oedd ymatebydd wedi datgan bod gweithredu ym maes plastig yn flaenoriaeth, dyrannwyd un "bleidlais" yn erbyn y Thema Lleihau Gwastraff gan fod hyn yn cynnwys sawl cam gweithredu yn ymwneud â phlastig untro.

Er mwyn cynorthwyo'r broses ddadansoddi, rydym wedi cyfrif nifer yr ymatebion o dan bob thema neu gam gweithredu penodol a'u rhestru yn nhrefn eu dewis ar sail cyfanswm y "pleidleisiau". Darperir trosolwg byr hefyd os oes nifer fawr o "bleidleisiau" penodol wedi'u dynodi i gam gweithredu.

Addysg ac Ymddygiad – Y brif flaenoriaeth

Teimlai nifer fawr o ymatebwyr y dylid ystyried addysg a newid ymddygiad yn faes blaenoriaeth o dan y Cynllun. Derbyniwyd cyfanswm o 101 o "bleidleisiau" ar gyfer y camau gweithredu yn y thema hon. Yn aml, nid oedd ymatebwyr wedi nodi cam penodol, ond yn hytrach roeddent yn credu y dylai "addysg", "addysg a newid ymddygiad" neu "ymchwil mewn newid ymddygiad" fod yn ffocws i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn seiliedig ar y gred na fyddai modd sicrhau newid hirdymor oni bai bod pobl yn deall effaith taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon a'u bod yn newid eu hymddygiad yn unol â hynny. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr fod hwn yn nod hirdymor a bod angen i unrhyw gamau gweithredu yn y maes hwn gael eu hategu gan gamau gorfodi digonol gan y credir bod hyn yn angenrheidiol i ymdrin â'r materion "ar hyn o bryd". Nodwyd yn aml fod angen defnyddio dull gweithredu "abwyd a ffon" i ymdrin â'r broblem.

Roedd ymatebwyr a oedd wedi nodi camau penodol o dan y thema hon wedi'u blaenoriaethu fel a ganlyn:

- EBC(2) Byddwn yn datblygu, gyda phartneriaid, ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol ar daflu sbwriel. (**8 pleidlais**)

- EBC(9) Parhau i gefnogi camau gweithredu a arweinir gan y gymuned. Er enghraifft, rhwydwaith Surfers Against Sewage Plastic Free Communities, Cadwch Gymru'n Daclus a gweithredoedd gwirfoddol eraill. (**8 pleidlais**)

- EBC(5) Gweithio gyda busnesau i ddatblygu mentrau wedi'u targedu sydd â'r nod o atal, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad. (**5 pleidlais**)

- EBC(6) Casglu tystiolaeth a threialu mesurau penodol i newid ymddygiad er mwyn helpu i fynd i'r afael â sbwriel wrth ymyl y ffordd (gan gynnwys sbwriel o safleoedd bwyd brys). (**5 pleidlais**)

- EBC(4) Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl ifanc i nodi platfformau cyfathrebu addas i wella ymgysylltiad a helpu i feithrin ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol yn gynnar. (**4 pleidlais**)

- EBC(10) Gweithio gyda'r diwydiant adeiladu a landlordiaid i edrych ar gyfleoedd i leihau achosion o dipio anghyfreithlon sy'n gysylltiedig â'r sectorau hyn. (**4 pleidlais**)

Cafodd y camau gweithredu eraill o dan y thema hon ddwy "bleidlais" neu lai.

Nododd un ymatebydd fod angen datblygu nifer o'r camau gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer negeseuon, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei safoni a'i gysylltu â meysydd eraill. Byddai hyn wedyn yn golygu bod pawb yn gallu deall effaith eu gweithredoedd ar gymdeithas a'r amgylchedd.

Gorfodi Effeithiol (EE) – Yr ail brif flaenoriaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a nododd fod y maes hwn yn faes blaenoriaeth wedi cyfeirio at yr angen am gamau gorfodi neu gamau "llymach" wrth ddelio â throseddwyr. Pleidleisiodd cyfanswm o 84 o ymatebwyr dros gamau gorfodi. Cyfeiriodd nifer fach o ymatebwyr at yr angen am gamau gweithredu nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun, er enghraifft yr angen am fwy o wyliadwriaeth neu ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng. Lle nodwyd camau gweithredu penodol, roeddent wedi'u blaenoriaethu fel a ganlyn:

- EE(6) Edrych ar ddefnyddio atebion arloesol i wella camau gorfodi yn erbyn taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar draws Cymru, er enghraifft, defnyddio technoleg newydd. (**7 pleidlais**)

- EE(5) Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth i helpu i leihau taflu sbwriel o gerbydau. (**6 pleidlais**)

- EE(7) Edrych ar gynigion i helpu i gefnogi camau gorfodi i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ledled Cymru gan gynnwys cymryd camau ar dir preifat. (**3 pleidlais**)

- EE(1) Adolygu'r gallu presennol i orfodi ledled Cymru a'r symiau cosb benodedig presennol sydd ar gael ar gyfer troseddau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon gyda'r nod o gynyddu lefelau os oes angen. (**3 pleidlais**)

Cafodd y camau gweithredu eraill o dan y thema hon ddwy "bleidlais" neu lai.

<u>Cyflawni Gweithredol Effeithlon – Y drydedd brif flaenoriaeth</u>

Nododd nifer fwy o ymatebwyr, aelodau o'r cyhoedd yn bennaf, mai camau i wella gwasanaethau casglu gwastraff oedd y prif faes blaenoriaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwella sut mae sbwriel yn cael ei gasglu ar hyn o bryd, er enghraifft, darparu mwy o finiau neu lanhau'r strydoedd yn amlach. Roedd eraill wedi nodi'r angen i wella sut mae'r cyhoedd yn gallu gwaredu gwastraff, er enghraifft, sefydlu mwy o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref neu newid safleoedd presennol i'w gwneud yn haws i bobl gael mynediad atynt. Awgrymwyd newidiadau i gostau casglu gwastraff swmpus, ailgylchu a gwaredu wrth ymyl y ffordd. Dyrannwyd cyfanswm o 79 o "bleidleisiau" i'r thema hon.

Lle nodwyd camau gweithredu penodol, maent wedi'u graddio fel a ganlyn:

- EOD(13) Gweithio gyda Chymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol i nodi arferion gorau ar ddylunio/gwella ardaloedd a rennir ar gyfer storio gwastraff mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth. (**5 pleidlais**)

- EOD(10) Archwilio opsiynau/treialon i wella mynediad i gyfleusterau ailgylchu e.e. Canolfannau Symudol i Ailgylchu Gwastraff Cartref. (**4 pleidlais**)

- EOD(8) Nodi cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ailgylchu oddi cartref ledled Cymru. (**4 pleidlais**)

- EOD(1) Adolygu a diweddaru canllawiau presennol y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (COPLAR) gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd i wella gweithgareddau glanhau. (**3 pleidlais**)

- EOD(4) Gweithio gyda phartneriaid i nodi mesurau arloesol a chost-effeithiol i atal a gwaredu sbwriel ar ochr y ffordd a thipio anghyfreithlon. (**3 pleidlais**)

- EOD(11) Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i nodi a hyrwyddo enghreifftiau o arferion da a chysondeb. (**3 pleidlais**)

- EOD(12) Datblygu atebion newydd ac arloesol i leihau'r sbwriel sy'n dianc o finiau sbwriel. (**3 pleidlais**)

Nid yw camau gweithredu a gafodd ddwy bleidlais neu lai wedi'u cynnwys yn yr uchod.

Lleihau Gwastraff – Y bedwaredd flaenoriaeth uchaf

Yn yr un modd â'r dadansoddiad uchod, cyflwynodd ymatebwyr ymatebion eang yn aml o safbwynt blaenoriaethau, er enghraifft, mesurau lleihau gwastraff cyffredinol, lleihau deunydd pacio neu gamau gweithredu i fynd i'r afael â phlastigau untro. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen am gamau gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel wrth ymyl y ffordd sy'n tarddu o fannau gwerthu bwyd brys. Derbyniwyd cyfanswm o 60 o "bleidleisiau" ar gyfer y camau gweithredu hyn.

Lle nodwyd camau gweithredu penodol, maent wedi'u graddio fel a ganlyn:

- WR(5) Byddwn yn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes i helpu i leihau nifer y cynwysyddion diodydd sy'n cael eu taflu fel sbwriel. (**13 pleidlais**)

- WR(11) Byddwn yn cyflwyno Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a fydd yn helpu i gymell mwy o becynnau ecogyfeillgar a darparu cyllid posibl ar gyfer mesurau gwrth-sbwriel. (**12 pleidlais**)

- WR(4) Byddwn yn gweithio gyda busnesau a gweithgynhyrchwyr o Gymru i ddatblygu dewisiadau arloesol a chynaliadwy eraill yn hytrach na phlastig untro. (**5 pleidlais**)

Nid yw camau gweithredu a gafodd ddwy bleidlais neu lai wedi'u cynnwys yn yr uchod.

Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso – Y flaenoriaeth leiaf

Roedd camau gweithredu o dan y thema hon wedi derbyn y nifer isaf o "bleidleisiau", gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn awgrymu bod angen naill ai gwella'r dulliau presennol o gasglu data neu wella dealltwriaeth o pam mae'r troseddau hyn yn cael eu cyflawni.

- EME(1) Byddwn yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i werthuso'r sylfaen dystiolaeth bresennol, nodi arferion gorau rhyngwladol a chyflwyno amrywiaeth o opsiynau posibl i wella sut y caiff achosion o daflu sbwriel eu hadrodd yng Nghymru. (**5 pleidlais)**

- EME(2) Byddwn yn gweithio gyda Taclo Tipio Cymru ac Awdurdodau Lleol i wella sut y caiff data am dipio anghyfreithlon yng Nghymru eu cofnodi a'u hadrodd. (**4 pleidlais**)

- EME(3) Byddwn yn gweithio gyda busnesau, a rheolwyr a pherchnogion tir i wella sut y caiff achosion o daflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar dir preifat eu cofnodi a'u hadrodd. (**3 Pleidlais**)

Nid yw camau gweithredu a gafodd ddwy bleidlais neu lai wedi'u cynnwys yn yr uchod.

<u>Sylwadau a blaenoriaethau eraill</u>

Awgrymodd nifer o ymatebwyr (17) y dylid ystyried pob cam gweithredu yn flaenoriaeth gan eu bod yn gydgysylltiedig, a bod angen dull gweithredu cyfannol i sicrhau bod y Cynllun yn llwyddo. Yn ogystal â'r safbwynt hwn, roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i ddatblygu prosesau gweithio mewn partneriaeth, a bod hyn yn bwysig iawn wrth ymgysylltu â chymunedau. Roedd y sylwadau eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Blaenoriaethu tipio anghyfreithlon (**8 pleidlais**)
- Blaenoriaethu baw cŵn (**6 pleidlais**)
- Gwahanu sbwriel a thipio anghyfreithlon (**4 pleidlais**)
- Sbwriel wrth ymyl y ffordd mewn ardaloedd gwledig (**3 pleidlais**) ac ar gefnffyrdd (**3 pleidlais**) yn benodol

<u>Dyfyniadau dangosol</u>

*Fel y nodwyd ar ddechrau'r ymgynghoriad, mae angen dull gweithredu cyfannol i fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Ni fydd canolbwyntio ar unrhyw un o'r themâu yn unig yn atal y broblem. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn yn yr hirdymor, mae angen i bob un ohonom werthfawrogi a pharchu ein cymunedau a gwerthfawrogi gwastraff fel adnodd. Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, mae'n bwysig deall pam nad yw lleiafrif o bobl yn gwerthfawrogi nac yn parchu eu cymunedau, wedyn cyflwyno ymyriadau sy'n ei gwneud yn hawdd i bobl wneud y peth iawn ac annog pobl i leihau gwastraff.*

*Rydym yn argymell bod y cynllun gweithredu hwn yn gysylltiedig â nodau Strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru, a'i fod yn hyrwyddo'r nodau hyn yn glir. Hefyd, mae'n bwysig gwella'r sylfaen dystiolaeth a manteisio ar y cyfle i ddysgu trwy drafodaethau agored a gonest gyda phobl sy'n cyflawni'r troseddau hyn. Am y rhesymau hyn, byddem yn argymell blaenoriaethu, yn y tymor byr, y thema Tystiolaeth, Monitro a Gwerthuso yn y cynllun.* **Cyfoeth Naturiol Cymru**

*Mae'n anodd blaenoriaethu themâu'r cynllun, gan fod pob elfen o weithgarwch yn dibynnu ar y lleill am ei llwyddiant. Mae datblygu sylfaen dystiolaeth gywir yn hanfodol i sicrhau bod yr ymyriadau cywir yn cael eu datblygu o dan bob thema.* **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

*Mae'n gwestiwn anodd iawn gan ei bod yn ymddangos bod yr holl themâu yn dibynnu ar ei gilydd am lwyddiant. Mae'n rhaid i chi newid agweddau, ac mae angen cymysgedd o addysg, ymgysylltu ac (yn anffodus) camau gorfodi ar gyfer y rhai*

*mwyaf gwrthwynebus. Fodd bynnag, mae angen sefydlu systemau a phrosesau hefyd i annog pobl i newid agweddau a chynnal y newid, unwaith y bydd y penderfyniad i newid wedi'i wneud. Felly, gydag addysg fel y ffocws craidd, rwy'n credu bod gweithio gyda rhanddeiliaid ar lefelau cymunedol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant, a byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu fel EBC 4,5,6,9 a 10 yn benodol.* **Ymateb dienw**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Cwestiwn 13)**

Er bod ymatebwyr wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys o dan y themâu addysg a gorfodi, ystyriwyd mai cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (13 pleidlais) ar gyfer cynhwysyddion diodydd, a chynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (12 pleidlais) yw'r camau â'r flaenoriaeth uchaf. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi'r ddau gam gweithredu hyn ar waith, ac rydym yn rhagweld y bydd y ddau gynllun hyn yn weithredol erbyn diwedd 2024. Yn bwysig, bydd y diwygiadau trawsnewidiol hyn yn cael eu hategu gan gamau gweithredu eraill, fel diddymu eitemau untro diangen yn raddol, a chefnogi mwy o waith atgyweirio ac ailddefnyddio a fydd yn ceisio newid diwylliant ac ymddygiad, a sut rydym yn defnyddio deunyddiau.

Roedd camau gweithredu eraill â blaenoriaeth uchel a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys sawl cam o dan y thema Addysg ac Ymddygiad. Unwaith eto, mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgais Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, ac mae datblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn barhaus ar y cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ariannu'r rhaglen *Caru Cymru* a fydd yn cyflwyno negeseuon cenedlaethol yn ymwneud â baw cŵn, sbwriel wrth ymyl y ffordd ac annog pobl i fynd â'u sbwriel adref os yw'r bin yn llawn. Hefyd, rydym yn parhau i ariannu ymgyrch *"Eich dyletswydd chi yw gofalu"* Taclo Tipio Cymru sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r angen i bobl gadarnhau a oes gan yr unigolyn sy'n symud eu gwastraff drwydded i wneud hynny.

Blaenoriaeth allweddol arall a nodwyd oedd yr angen i gynorthwyo cymunedau a gwirfoddolwyr i ymgymryd â phrosiectau gwella'r amgylchedd lleol ledled Cymru. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r gwaith hwn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu sut i wneud hyn.

Ar sail y sylwadau a'r camau gweithredu a awgrymwyd, rydym yn bwriadu adolygu ein camau gweithredu a blaenoriaethu elfennau perthnasol y Cynllun yn unol â hynny.

**Cwestiwn 14**: Hoffem wybod eich barn am effeithiau posibl ein Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb cadarnhaol neu negyddol, felly nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys tabl. Ni wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr (264) ymateb i'r cwestiwn hwn, ac o'r rhai a ymatebodd, roedd nifer fawr yn methu nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol. Fodd bynnag, teimlai nifer o ymatebwyr y byddai cynhyrchu cynllun ac unrhyw ddeunydd ategol yn ddwyieithog yn helpu i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod unrhyw negeseuon ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn glir ac yn gyson yn y ddwy iaith. Teimlai nifer fach o ymatebwyr fod yr iaith Gymraeg yn amherthnasol mewn perthynas â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, ac roeddent yn cwestiynu'r angen i'w hystyried.

**Dyfyniadau dangosol**

*Yn bersonol, dwi ddim yn meddwl y bydd y cynllun yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Byddwn yn disgwyl i'r holl lenyddiaeth ac unrhyw wybodaeth/arwyddion/logos fod yn ddwyieithog, fel bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn gyfartal, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.* **Ymateb anhysbys**

*Rwy'n tybio y bydd allbynnau unrhyw gamau gweithredu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys systemau adrodd. O ystyried hynny, rwy'n gobeithio na fydd unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg.* **Ymateb anhysbys**

*Mae hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog yn fantais bob amser. Mae hynny'n sicr o arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Dylai'r iaith Gymraeg gael ei hyrwyddo a'i chefnogi i'r un graddau â'r Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn ei gyfanrwydd.* **Ymateb anhysbys**

*Er nad yw'n ymddangos bod llawer o gysylltiad rhwng y Gymraeg â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, bydd unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg, neu sydd â diddordeb yn y Gymraeg, yn manteisio ar bob cyfle i ymhyfrydu yn y broses o gyfieithu a dehongli unrhyw bwnc i'r Gymraeg. Bydd posteri ymgyrchoedd dwyieithog yn denu diddordeb, gan helpu i ledaenu'r neges wrth-sbwriel. Byddai'n bosibl rhannu deunyddiau â dysgwyr Cymraeg (oed ysgol ac oedolion). Fodd bynnag, mae angen dylunio posteri yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa darged yn awyddus i ddarllen a deall eu neges.* **Grŵp Datblygu Cymunedol Ardal Llanandras**

**Cwestiwn 15**: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid llunio neu newid y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon arfaethedig er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb cadarnhaol neu negyddol, felly nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys tabl. Yn debyg i Gwestiwn 14, ni wnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr (237) ateb y cwestiwn hwn, neu fe wnaethant gyfeirio at sylwadau a gyflwynwyd o dan y cwestiwn blaenorol (Cwestiwn 14). O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd y rhan fwyaf yn credu nad yw ein cynllun yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nododd un ymatebydd nad yw'n glir a oedd y Gymraeg wedi cael ei hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun, ac roedd yn anodd ateb y cwestiwn oherwydd hynny. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd yn credu y dylai'r Cynllun, fel gofyniad sylfaenol, geisio darparu cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd, ac y dylai bod yn ofynnol i bob sefydliad partner hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer pob ymgyrch/gweithgaredd.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod gweithgynhyrchwyr sy'n cyflenwi nwyddau i werthwyr yng Nghymru trwy'r rhyngrwyd yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ar eu gwefannau neu ar labeli deunydd pacio. Awgrymodd un arall y dylai'r Cynllun gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg yn yr un ddogfen (yn hytrach na'u cyfieithu ar wahân) er mwyn helpu pobl i ddysgu'r iaith.

### Dyfyniadau dangosol

*Sicrhau bod yr holl negeseuon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a'u bod mor hygyrch â phosibl, gyda delweddau i ategu'r negeseuon allweddol.* **Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, CLlLC**

*Fe aethom ati i gynnal prosiect mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar i greu cyfres o arwyddion gwrth-sbwriel ar gyfer parc lleol. Roedd y plant wedi defnyddio'r ddwy iaith yn eu harwyddion er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu eu deall. Fel sefydliad cymunedol, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig iawn defnyddio'r ddwy iaith yn ein deunyddiau, ac mae adborth wedi dangos bod pobl yn gwerthfawrogi hyn.* **Ymateb anhysbys**

*Pam y byddai unrhyw elfen o'r gwaith hwn yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg? Rwy'n gwybod, ac yn cytuno, bod angen cyfieithu popeth i'r Gymraeg, ond cyn belled â bod hynny'n digwydd, dwi'n methu gweld sut y gallai fod yn niweidiol i'r Gymraeg.* **Ymateb dienw**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ni wnaeth ymatebwyr nodi unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg, a byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi cadarnhau ei hymrwymiad i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr holl ymgyrchoedd cyfathrebu, dogfennau cysylltiedig a deunyddiau ategol yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, a bydd unrhyw broses ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnig opsiynau i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 16**: Rydym wedi gofyn sawl cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb cadarnhaol neu negyddol, felly nid oes tabl wedi'i gynnwys. Cafwyd 134 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a oedd yn cwmpasu ystod eang o faterion, sylwadau ac awgrymiadau. Roedd nifer fawr o ymatebwyr wedi ailadrodd pwyntiau a safbwyntiau a oedd eisoes wedi'u trafod mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad. At ddibenion ein dadansoddiad, mae'r safbwyntiau hyn wedi'u crynhoi ar sail y categorïau cyffredinol canlynol:

- Gorfodi - Unwaith eto, roedd nifer o ymatebwyr o blaid cyflwyno camau llymach i fynd i'r afael â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon (er enghraifft, dirwyon uwch), neu gyflwyno mwy o gamau yn y maes hwn, er enghraifft cynyddu'r defnydd o gamerâu cylch cyfyng.

- Arferion a/neu bolisïau rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol – Fel sy'n wir am yr ymgynghoriad yn gyffredinol, defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn hwn i feirniadu gwasanaethau gwastraff presennol Awdurdodau Lleol neu awgrymu bod angen newidiadau er mwyn lleihau sbwriel a thipio anghyfreithlon. Roedd hyn yn cynnwys gwella mynediad at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref neu ei gwneud yn haws/yn rhatach i fusnesau waredu eu gwastraff. Hefyd, roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn darparu digon o finiau, neu finiau sy'n addas i ymdopi â'r galw cynyddol (er enghraifft mewn ardaloedd sy'n denu llawer o dwristiaid). Roedd un ymatebydd o blaid dilyn model sy'n cael ei ddefnyddio yn Awstralia, lle mae tair eitem yn cael eu casglu bob blwyddyn yn ddi-dâl gan yr awdurdodau. Awgrymodd un arall fod angen buddsoddi mwy mewn "Safleoedd Dod ag Eitemau" cymunedol.

- Cyllid – Manteisiodd sawl ymatebydd ar y cyfle i fynegi pryderon ynglŷn ag a fyddai'r Cynllun yn cael ei ariannu'n ddigonol, neu ddadlau o blaid darparu mwy o adnoddau i fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon.

- Cyflwyno'r Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon – Nododd Cadwch Gymru'n Daclus fod angen cryfhau'r broses o fonitro ac adolygu'r camau gweithredu, gan awgrymu bod angen cyhoeddi adroddiad blynyddol.

- Canolbwyntio mwy ar godi ymwybyddiaeth a chyfathrebu – Awgrymodd tri ymatebydd y dylid defnyddio pobl enwog i godi ymwybyddiaeth o'r materion, gan ddefnyddio sêr chwaraeon yn benodol i helpu i ymgysylltu â phobl ifanc. Awgrymodd un ymatebydd fod angen darparu mwy o ddeunyddiau a gwybodaeth i helpu'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg, neu nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

- Pryderon yn ymwneud â gwaredu eitemau penodol - Nododd nifer fach o ymatebwyr fod angen cyflwyno camau gweithredu ar gyfer eitemau penodol, gan gynnwys teiars cerbydau, cadachau gwlyb (weips) a chynhyrchion

amaethyddol fel deunydd lapio silwair. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno rhagor o gamau gweithredu ar gyfer plastigau untro, a hyrwyddo dewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio neu sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

- Baw cŵn – Roedd sawl ymatebydd wedi pwysleisio bod angen cynnwys camau gweithredu ar faw cŵn, gan nodi bod yn rhaid i'r Cynllun ganolbwyntio mwy ar y mater hwn.

- Sbwriel wrth ymyl y ffordd – Roedd camau gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel wrth ymyl y ffordd yn cyd-fynd ag awgrymiadau i wella atebolrwydd cwmnïau bwyd brys, neu awgrymiadau i gyflwyno mwy o gamau gorfodi yn erbyn troseddwyr. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cyflwyno manylion cofrestru ceir ar ddeunydd pacio.

Sylwadau eraill

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at feysydd sydd, yn eu barn nhw, wedi'u hepgor o'r Cynllun neu sydd angen eu cryfhau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwersylla anghyfreithlon;

- yr angen i wella cymorth ar gyfer tirfeddianwyr preifat (y rhai yn y gymuned ffermio yn benodol);

- camau gweithredu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn coetiroedd;

- Roedd *Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru* eisiau gweld cysylltiadau cryfach â Chynlluniau Llesiant ac Asesiadau Strategol Diogelwch Cymunedol gan fod yna gysylltiad yn aml rhwng taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon â pha mor ddiogel y mae pobl yn teimlo yn eu cymuned leol;

- creu Cronfa Atal Sbwriel i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion newydd ac arloesol.

Dyfyniadau dangosol:

*Mae tipio anghyfreithlon yn ffiaidd - mae'n dwyn tir ac yn lladd bywyd gwyllt. Mae angen ei atal.* **Shay Holland**

*Dylech gynnwys baw cŵn yn eich ymgyrchoedd. Dylech egluro bygythiad codennau hydatid mewn meysydd chwarae plant. Eglurwch nad yw plant, plant bach, yr henoed a phobl ddall neu rannol ddall yn gallu gweld baw cŵn naill ai yn y dref neu yng nghefn gwlad, a bod angen i berchnogion cŵn adael llwybrau troed a phalmentydd yn lân.* **Ymateb dienw**

## Ymatebion i'r Fersiwn Hawdd ei Deall o'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n meddwl y bydd y Cynllun yn helpu i atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru?

| C1 – Hawdd ei Deall | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Ddim yn gwybod neu heb ateb y cwestiwn yn uniongyrchol** | **Dim ateb** |
| **Niferoedd** | **8** | **7** | **4** | **3** |
| **Canran** | 36% | 32% | 18% | 14% |

O'r 19 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd ychydig dros hanner yn credu y byddai'r Cynllun arfaethedig yn helpu i atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, a nododd pedwar ymatebydd eu bod yn ansicr a fyddai'n gwneud hynny. Nododd un ymatebydd mai dull ataliol yw'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r materion hyn, ac roedd yn croesawu'r pwyslais ar leihau deunydd pacio gwastraff a chefnogi mentrau ailgylchu/ailddefnyddio. Roedd ymatebydd arall yn croesawu gweithio gyda gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr.

Pwysleisiwyd maint y broblem gan y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r Cynllun, ac roedd rhai ymatebwyr yn nodi bod sbwriel yn dychwelyd yn gyflym iawn, er gwaethaf y gwaith rheolaidd i'w glirio. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn optimistaidd y byddai'r camau gweithredu arfaethedig yn helpu i sicrhau newidiadau mwy hirhoedlog, gan gyfeirio'n benodol at y cynnig ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynhwysyddion diodydd. Roedd ymatebydd arall yn cymeradwyo'r Cynllun ond yn cwestiynu a fyddai'n arwain at newidiadau sylweddol gan ei fod yn awgrymu camau gweithredu tebyg i'r rhai sydd ar waith eisoes ac sy'n methu.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn gwrthwynebu yn teimlo bod y Cynllun yn fiwrocrataidd, neu ei fod yn canolbwyntio gormod ar gasglu rhagor o wybodaeth yn hytrach nag ymdrin â'r broblem yn uniongyrchol. Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â chyfuno taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon, gan awgrymu eu bod yn droseddau gwahanol a bod angen dulliau gweithredu gwahanol ar eu cyfer. Roedd ymatebydd arall yn cytuno â'r dull gweithredu ar y cyd gan ei fod yn hyrwyddo proses o weithio mewn partneriaeth.

**Dyfyniadau dangosol**

*Nac ydw, oherwydd ei fod yn cynnig ymgynghoriadau diangen a gwaith ymchwil sy'n rhy fanwl. Mae pawb yn gwybod beth yw'r problemau, felly rydym yn gofyn am weithredu.* **Ymateb anhysbys**

*Ydw, mae'r cynllun yn hyrwyddo atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ac yn amlinellu mesurau i fynd i'r afael â phroblemau sydd eisoes yn bodoli mewn*

*cymunedau. Mae'r syniad o dargedu gweithgarwch atal ar lefel sylfaenol yn bwysig iawn, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth ac addysg. Mae grwpiau gwirfoddolwyr cryf iawn yn gweithredu yn Wrecsam gan ganolbwyntio ar fentrau sbwriel a di-blastig, ac mae angen rhoi pob anogaeth a chymorth i'r grwpiau hyn. Mae cymhellion i hyrwyddo ailgylchu ac atgyweirio yn rhagorol, a byddai mwy o gyllid ar gyfer Caffis Atgyweirio yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft. Mae angen cynnwys tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel mewn un cynllun gan fod cysylltiad agos rhyngddyn nhw a'u bod yn rhan o strategaeth ehangach yn ymwneud â lleihau gwastraff a hyrwyddo ailgylchu.* **Ymateb anhysbys**

**Cwestiwn 2:** A oes gennych unrhyw syniadau eraill ar gyfer atal taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ymateb cadarnhaol neu negyddol, felly nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys tabl. Fodd bynnag, derbyniwyd 20 ymateb i'r cwestiwn hwn ac awgrymwyd ystod o gamau gweithredu ychwanegol. Maent wedi'u trefnu ar sail themâu cyffredin a'u crynhoi isod.

Newidiadau i bolisïau a seilwaith rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol

Roedd dros hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (12) wedi gwneud awgrymiadau yn ymwneud â sut mae Awdurdodau Lleol naill ai'n casglu gwastraff gan eu trigolion, neu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ganiatáu i breswylwyr waredu eu gwastraff yn gyfreithlon. Un cais cyffredin oedd sicrhau bod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref neu "Domennydd" yn dod yn "haws eu defnyddio", ac roedd rhai ymatebwyr wedi mynegi rhwystredigaeth ynglŷn â sut mae rhai canolfannau yn gweithredu ar hyn o bryd, neu bellter y safleoedd hyn o'u cartrefi. Awgrymodd eraill y dylai'r taliadau a godir ar fusnesau bach i waredu eu gwastraff naill ai gael eu dileu neu eu lleihau, oherwydd teimlwyd bod hyn yn rheswm posibl pam y mae gwastraff adeiladu a gwastraff busnes yn cael ei dipio'n anghyfreithlon.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid mabwysiadu un dull ailgylchu yng Nghymru yn hytrach na chaniatáu i Awdurdodau Lleol unigol fabwysiadu cynlluniau gwahanol. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at yr angen am fwy o finiau sbwriel, neu finiau gwastraff domestig mwy o ran maint. Cyfeiriodd ymatebydd arall at y ffaith fod lorïau yn creu sbwriel ar ôl gwagio biniau gwastraff domestig. Awgrymodd dau ymatebydd y dylid defnyddio Wardeiniaid Sbwriel i helpu i fynd i'r afael â sbwriel.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn cefnogi cynlluniau i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y dylid cynnwys eitemau eraill hefyd, er enghraifft batris na ellir eu hailwefru.

Camau gweithredu i wella gorfodaeth

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o gamau gorfodi i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio mwy o gamerâu cylch cyfyng, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau glanhau lleol a rhoi cyhoeddusrwydd i faint o bobl sydd wedi'u dal. Awgrymodd un ymatebydd y dylid atafaelu cerbydau a dirymu trwyddedau gyrwyr am flwyddyn os ydynt yn cael eu dal yn tipio'n anghyfreithlon, gan gynyddu'r gosb hon os yw'r troseddwr yn gweithredu busnes gwastraff.

Camau i fynd i'r afael â sbwriel o fwyd brys a sbwriel ar ymyl y ffordd

Fel gyda'r ymatebion i'r brif ddogfen ymgynghori, nododd ymatebwyr fod busnesau bwyd brys a busnesau tecawé yn ffynhonnell sbwriel y mae angen mynd i'r afael â hi. Roedd y syniadau a gyflwynwyd yn cynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob busnes tecawé sicrhau bod ei ddeunydd pacio yn fioddiraddiadwy, cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i argraffu manylion

cofrestru ceir ar ddeunydd pacio tecawê, a gosod mwy o gyfrifoldeb ar fusnesau i gadw eu hardaloedd lleol yn lân.

Argymhellodd dau ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun codi tâl ar fusnesau sy'n gwerthu drwy ffenestr y car a siopau tecawê, gan ddibynnu ar faint o'u deunydd pacio sy'n cael ei ganfod. Byddai hyn wedyn yn talu am y costau glanhau a ysgwyddir gan Awdurdodau Lleol.

Roedd mentrau ariannol eraill yn cynnwys cyflwyno treth blastig untro, neu dreth sbwriel a chynyddu treth car dros dro £50 i helpu i dalu am gamerâu teledu cylch cyfyng a mesurau gorfodi.

Codi ymwybyddiaeth ac addysg

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i wella ymwybyddiaeth o effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon ar yr amgylchedd. Teimlai un ymatebydd y dylai mwy o negeseuon ganolbwyntio ar bobl sy'n taflu sbwriel o'u cerbydau, ac awgrymodd un arall y dylid cynnal ymgyrch sy'n debyg i'r ymgyrchoedd i wneud yfed a gyrru yn annerbyniol. Teimlai eraill fod angen mwy o arwyddion i dynnu sylw at y mater.

Roedd tri ymatebydd yn teimlo bod angen mwy o addysg mewn ysgolion i hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol ymysg plant a phobl ifanc.

Dyfyniadau dangosol

*Dylai unrhyw un sy'n cael ei ddal yn taflu sbwriel gael ei orfodi i gasglu sbwriel yn gwisgo oferôls oren llachar, ac mae angen atafaelu cerbyd a dirymu trwydded yrru am flwyddyn o leiaf os oes rhywun yn cael ei ddal yn tipio'n anghyfreithlon. Os ydynt yn fusnesau sydd wedi'u trwyddedu i waredu sbwriel, dylai eu trwydded fusnes a'u trwydded yrru gael eu dirymu am o leiaf bum mlynedd, gan atafaelu eu cerbydau a rhoi dedfryd o garchar iddynt. Mae angen cymryd camau llym yn eu herbyn, a pheidio â bod yn feddal. Dylai unrhyw un sy'n cael ei ddal yn tipio'n anghyfreithlon gael ei orfodi i glirio'r holl sbwriel yn yr ardal. Dylai unrhyw un sy'n cael ei euogfarnu o daflu sbwriel a thipio'n anghyfreithlon gael ei enwi er mwyn codi cywilydd arno.*
**Ymateb dienw**

*Byddai sicrhau bod safleoedd ailgylchu gwastraff cartref yn haws i'w defnyddio yn helpu hefyd - mae pob un yn Abertawe yn derbyn ystod wahanol o wastraff ac mae angen car i ddefnyddio pob un - beth mae pobl heb geir i fod i'w wneud? Dylem fod yn annog mwy o bobl i feicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y safleoedd hyn neu gynyddu'r ystod o fathau o ailgylchu sy'n cael eu casglu ar stepen y drws (polystyren, cartonau diodydd, pacedi creision ac ati). Hefyd, mae angen cyflwyno un system ar gyfer deunydd ailgylchu a gwastraff cartref ledled y wlad yn hytrach na'r system ad hoc sy'n bodoli ar hyn o bryd, yn seiliedig ar arferion gorau ledled Cymru a thu hwnt.*

*Byddai canolfannau casglu sbwriel ym mhob cymuned - mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol o bosibl - sy'n cynnig offer i'w benthyg, yn helpu cymunedau i ddelio â'r broblem. Ac os yw cymunedau'n cymryd perchnogaeth o'r*

*broblem, byddai'n helpu i annog pobl i beidio â thaflu sbwriel drwy bwysau cymdeithasol. Os yw'r broblem cael ei hystyried yn broblem i'r cyngor neu'r llywodraeth, mae pobl yn llai tebygol o gydymffurfio.* **Ymateb dienw**

## Camau Nesaf Llywodraeth Cymru

Mae'r nifer fawr o ymatebion a dderbyniwyd drwy'r broses ymgynghori a'r safbwyntiau cadarn a fynegwyd yn yr ymatebion hynny yn dangos bod sbwriel a thipio anghyfreithlon yn faterion sy'n bwysig iawn i bobl yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad wedi darparu mewnbwn gwerthfawr ac argymhellion defnyddiol a fydd yn helpu i gryfhau'r Cynllun drafft presennol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid er mwyn sicrhau bod allbynnau'r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

# ATODIAD 1

**Taclo Tipio Cymru – Gweithdai ymgynghori**

**Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon**

*Adborth gan Weithgorau Taclo Tipio Cymru a sylwadau'r timau:*

Mae Taclo Tipio Cymru wedi ymgysylltu â phartneriaid sy'n mynychu ein gweithgorau Rheoli'r Tir, Cymunedau a Gorfodi, er mwyn darparu adborth anffurfiol ar y Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.

Rydym wedi cynnwys cyn lleied o fanylion â phosibl er mwyn hwyluso'r broses o ddarllen y sylwadau, ond mae Taclo Tipio Cymru yn hapus i fanylu ar unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd. Mae sylwadau a chonsensws o'r gweithgorau wedi'u goleuo mewn testun italig mewn bocs.

Mae'r adborth hwn ar wahân i'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (sy'n cynnal ac yn cydgysylltu partneriaeth Taclo Tipio Cymru). Hefyd, mae Taclo Tipio Cymru wedi llywio, ac yn cefnogi, ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gan nad ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol yw hwn, nid yw wedi'i strwythuro o dan y cwestiynau penodol, fodd bynnag, teimlwyd bod angen ymateb i Gwestiwn 1, sef:

Ydych chi'n cytuno y dylid ymdrin â thaflu sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un cynllun sengl? Os nad ydych, rhowch reswm am eich ateb.

- Cafwyd consensws yn y Gweithgor Gorfodi y dylid cadw sbwriel a thipio anghyfreithlon ar wahân oherwydd natur droseddol tipio anghyfreithlon. Roedd llawer yn teimlo bod y camau penodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â phob mater yn wahanol iawn o safbwynt dull gorfodi.

- Mynegwyd safbwyntiau amrywiol yn y Grŵp Cymunedau a'r Gweithgor Tirfeddianwyr – roedd rhai yn teimlo bod cyfuno'r ddau fater yn syniad da, ac eraill yn credu bod angen eu cadw mewn cynlluniau ar wahân.

## Thema 1:  Lleihau Gwastraff

- WR (5) Cafwyd consensws gan y Gweithgor Cymunedau y dylai'r Cynllun Dychwelyd Ernes fod yn flaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â sbwriel.

## Thema 2:  Tystiolaeth, monitro a gwerthuso

**Yr hyn sy'n dilyn yw sylwadau cyffredinol gan y Gweithgorau ar Thema 2:**

- Sut rydym yn mesur llwyddiant? Erlyniadau llwyddiannus?

- Nid yw LEAMS yn fesur da – nid yw'n cofnodi problemau gwirioneddol e.e. sigaréts mewn ardaloedd penodol. Ffyrdd prifwythiennol /cefnffyrdd a ffyrdd gweledig.

- Tipio anghyfreithlon – sut gallwn ni fesur newidiadau mewn agweddau /ymddygiad.

- Sut i fesur tipio anghyfreithlon ar dir Cymdeithasau Tai gan nad yw Awdurdodau Lleol yn clirio hyn.

- Gwasanaeth Tân yn gofyn i Gymdeithasau Tai glirio tipio anghyfreithlon ar eu tir. Elfen dân. Gwella'r broses o gofnodi eitemau gwastraff sydd wedi'u llosgi – ni fydd modd gwybod a oes symiau bach neu fawr wedi'u llosgi (cofnodir gan y criw yn ystod y digwyddiad – cofnodir fel sbwriel tân ac nid tipio anghyfreithlon yn aml).

## Thema 3.  Addysg a newid ymddygiad

**Yr hyn sy'n dilyn yw sylwadau cyffredinol gan y Gweithgorau ar Thema 3:**

- Disgwyliadau'r cyhoedd yn erbyn beth mae Awdurdodau Lleol /Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ei wneud mewn gwirionedd – angen pontio'r bwlch.

- Cydnabod ymdrechion gwirfoddolwyr – ond nid ydynt yno i wneud 'gwaith budr' pobl eraill yn unig.

- Addysgu trigolion a chynghorwyr ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud mewn perthynas â chymryd tystiolaeth o wastraff – yn ei gwneud yn anodd i Awdurdodau Lleol weithredu wedyn.

- Mae tir a reolir gan Gymdeithasau Tai yn broblem nad yw'n cael ei hadrodd yn aml.

- Gellir defnyddio llythyr rhybudd yn y lle cyntaf - (cyfle i greu llythyr safonol i'w ddefnyddio gan bawb). Mae casglu eitemau swmpus yn gallu bod yn ddrud. Gwrthdaro â chlirio gwastraff – mae pobl yn camddefnyddio'r gwasanaeth hwn wedyn trwy roi eitemau allan > wrth eu clirio.

- Mae gan rai Awdurdodau Lleol dimau tipio anghyfreithlon dynodedig.

- Mae angen ystyried sbwriel sigaréts a chymryd camau gorfodi yn ei erbyn – mae pobl yn ei ystyried mewn ffordd wahanol yn hytrach na fel sbwriel – addysg.

- Cefnogaeth ar gyfer y ddau o dan un cynllun gan fod yr holl faterion yn ymwneud â pharchu'r amgylchedd lleol – hyd yn oed os oes angen dull gwahanol o fynd i'r afael â nhw /mae timau cynghorau eisoes yn ymdrin â nhw o dan un strategaeth.

- Mae gan yr Awdurdod Lleol dîm sbwriel a baw cŵn ar wahân, ac un arall ar gyfer parcio. Mae cyllidebau ar wahân ac mae angen ystyried hyn.

- Y Gwasanaeth Tân – poeni mwy am yr hyn sy'n mynd ar dân - e.e. sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn biniau cyhoeddus.

- Yn aml, mae timau gorfodi preifat yn cael eu beirniadu /eu drwgdybio gan y cyhoedd – weithiau maent yn canolbwyntio ar droseddwyr /grwpiau penodol (hawdd i'w herlyn). Mae'n haws /llai trafferthus mynd i'r afael â pharcio na phobl yn gollwng sbwriel.

- Mae barn y cyhoedd a gasglwyd yn awgrymu y dylid cadw sbwriel a thipio anghyfreithlon mewn un ddogfen. Er y teimlwyd bod yna rai problemau gwahanol iawn. Mae tipio anghyfreithlon yn fwy cymhleth ac mae angen adlewyrchu hyn.

- Dylai strydoedd trefol fod yn flaenoriaeth yn y Cynllun – nid dim ond sbwriel ymyl ffordd.

- Perygl dyblygu a pheidio â chanolbwyntio ar dipio anghyfreithlon.

- Ymgyrch caru eich lôn – yn canolbwyntio ar lonydd cefn mewn ardaloedd adeiledig. Dosbarthu llythyrau, gosod arwyddion a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o dipio anghyfreithlon a phwysleisio ei bod yn lle da i blant chwarae. Ymgyrch 2 fis mewn 4 man problemus o ran tipio anghyfreithlon (lonydd). Wedi cael llwyddiant da yn lleihau lefelau tipio anghyfreithlon.

- Mae angen cynnwys baw cŵn a gwm cnoi yn y cynllun atal.

## Thema 4. Gorfodi Effeithiol

**Yr hyn sy'n dilyn yw sylwadau cyffredinol gan y Gweithgorau ar Thema 4.**

- Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddf sy'n cosbi ceidwad cofrestredig heb holi am atebolrwydd. Mae deddf o'r fath yn bodoli yn Lloegr ond mae Cymru wedi gwrthod *(rydym yn credu bod y sylw hwn yn ymwneud â thaflu sbwriel o gerbydau).*

- Os mai sbwriel ymyl ffordd yw'r brif broblem, mae'n dod o gerbydau, felly mae angen yr adnoddau arnom i weithredu! Mae angen defnyddio camerâu traffig i drosglwyddo rhifau cofrestru perchnogion cerbydau sy'n taflu sbwriel.

- Fforymau gwybodaeth trawsffiniol – rhannu achosion a gwybodaeth yn ffurfiol – yn barod ar gyfer diwrnodau stopio ac archwilio masnachwyr twyllodrus.

- Partneriaeth PACE – cynnwys partneriaid o Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r heddlu mewn cyfweliadau er mwyn hyrwyddo cydweithio a rhannu gwybodaeth.

- Blaenoriaethau – gorfodi ac adnoddau gorfodi, ond mae angen ystyried y mater mewn ffordd holistaidd.

- Rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol (mynediad PCN). Mae angen ymdrin â'r mater hwn yn genedlaethol ac yn gyson.

- Defnyddio'r holl dechnoleg sydd ar gael.

- Mae diffyg gwybodaeth sefydliadau /staff am y ddeddf diogelu data yn rhwystr i gamau gorfodi.

- Mae sbwriel o geir yn broblem – angen deddfwriaeth – y DVLA yn gwneud gwaith archwilio manwl yn y cyswllt hwn.

- Mae Awdurdodau Lleol yn credu bod y cyhoedd eisiau mwy o weithgarwch gorfodi. Nifer o hysbysiadau cosb benodedig heb eu talu – oedi mawr yn y llysoedd ar hyn o bryd.

- Mynd ar ôl unigolion nad ydynt wedi talu, ac ansicrwydd am ddyddiadau llys. Atal – prisiau'n codi eto i'w casglu gan Awdurdodau Lleol, y cyhoedd yn cael eu denu gan weithredwyr anghyfreithlon o bosibl /Facebook /hysbysebion ar-lein.

- Y Gwasanaeth Tân – Mae angen rhoi blaenoriaeth i gamau gorfodi, ac mae angen gweithio’n well gyda’r heddlu.

## Thema 5. Cyflawni Gweithredol

**Yr hyn sy’n dilyn yw sylwadau cyffredinol gan y Gweithgorau ar Thema 5**

- “Lleihau gwastraff yw’r allwedd”.
- “Effaith ffenestr wedi’i thorri – os nad ydych chi’n ei thynnu ar unwaith, bydd pobl yn gwneud y sefyllfa’n waeth”.
- “Dim ond darparu cyngor/gofyn am gymorth gan Awdurdodau Lleol /Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati y gall y Gwasanaeth Tân ei wneud. Rwy’n teimlo’n fwy ymatebol na rhagweithiol ar hyn o bryd o safbwynt mynd i’r afael â thipio anghyfreithlon – ar ôl iddo gael ei losgi”.
- “Mae angen mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau. Mwy o waith cydgysylltiedig oddi mewn i gynghorau i fynd i’r afael â thipio anghyfreithlon – h.y. Iechyd yr Amgylchedd ac atal Llygredd.”
- “Trwydded Cludo Gwastraff – mae angen gwiriadau cyn cyhoeddi trwydded – gwirio cyfeiriad /cymeriad unigolyn – gweithdrefn addas a phriodol ar gyfer y drwydded yn debyg i brofion ar gyfer landlordiaid Rhentu Smart Cymru”.
- “Hefyd, cyflwyno proses e-ddysgu ac asesiad (amlddewis) cyn cyhoeddi trwydded er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac atebolrwydd, fel ymwrthodiad.”
- “Cyflwyno gofyniad ar gyfer rhannu arferion gorau trawsffiniol a chysondeb.”
- “Dwi ddim yn awyddus i gyfuno’r cynllun o ystyried bod yr ateb, y rhesymau a’r rhwystrau yn wahanol iawn.”
- “Byddai gwasanaethau casglu gwastraff swmpus di-dâl yn rhoi pwysau enfawr ar wasanaethau casglu gwastraff (adnoddau llafur/amser)”.
- “Casgliadau di-dâl ychwanegol ar gyfer eitemau swmpus ar ddiwedd y tymor ym Mangor i fynd i’r afael â gwastraff myfyrwyr. Mae Caerdydd yn gwneud hyn hefyd ac mae’r canlyniadau yn dda”.